



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24



CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n rhoi gwybodaeth am Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Bydd yn rhoi gwybodaeth i'r darllenydd am ein gwasanaethau, y gofal a ddarparwn a'r hyn a wnawn i gynllunio, darparu a gwella'r gwasanaethau hynny. Bydd yn rhoi manylion i'r darllenydd am berfformiad yr Ymddiriedolaeth a sut y gwnaethom ymateb i ofynion a heriau newidiol yn 2023/24.

Yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2023/24 a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF, mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 yn cynnwys: -

Rhan 1: Adroddiad Perfformiad sy'n manylu ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn a sut y gwnaethom addasu ac ymateb i'r pwysau ar y system sy'n effeithio ar ein cleifion a'n pobl ar hyn o bryd.

Rhan 2: Adroddiad Atebolrwydd sy'n manylu ar y gofynion atebolrwydd allweddol a'n Datganiad Llywodraethu, sy'n darparu gwybodaeth am sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli adnoddau a risgiau, ac yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu.

Rhan 3: Datganiadau Ariannol sy'n manylu ar sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwario ei harian a chyflawni ei rhwymedigaethau. Mae'r cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 wedi'u paratoi i gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) Trysorlys EF, gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru o dan atodlen 9 adran 178 Para 3 (1) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) yn y ffurf y cyfarwyddodd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Ar gyfer 2023/24, mae Adroddiad Dyletswydd Ansawdd ar wahân wedi'i baratoi a bydd y datgeliadau sy'n ofynnol yn unol â'r adroddiadau Dyletswydd Gonestrwydd yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella ar gyfer 2023/24 (a gyhoeddir ddiwedd 2024).



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

Er bod acronymau'n cael eu hesbonio'n llawn pan gânt eu defnyddio gyntaf, cynhwysir rhestr termau ar dudalen 8 er hwylustod. Os oes angen fersiwn printiedig o'r Adroddiad Blynyddol arnoch, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd yn Trish.Mills@wales.nhs.uk. Bydd y fersiwn Gymraeg o Adroddiad Blynyddol 2023/24 ar gael ar dudalen '[Cyhoeddiadau](#)' yr Ymddiriedolaeth ar ôl i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024 gael ei gynnal.



GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

Croeso i Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar gyfer 2023/24. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am ein llwyddiannau a'n heriau dros y flwyddyn ddiwethaf ac y bydd yr wybodaeth yn ddefnyddiol.

Bob blwyddyn, mae ymdrech enfawr yn mynd i mewn i'r ddogfen hon, ac mae'n rhoi cyfle i ni fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr fyfyrion ar y flwyddyn sydd wedi mynd heibio a'r flwyddyn sydd eto i ddod. Mae bob amser yn braf sylweddoli, er gwaethaf yr heriau niferus iawn sy'n wynebu sefydliadau iechyd yr 21^{ain} ganrif, fod yna gysondeb ysbryd ac ymrwymiad gan ein pobl, sy'n gweithio mor galed i roi o'u gorau i'n cleifion.

Mae'r heriau sy'n ein hwynebu wedi'u dogfennu'n dda ond er bod perfformiad, ynghyd â phrofiad ein cleifion a'n pobl, gryn bellter o'r lle yr hoffem iddynt fod, mae blwyddyn ariannol 2023/24 wedi teimlo ychydig yn wahanol.

Mae hyn yn bennaf oherwydd y gwaith yr ydym wedi'i wneud ar ein strategaeth a'n model clinigol wedi'i adnewyddu, yr ydym wedi bod yn gweithio'n galed i'w ddatblygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae hyn wedi ein gweld yn canolbwyntio llawer mwy ar yr hyn y gallwn ei wneud i helpu ein hunain a chwarae ein rhan lawn wrth gefnogi'r system iechyd a gofal ehangach yng Nghymru, yn enwedig drwy ailedrych ar ein model clinigol i sicrhau ein bod yn defnyddio'r holl gyfleoedd sydd ar gael inni i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal cywir, gan y gweithiwr proffesiynol cywir, ar yr adeg gywir.

Wrth inni symud i mewn i flwyddyn ariannol 2024/25, byddwn yn cyflymu'r gwaith o gyflawni ein strategaeth, a gobeithiwn y bydd mwy o gleifion yn cael gofal mwy priodol ac amserol.

Yn y cyfamser, roedd 2023/24 yn parhau i fod yn flwyddyn lle parhaodd ein pobl i wneud eu gorau, yn aml mewn amgylchiadau anodd, i gefnogi cleifion a darparu'r gofal gorau posibl. Fel Bwrdd, fe wnaethom barhau i gadw llygad barcud ar



berfformiad, profiad cleifion a staff, gan gynnwys drwy ein strwythurau pwyllgor cadarn. Mae ein cyllid hefyd yn destun craffu, ac roeddem yn falch o orffen y flwyddyn fel un o'r ychydig sefydliadau GIG Cymru a allai gyflwyno cynllun ariannol cytbwys i gefnogi ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27 i Lywodraeth Cymru.

Roedd yn bleser gennym orffen y flwyddyn gyda'r newyddion bod ein cais i ddod yn Ymddiriedolaeth Brifysgol wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, sy'n golygu o 1 Ebrill 2024 ein bod wedi dod yn Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Mae hwn yn gamp nodedig i ni ac mae'n adlewyrchu'r blynyddoedd lawer o waith caled ym maes ymchwil, arloesi, addysgu a dysgu y mae cydweithwyr wedi'u dilyn i'n gosod ni fel un o'r ymddiriedolaethau ambiwlans mwyaf blaenllaw yn y DU.

Er bod llawer o feysydd o hyd lle rydym wedi ymrwmo i wneud cymaint yn well dros ein pobl a'n cleifion, mae'n werth stopio i ddathlu'r cyflawniadau cadarnhaol a'n rhoddodd mewn sefyllfa wych i wynebu'r flwyddyn i ddod gydag optimistiaeth newydd.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r Adroddiad Blynyddol. Ystyriwch fynychu ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn a chadwch lygad ar y cyfryngau cymdeithasol am ddiweddariadau ar hyn a llawer o bethau eraill i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd.

Gyda'n cofion gorau,

Colin Dennis

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth



Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth
GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
2023/24

Jason Killens

Prif Swyddog Gweithredol



Tudalen 5 o 204



CYNNWYS YR ADRODDIAD

CYFLWYNIAD.....	2
GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL	4
RHAN 1: – ADRODDIAD PERFFORMIAD	11
TROSOLWG PERFFORMIAD	11
1.1. Cyflwyniad.....	11
1.2. Datganiad gan y Prif Swyddog Gweithredol	11
1.3. Meysydd Cyfrifoldeb	13
1.4. Ein Diben a'n Strategaeth Hirdymor.....	14
1.5. Y Cynllun Tymor Canolig Integredig	15
1.6. Crynodeb o Berfformiad	16
1.6.1 Ein Cleifion – Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf	18
1.6.2 Ein Pobl.....	27
1.6.3 Cyllid a Gwerth.....	30
1.6.4 Partneriaethau a Chyfraniadau'r System	31
1.6.5 Cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.....	34
1.6.6 Rheoli Risg.....	36
DADANSODDIAD O BERFFORMIAD A CHYFLAWNI	39
1.7. Ein Cleifion (Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf)	39
1.8. Ein Pobl	60
1.9. Cyllid a Gwerth	65
1.10. Gwybodaeth Perfformiad Anariannol.....	67
1.11. Partneriaethau a Chyfraniad y System	67
1.12. Atal a Rheoli Heintiau.....	72
1.13. Cyflawni mewn Partneriaeth	74
1.14. Blaenoriaethau Gweinidogol a GIG Cymru.....	76



1.15.	Rheoli'r Gweithlu a Lles.....	84
1.16.	Gwneud Penderfyniadau a Llywodraethu	88
1.17.	Casgliadau ac Edrych Ymlaen.....	91
1.18.	Dolenni i Wybodaeth Bellach	93
RHAN 2:- ADRODDIAD ATEBOLRWYDD		95
2.1	Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	96
2.1.1	Adroddiad y Cyfarwyddwyr.....	97
2.1.2	Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol	103
2.1.3	Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr mewn perthynas â'r Cyfrifon 105	
2.1.4	Y Datganiad Llywodraethu	107
2.2	Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi 179	
2.3	Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff	180
2.4	Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru	196
RHAN 3:- DATGANIADAU ARIANNOL		204



RHESTR TERMAU	
Byrfodd	Term
AAA	Adroddiad Rhybuddio, Cynghori a Sicrhau
ACA1/2	Cynorthwydd Gofal Ambiwylans
ADLT	Tîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol
AfC	Agenda ar gyfer Newid
AGM	Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
AMR	Ymwrthedd Gwrthficrobaidd
APC	Y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd
APPs	Ymarferwyr Parafeddygol Uwch
AQIs	Dangosyddion Ansawdd Ambiwylansys
ARAC	Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd
BAF	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
CAS	System Asesu Clinigol
CASC	Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwylans
CC	Pwyllgor Elusennau
CCC	Canolfannau Cyswllt Clinigol
CFRs	Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned
CHARU	Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru
CIAT	Tîm Deallusrwydd a Sicrwydd Clinigol
COPI	Rheoliadau Rheoli Gwybodaeth Cleifion
COSHH	Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
CPR	Adfywio Cardio-pwlmonaidd
CRR	Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
CQGG	Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol
CSD	Desg Gymorth Glinigol
DAP	Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio
EASC	Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys
EDs	Adrannau Argyfwng
EMS	Gwasanaeth Meddygol Brys
EMT	Technegydd Meddygol Brys
ELT	Tîm Arweinyddiaeth Weithredol
ePCR	Cofnod Gofal Cleifion Electronig
EPRR	Gwydnwch ac Ymateb Parodrydd am Argyfwng
ESR	Cofnod Staff Electronig
HART	Tîm Ymateb i Ardaloedd Peryglus
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru



RHESTR TERMAU	
Byrfodd	Term
FPC	Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
FReM	Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth
FTE	Cyferwerth ag Amser Llawn
HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
ICAP	Cynllun Gweithredu Comisiynu Integredig
SCG	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig
IPC	Atal a Rheoli Heintiau
IRP	Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad
JCC	Cydbwyllgor Comisiynu
JESIP	Cyd-Egwyddorion Rhyngweithrededd Gwasanaethau Brys
JIF	Fframwaith Ymchwiliadau ar y Cyd
JOL	Dysgu Sefydliadol ar y Cyd
LCFS	Y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol
LRF	Fforwm/Fforymau Lleol Cymru Gydnerth
MACA	Cymorth Milwrol i Awdurdodau Sifil
MAI	Ymchwiliad Arena Manceinion
MDS	Set Ddata Sylfaenol
MIQPR	Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol
NEPTS	Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys
NHSDW	Galw Iechyd Cymru
NQP	Parafeddyg Newydd Gymhwyso
NRIs	Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol
PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
PADRs	Adolygiadau Perfformiad a Datblygu
PCC	Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
PECI	Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned
PPE	Cyfarpar Diogelu Personol
OGCC	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
QIA	Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd
QMG	Grŵp Rheoli Ansawdd
QuEST	Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch
Ch1, Ch2, Ch3, Ch4	Chwarter (y flwyddyn ariannol)
RC	Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth
REAP	Cynllun Gweithredu Uwchgyfeirio Adnoddau
RRB	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol



RHESTR TERMAU	
Byrfodd	Term
RIF	Cronfa Integreiddio Rhanbarthol
ROSC	Adferiad cylchrediad digymell yn sgil ataliad ar y galon
SDECs	Canolfannau Gofal Brys yr Un Diwrnod
OS	Offeryn Statudol
SORT	Tîm Ymateb Gweithredol Arbenigol
STB	Bwrdd Trawsnewid Strategol
STEMI	Cnawdnychiant myocardiaidd â dyrchafiad segment ST
Yr Ymddiriedolaeth	Welsh Ambulance Services NHS Trust
TRiM	Trawma a Rheoli Risg
UCS	Gwasanaeth Gofal Brys
UTS	Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol
WASPT	Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
WHSCC	Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
WTEs	Cyferwerth ag Amser Cyflawn



RHAN 1: – ADRODDIAD PERFFORMIAD

TROSOLWG PERFFORMIAD

1.1. Cyflwyniad

Nod y Trosolwg Perfformiad hwn yw darparu adroddiad integredig ar ansawdd, diogelwch cleifion, profiad cleifion a pherfformiad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Cynhrychir yr Adroddiad Perfformiad yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2023/24.

1.2. Datganiad gan y Prif Swyddog Gweithredol

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn heriol arall i'r Ymddiriedolaeth gyda phwysau uchel parhaus ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y pwysau wedi parhau'n uchel, bu rhywfaint o leddfu a rhai gwelliannau mewn perfformiad.

O fewn y gwasanaeth 111, gwelwyd gwelliannau yn ystod 2023/24 yn y cyfraddau gadael galwad, a oedd yn faes o bryder y flwyddyn flaenorol. Gwelodd hyn y gyfradd gadael galwadau yn disgyn o dan y targed o 5% mewn 6 o'r 12 mis yn ystod y flwyddyn, rhywbeth na chyflawnwyd unwaith yn ystod 2022/23. Gwellodd canran y galwadau a atebwyd o fewn 60 eiliad, er y mae'n parhau i fod tipyn yn is na'r targed o 95%, o gyfartaledd o 36.7% yn 2022/23 i 56.9% yn 2023/24.

Ar gyfer galwyr 999, ein prif darged yw ymateb i 65% o alwadau Coch (lle mae bywyd yn y fantol) mewn wyth munud. Ni chyflawnodd yr Ymddiriedolaeth y targed hwn ar gyfer unrhyw fis yn ystod 2023/24 gyda'r gyfradd ganrannol uchaf o 54.6% yn cael ei chyflawni ym mis Mehefin 2023. Fodd bynnag, gwelsom welliant yn nifer y galwadau Coch a gyrhaeddwyd o fewn 8 munud o gymharu â'r gyfradd fisol yn cynyddu o 1,966 yn 2022/23 i 2,227 yn 2023/24. Gwelodd cleifion yn y categori Oren (difrifol, ond nid yw'n bygwth bywyd ar unwaith) hefyd welliant yn eu hamseroedd aros, gyda'r amser aros cyfartalog ar gyfer y flwyddyn yn 1 awr 19 munud, o'i gymharu ag 1 awr 39 munud yn 2022/23.



Er bod hyn yn amlygu rhywfaint o welliant, mae'r amseroedd aros yn y gymuned ac yn yr ysbyty yn parhau i fod yn llawer rhy hir ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gwybod bod niwed y gellir ei osgoi wedi digwydd o ganlyniad. Cyflawnodd y Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS) ei brif amser ar gyfer apwyntiadau arenol ym mhob mis yn 2023/24.

Parhaodd yr oriau a gollwyd wrth drosglwyddo cleifion i adrannau achosion brys i fod yn straen mawr ar adnoddau'r Ymddiriedolaeth. Er bod cyfraddau wedi gwella yn 2023/24, collodd yr Ymddiriedolaeth 260,398 o oriau ambiwlans: gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi ymateb i 40,560 yn fwy o gleifion pe na bai'r oriau hyn wedi'u colli.

Er gwaethaf y pwysau parhaus hyn, mae ein pobl wedi parhau i gyflawni, gan gymryd camau i wella gwasanaethau i gleifion ac i staff a gwirfoddolwyr. Cynyddodd yr Ymddiriedolaeth ei sefydliad Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU) i bron i 100 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, cynyddodd nifer yr Uwch Ymarferwyr Parafeddygol (APP) gan 15.7 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, a gwelwyd cyfradd absenoldebau EMS yn disgyn o dan y targed o 30% am y tro cyntaf ers y pandemig, a gostyngodd ei gyfradd absenoldeb salwch misol i lai nag 8% am y tro cyntaf ers dros 2 flynedd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw wrth adrodd yn fisol am brofiad cleifion, diogelwch cleifion a pherfformiad. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi asesiad teg a chytbwys o berfformiad yr Ymddiriedolaeth.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n holl staff a gwirfoddolwyr, partneriaid golau glas, comisiynwyr, y sector preifat, a'r sector gwirfoddol am eu cefnogaeth barhaus.

Jason Killens

Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2024



1.3. Meysydd Cyfrifoldeb

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl ledled Cymru, gan ddarparu gofal clinigol o ansawdd uchel sy'n cael ei arwain gan gleifion lle bynnag a phryd bynnag y bo angen.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys y canlynol: -

- Y gwasanaethau ambiwlans brys golau glas: gan gynnwys cymryd galwadau, ymgynghori clinigol o bell, gweld a thrin ac, os oes angen, cludo i ysbyty priodol neu gyfleuster trin priodol.
- Y Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS): gan gynnwys cymryd galwadau, cynllunio teithiau, comisiynu gwasanaethau, mynd â chleifion i apwyntiadau ysbyty ac oddi yno, a'u trosglwyddo rhwng ysbytai a chyfleusterau trin.
- Y gwasanaeth 111: gwefan a gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim, sy'n borth llinell gyntaf i daith glaf o fewn y system iechyd a gofal, gan roi'r cyngor neu'r atgyfeiriad iawn i'r claf.
- Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cefnogi gwirfoddolwyr: Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned, Cyd-ymatebwyr ac Ymatebwyr mewn Lifrai i ddarparu adnoddau ymateb ychwanegol ar gyfer galwadau brys a gwasanaeth ceir gwirfoddol i gynorthwyo â chludo cleifion i apwyntiadau wedi'u trefnu.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn wasanaeth a gomisiynir ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Brys (EMS) a Gofal Ambiwylans. Yn 2023/24 ymgwymerwyd â gwaith comisiynu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC), ar ran Byrddau Iechyd, sydd hefyd yn cael eu cefnogi gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwylans (CASC). Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgysylltu'n adeiladol ag EASC a'i strwythurau llywodraethu ac wedi derbyn cymorth ariannol yn ystod 2023/24. Mae EASC yn amlinellu ystod o fwriadau comisiynu a metrigau dymunol bob blwyddyn a gwnaed cynnydd da wrth eu cyflawni yn ystod 2023/24.



1.4. Ein Diben a'n Strategaeth Hirdymor

Mae datganiad o ddiben yn rhywbeth a all rwympo ac uno pobl ar draws y sefydliad tuag at nod cyffredin. Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu mewnol â'n pobl ar draws yr Ymddiriedolaeth, rydym yn falch o fod wedi cytuno'n fforddiol ar ein datganiad o ddiben sefydliadol, sef **'I Gefnogi. I Wasanaethu. I Achub.'**




Cymeradwywyd ein Fframwaith Strategol Hirdymor ar gyfer 2030, **'Cyflawni Rhagoriaeth'** yn 2019, gan nodi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer y sefydliad. Nododd ein huchelgais i symud o fod yn wasanaeth ambiwlans a chludiant traddodiadol i fod yn ddarparwr gofal o ansawdd uchel y tu allan i'r ysbyty y gellir ymddiried ynddo, gan sicrhau bod cleifion yn cael y **'cyngor a'r gofal iawn, yn y lle iawn, bob tro'**, gyda mwy o bwyslais ar ddarparu gofal yn nes at y cartref. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel ac amserol, yn diwallu eu hanghenion unigol, ac yn lleihau trawsgludiadau diangen i ofal eilaidd, mae hefyd yn

cefnogi llif ar draws y system iechyd a gofal ehangach ac yn cyfrannu at strategaethau a chynlluniau Byrddau Iechyd.

Mae'n strategaeth sefydliadol gyfan, nid yn unig yn ymwneud â modelau gwasanaeth, ond hefyd â sut yr ydym yn cefnogi ac yn galluogi ein **pobl i fod y gorau y gallant fod**. Rydym hefyd yn ymrwmpo o fewn y strategaeth i fod yn sefydliad sy'n **cydweithio** â'i bartneriaid, sy'n parhau i fod ar **flaen y gad o ran arloesi a thechnoleg**, sy'n parhau i ganolbwyntio ar gael ei **llywio gan ansawdd a'i harwain yn glinigol**, ac sy'n darparu **gwerth** eithriadol. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein Cynllun Tymor Canolig Integredig o amgylch y strategaeth hon a'i **chwe nod strategol craidd**, a amlinellir isod.

'Cyflawni Rhagoriaeth' – Ein Strategaeth hirdymor



1.5. Y Cynllun Tymor Canolig Integredig

Ar lefel sefydliadol, mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi, ar sail dreigl tair blynedd, y camau gweithredu â blaenoriaeth y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i'w symud tuag at ei hamcanion strategol. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ystyried y canllawiau cynllunio cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yr amgylchedd allanol y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ynddo gan gynnwys gofynion statudol a bwriadau comisiynu, y risgiau y mae'n eu rheoli, yn ogystal â gwybodaeth a gasglwyd gan gleifion, staff a gwirfoddolwyr.

Yn benodol, roedd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth egluro, drwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, sut yr oedd yn bwriadu cyflawni'r blaenoriaethau a osodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru a chyfrannu at nodau'r Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

Cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023/24 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2023, ac fe'i cymeradwywyd yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ei pherfformiad yn erbyn yr ymrwymadau yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy olrhain camau gweithredu a thargedau i'w cyflawni yn y Bwrdd Trawsnewid Strategol a thrwy ddadansoddi metrigau allweddol yn yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (MIQPR).




1.6. Crynodeb o Berfformiad

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad, a gymeradwywyd gan ei Bwrdd. Un o ofynion y Fframwaith yw edrych ar ansawdd a pherfformiad mewn ffordd gytbwys a chyson. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio pedair lens i wneud hynny:-

- Ein Cleifion;
- Ein Pobl;
- Cyllid a Gwerth; a
- Phartneriaethau a Chyfraniad y System.

Defnyddir y pedwar pennawd hyn yn yr adrannau canlynol i adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn 2023/24 ac maent yn seiliedig ar 'nodau pedwarplyg' Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Bob dau fis, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (MIQPR) yn ystod y flwyddyn sy'n rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran dangosyddion perfformiad allweddol yn erbyn y pedwar pennawd hyn. Ategir yr adroddiad lefel uchaf hwn gan ystod gynhwysfawr o adroddiadau mwy penodol i bob Pwyllgor Bwrdd ac i'r tîm rheoli gweithredol.

Datblygiad allweddol dilynol fu cyhoeddi Chwe Nod y Gweinidog ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, sy'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, sector annibynnol a'r trydydd sector ar gyfer darparu'r gofal iawn, yn y lle iawn y tro cyntaf ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl.




Mae'r adrannau a ganlyn hefyd yn dynodi pa ddangosyddion ansawdd a pherfformiad sy'n berthnasol i'r Chwe Nod a ddangosir uchod, yn nhyb yr Ymddiriedolaeth.



1.6.1 Ein Cleifion – Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf

Gwasanaeth GIG111 Cymru

I lawer o gleifion yr Ymddiriedolaeth, y pwynt cyswllt cyntaf â'r Ymddiriedolaeth yw'r **gwasanaeth 111**, sydd wedi bod yn fyw ledled Cymru ers 2022. Cyfanswm y nifer o alwadau 111 a gynigiwyd yn 2023/24 oedd 922,809, a oedd yn ostyngiad bychan o gymharu â'r 948,674 yn 2022/23.




Mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu drwy amseroedd ateb galwadau ac amseroedd ffonio'n ôl clinigol. Mae amseroedd ateb galwadau wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â 2022/23, ond ar gyfartaledd, dim ond 55.3% o alwadau a atebwyd o fewn 60 eiliad, sy'n parhau i fod gryn dipyn yn is na'r targed o 95%.

Er bod cynnydd yn y galw yn ystod Rhagfyr 2023 wedi gweld ychydig o ostyngiad mewn perfformiad, profodd y gwasanaeth i fod yn llawer mwy sefydlog a gwydn nag yn ystod y gaeaf blaenorol. Mae hyn wedi'i gefnogi gan lwyddiant yr Ymddiriedolaeth wrth gyflawni lefelau cynhyrchu da ar ôl bron recriwtio hyd at gyfanswm rheoli comisiynu'r 198 o drinwyr galwadau cyfwerth ag amser llawn, a thrwy alinio capasiti'n well i ddiwallu'r galw. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr

Ymddiriedolaeth yn rhagweld gostyngiad yn y lefel o weithwyr cyfwerth ag amser llawn a gomisiynir yn ystod 2024/25, gyda thrafodaethau ar y gweill gyda chomisiynwyr ynghylch yr effaith debygol y bydd hyn yn ei chael ar berfformiad cyffredinol.

Ar ddiwedd 2023/24 gwelwyd gostyngiad tymor byr mewn niferoedd staffio yn gysylltiedig â'r system CAS 111 newydd sydd ar fin mynd yn fyw a rhagwelir y bydd hyn yn ymestyn i ddechrau 2024/25. Bydd hyn yn golygu bod capasiti'n cael ei ddileu at ddibenion hyfforddi, gan effeithio hefyd yn y tymor byr ar weithgareddau recriwtio, gan y bydd ffocws ar hyfforddi'r gweithlu presennol.



Mewn perthynas â ffonio yn ôl ar gyfer brysbennu clinigol, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyrraedd y targed o 90% ar gyfer y cleifion â'r flaenoriaeth uchaf yn gyson, sef 98.6% ar gyfartaledd, ond dirywiodd amseroedd ymateb ar gyfer galwadau â blaenoriaeth is yn ystod ail hanner y flwyddyn, ar ôl cyrraedd y targed o 90% rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref, gan ostwng i ychydig dros 50% ym mis Chwefror 2024. Achoswyd y gostyngiad hwn mewn perfformiad gan gynydd yn y galw yn ystod y misoedd cyfatebol yn ogystal â lefel uchel o absenoldeb salwch clinigwyr. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gamau gweithredu ar waith gyda'r nod o wella'r sefyllfa hon drwy ganolbwyntio ar recriwtio a chadw clinigwyr drwy gefnogi gweithio o bell a thrwy edrych ar ffyrdd o leihau salwch hirdymor.

Sylwch: cyfraniad at Nod 2.




Gwasanaethau Meddygol Brys (galwadau 999)

O fewn y Gwasanaeth Meddygol Brys (EMS), er gwaethaf y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn, mae'r pwysau parhaus ar y system, yn benodol, oedi gormodol wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty, wedi arwain at amseroedd aros annerbyniol o hir am ambiwlans sydd yn eu tro wedi cyfrannu'n uniongyrchol at niwed y gellir ei osgoi i gleifion. Mae amseroedd ateb galwadau wedi gwella yn ystod 2023/24, gyda chyfartaledd y 95ain ganradd 999 yn lleihau i 15 eiliad, o 44 eiliad yn 2022/23.


Gall niwed ddigwydd i gleifion sydd wedi aros yn rhy hir am ymateb yn y gymuned, i'r rhai sy'n aros yng nghefn ambiwlans yn aros i gael eu trosglwyddo i adran argyfwng, neu i'r rhai na allwn anfon ambiwlans atynt ar adegau'r difrifoldeb mwyaf. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiad manwl ym mhob un o'i gyfarfodydd ar y camau sy'n cael eu cymryd i leihau a lliniaru'r niwed y gellir ei osgoi.

Targed yr Ymddiriedolaeth yw ymateb i 65% o alwadau 999 lle mae bywyd yn y fantol (Galwadau Coch) o fewn wyth munud. Er gwaethaf cynnydd tymhorol bychan mewn perfformiad, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweld unrhyw welliant hirdymor clir yn erbyn y targed hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda'r ffigur uchaf o 54.64% yn cael ei gyflawni ym mis Mehefin 2023.







Fodd bynnag, bu cynnydd amlwg yn nifer y digwyddiadau coch a fynychwyd o fewn 8 munud, fel y gwelir yn y graff isod, er nad yw hyn wedi'i ailadrodd yn y ganran oherwydd cynnydd yn nifer y digwyddiadau coch yn ystod y flwyddyn. Yn 2022/23 roedd yr Ymddiriedolaeth yn mynychu 1,966 o achosion coch y mis ar gyfartaledd, ond yn ystod 2023/24 mae'r ffigur hwn wedi cynyddu i 2,227.



Ar gyfer cleifion yn ein categori Oren 1 (difrifol ond heb fod yn fygythiad uniongyrchol i fywyd), nid oes targed penodol wedi'i osod ar gyfer amseroedd ymateb, ond yn achos galwadau sy'n cynnwys y rhai ar gyfer strôc ac ataliad y galon, yn ddelfrydol, byddai'r Ymddiriedolaeth am ymateb o fewn 18 munud ar gyfartaledd.




Mae'r amseroedd ymateb drwy'r flwyddyn hon wedi bod yn llawer hirach na hyn fel y dengys y graff uchod, gyda rhai cleifion yn aros oriau lawer ac mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ganlyniadau cleifion. Cofnodwyd y perfformiad canolrif Oren 1 gorau drwy gydol y flwyddyn ym mis Mehefin 2023, pan oedd amseroedd ymateb yn 54 munud ar gyfartaledd.





O ran y digwyddiadau mwyaf difrifol, adroddodd yr Ymddiriedolaeth am 51 o Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol cleifion yn 2023/24 o gymharu â 77 yn 2022/23. Mae'r rhan fwyaf o'r Digwyddiadau hyn, ond nid pob un ohonynt, yn ymwneud â gwasanaeth 999 yr Ymddiriedolaeth. Gostyngodd nifer y Digwyddiadau Difrifol a gyfeiriwyd at Fyrddau Iechyd drwy'r Fframwaith Ymchwiliadau ar y Cyd newydd ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn aml o ganlyniad i arosiadau hir yn y gymuned wedi'u hachosi gan oedi wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai.



Mae yna lawer o resymau dros amseroedd ymateb hwy, sy'n cynnwys cynnydd yn y galw am alwadau Coch a chraffter cyffredinol, yn ogystal â cholli capasiti oherwydd absenoldebau uwch na'r meincnod (cyflawni'r meincnod erbyn diwedd y flwyddyn) ac oedi eithafol wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai. Mae cydberthynas amlwg rhwng yr ail ffactor ac amseroedd ymateb uwch, yn enwedig wrth ystyried ymatebion i ddigwyddiadau Oren, fel y gwelir yn y graff uchod.


Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgymryd â nifer o fentrau i gael effaith gadarnhaol ar amseroedd ymateb ac ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Mae'r rhain yn cynnwys:




- Recriwtio: gyda 95% o swyddi rheng flaen a gomisiynwyd bellach yn eu lle.
- Parhau i weithredu'r Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU), gyda'r nod o lenwi'r swyddi'n llawn (153 cyfwerth ag amser llawn) yn ystod 2024, gyda 127 eisoes yn eu swyddi.
- Mae'r Rhaglen Rheoli Presenoldeb yn parhau i gael ei darparu drwy'r cynllun deg pwynt, gyda gostyngiad mewn lefelau salwch cyffredinol yn ystod canol 2023. Mae gwaith yn parhau gyda'r nod o ostwng i 6%.
- Rhesymeg ymateb fwy effeithlon, a aeth yn fyw ym mis Mehefin 2023, yw lleihau nifer y derbyniadau lluosog i rai categorïau o alwadau coch, gan ryddhau adnoddau i ymateb i ddigwyddiadau eraill.
- Mae adolygiad cyflym o'r holl alwadau coch gan glinigwr yn y Ddesg Gymorth Clinigol yn cael ei gynnal, pan fo'n bosibl, ond yn ddelfrydol, fel y nodwyd yn flaenorol, byddai hyn yn gofyn am gapasiti ychwanegol i weithio'n fwy effeithiol. Mae cyllideb 2024/25 yn cynnwys cynnydd yn y capasiti clinigol o bell.

Mae perfformiad sylweddol gwell yn dal i fod yn ddibynnol ar oedi wrth drosglwyddo mewn ysbytai yn lleihau yn unol â disgwyliadau Gweinidogion, ac nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn mesur ac yn monitro pum dangosydd clinigol, sef Torri Gwddf y Ffemwr, Strôc, Cnawdnychiant Myocardiaidd â dyrchafiad ST (STEMI), Hypoglycemia ac Adferiad Cylchrediad Digymell (ROSC). Roedd cyflwyno'r system Cofnod Gofal Cleifion Electronig (ePCR) newydd yn 2022 yn golygu bod rhai problemau cydymffurfio o ran cwblhau cofnodion clinigol i ddechrau, ac o ganlyniad, dirywiodd perfformiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Dangosodd perfformiad arwyddion o welliant yn ystod hanner olaf 2023, cyn gostwng eto yn 2024. Mae gwaith gwella a dadansoddi brys yn mynd rhagddo i alluogi'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu a sicrhau ansawdd y metrigau allweddol hyn ymhellach. Mewn perthynas â chanran y cleifion sydd â ROSC (gweler y graff isod), gwellodd perfformiad yn 2023/24 i 19.2% o gymharu â 16.6% y flwyddyn flaenorol.



Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi dechrau adrodd yn rheolaidd ar amseroedd galwad i'r drws ar gyfer cleifion strôc a STEMI (gweler y graff isod), sy'n crynhoi cyfanswm yr amser rhwng derbyn yr alwad a'r claf yn cyrraedd yr ysbyty. Fel y dengys y graff isod, ar gyfer cleifion strôc, mae'r rhain wedi gwella yn ystod 2023/24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond maent wedi dangos ychydig o ddirywiad yn ystod gaef 2023/24.






Er bod llawer o ffactorau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, mae gwasanaeth CHARU wedi'i gyflwyno i effeithio'n uniongyrchol ar y metrig hwn. Nod y gwasanaeth hwn yw darparu arweinyddiaeth glinigol yn y fan a'r lle ar gyfer digwyddiadau aciwtedd uchel gan barafeddyg profiadol gyda meddyginiaethau a hyfforddiant ychwanegol. Maent yn cefnogi gwneud penderfyniadau clinigol, yn cydlynu gofal cleifion ac yn sicrhau bod arfer clinigol yn cyd-fynd â chanllawiau arfer gorau cyfredol i wella canlyniadau cyffredinol.

Gofal Ambiwylans

Mewn perthynas â gwasanaeth **Gofal Ambiwylans** yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Cludiant Di-frys, nid yw'r galw cyffredinol yn ôl i lefelau cyn-Covid-19 yn union (mae rhai agweddau ar y galw wedi gwella'n llwyr, ac eraill wedi cynyddu), ond mae ansicrwydd ynghylch mae'r galw'n parhau wrth i Fyrddau lechyd symud drwy'r newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys rhagor o glinigau ar benwythnosau. Mae hwn yn wasanaeth swmpus, gyda 520,000 a mwy o siwrneiau cleifion yn ystod y flwyddyn.



Mae ansawdd y gwasanaeth i gleifion yn cael ei fesur drwy fetrigau sy'n ystyried a yw cleifion yn cael eu cludo i'w hapwyntiadau ysbyty ac oddi yno mewn modd amserol a chyflwynwyd safonau perfformiad newydd yn y maes hwn ym mis Ebrill 2023. Cyflawnwyd y targedau hyn ar gyfer y rhan fwyaf o gleifion (targed oncoleg ac



arennol -70%) ond fe'i methwyd ar gyfer teithiau Trosglwyddo a Rhyddhau o flaen llaw a gwblhawyd o fewn yr amserlenni gofynnol, a gyflawnodd gyfradd o 81% yn erbyn targed o 95%, er bod data arolwg cleifion yn parhau i fod yn gadarnhaol.

Rheoli Ansawdd

Mae gan yr Ymddiriedolaeth darged o 75% ar gyfer ymateb i bryderon cleifion o fewn 30 diwrnod. Ni chyflawnwyd hyn yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn 2023/24 dim ond 42% oedd y ganran gyfartalog fisol. Bwriedir cynnal adolygiad a gwelliannau pellach yn 2024/25 er mwyn rhoi ymatebion mwy amserol i gleifion. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth naw adroddiad Rheoliad 28 (Atal Marwolaethau yn y Dyfodol) yn ystod 2023/24.

Mae panel amlddisgyblaethol yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu digwyddiadau i sicrhau bod ymchwiliadau priodol yn cael eu cynnal. Cynhelir ymchwiliadau ar y cyd â chydweithwyr yn y byrddau iechyd i sicrhau bod gwelliannau'n cwmpasu llwybr cyfan y claf. Trafodir y trefniadau Llywodraethu Ansawdd yn fanylach yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Mae Tîm Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned (PECI) yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd i wrando, casglu ac adrodd ar eu profiadau o gael at ofal a derbyn gofal ar draws holl wasanaethau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r adborth a gasglwyd ac a adroddwyd yn dangos sut mae profiad y claf yn ddangosydd allweddol o lefel yr ansawdd a ddarperir a'r angen i wella profiadau cleifion, diogelwch cleifion, a chanlyniadau cleifion.


1.6.2 Ein Pobl

Ynglŷn â gweithlu'r Ymddiriedolaeth, mae'r dangosyddion a adolygwyd ym Mwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud ag a oes gan yr Ymddiriedolaeth y capasiti gweithlu cywir i ateb y galw, sut mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw staff yn ddiogel ac yn iach, a sut y maent yn cael eu datblygu. Ystyrir dangosyddion manylach a niferus hefyd yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.


Er bod ffrydiau cyllido wedi aros yn debyg ar gyfer 2023/24 o gymharu â 2022/23, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i wella'r anghydbwysedd rhwng ardaloedd gwledig a threfol yn yr EMS. Penodwyd 69 o Barafeddygon Newydd Gymhwyso yn yr

hydref a chafodd y mwyafrif eu recriwtio i ardaloedd gwledig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, gan wella ein lefelau staffio yn y cymunedau tra hefyd yn sicrhau digon o staff mewn ardaloedd mwy trefol.


Oherwydd y staff ychwanegol mewn swydd yn ystod 2023/24, mae nifer yr oriau EMS a gynhyrchwyd wedi codi'n sylweddol, sef 120,369 awr y mis ar gyfartaledd yn 2023/24 o gymharu â 108,999 yn 2022/23. Amlygir y cynnydd hwn yn y graff isod.



Ffactor allweddol yng ngallu'r Ymddiriedolaeth i sicrhau capasiti i ateb y galw yw effaith absenoldeb salwch. Ni ellir diystyru effaith absenoldebau oherwydd salwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar bob lefel ledled yr Ymddiriedolaeth. I gefnogi'r gweithlu, bu ffocws parhaus ar weithgareddau lles ar draws holl feysydd yr Ymddiriedolaeth. Er gwaethaf hyn, salwch fu un o'r prif resymau dros dynnu o'r rota, er bod y graff isod yn dangos bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf gyda salwch ar draws y sefydliad yn cyfateb i 8.59% y mis yn 2023/24 o gymharu â 9.29% yn 2022/23. Mae'r gwelliant hwn o ganlyniad i raglen waith â ffocws ar reoli presenoldeb.




Ni wnaeth cyfraddau Hyfforddiant Statudol a Gorfodol yn ystod 2023/24 gyrraedd y targed cyffredinol o 85%, gyda'r lefel a gwblhawyd yn 81.9% ar gyfer diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, gwelodd hyn o ffigur o 65.1% ar ddiwedd 2022/23. O ran datblygiad staff, mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn mai lefelau Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol (PADRs) yw'r ffordd orau o gynrychioli datblygiad ar lefel uchel. Yn gyffredinol, gostyngodd cyfraddau cydymffurfio ychydig yn ystod 2023, er eu bod wedi codi eto yn y misoedd diwethaf gan gyrraedd 80% ym mis Mawrth 2024; er bod hyn yn parhau i fod yn is na'r targed o 85%.





1.6.3 Cyllid a Gwerth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu nifer o ddangosyddion sy'n ceisio dangos sut y mae'n darparu gwasanaeth yn unol â dyletswyddau ariannol statudol, ac o werth ac effeithlonrwydd uchel. Bydd y maes hwn o'r Adroddiad Perfformiad yn cael ei gryfhau dros amser wrth i'r rhaglen gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth barhau. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol yn 2023/24, gyda gwarged referniw bach o £85 mil a chyflawnodd ei dyletswydd statudol i adennill costau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.



Cyflawnwyd arbedion gros o £6.546m yn erbyn targed o £6.000m, felly cafwyd orgyflawniad o oddeutu 9.1%. Roedd Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus ar y trywydd iawn, gyda pherfformiad o 96.4% ar gyfer nifer, a 98.5% ar gyfer gwerth, yr anfonebau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG a dalwyd o fewn 30 diwrnod (targed o 95%). Ceir rhagor o wybodaeth yng nghyfrifon blynyddol a datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, a baratowyd ar sail busnes gweithredol.

Mae cynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2024/25 yn un cytbwys ond yn seiliedig ar gyflawni targed arbedion o oddeutu £6.4m. Mae'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol, a ddechreuodd yn gynnar y flwyddyn ariannol 2022/23, yn



rhaglen waith allweddol sy'n parhau i ysgogi trawsnewid i gyflawni effeithlonrwydd cost yn ogystal ag archwilio cyfleoedd i gynhyrchu incwm ar gyfer 2024/25 a'r tu hwnt.

1.6.4 Partneriaethau a Chyfraniadau'r System

Nod yr Ymddiriedolaeth yw ystyried ei heffaith ar y system ehangach, ond hefyd effaith y system ehangach ar ei gwasanaeth.


Cynyddodd yr oriau a gollwyd wrth drosglwyddo yn gyson drwy gydol 2022 a dechrau 2023, gan gyrraedd uchafbwynt o 32,000 o oriau a gollwyd ym mis Rhagfyr 2022 a 28,620 ym mis Mawrth 2023. Ers hynny, roedd gostyngiad yn yr oriau a gollwyd yn amlwg, gan ostwng i 18,588 ym mis Mehefin 2023, a ysgogwyd yn benodol gan welliant sylweddol ym mwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro, a ostyngodd yr oriau a gollwyd o 2,613 ym mis Rhagfyr 2022 i 583 ym mis Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, mae dechrau 2024 unwaith eto wedi dechrau gweld cynnydd yn yr oriau a gollwyd mewn ysbytai gyda 23,176 o oriau yn cael eu colli wrth drosglwyddo ym mis Mawrth 2024.

Cafwyd negeseuon cryf gan Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog Iechyd ar y pryd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn rhaid mynd i'r afael â'r broblem hon fel mater o flaenoriaeth. Cynhaliwyd cyfarfodydd Cynllun Gweithredu Comisiynu Integredig (ICAP) drwy gydol 2023 er mwyn i Fyrddau Iechyd unigol a'r Ymddiriedolaeth weithio ar y cyd i leihau oriau trosglwyddo, ac roedd yn ymddangos bod y rhain yn cael effaith tymor byr ar leihau oriau a gollwyd mewn nifer o Fyrddau Iechyd.


Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i drawsnewid ei gwasanaethau, cael y gofal iawn i gleifion, yn y lle iawn, bob tro, ac i leihau'r ddibyniaeth ar adrannau achosion brys fel y lleoliad cyntaf i droi ato. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi'r system i leihau'r galw drwy waith y clinigwyr o bell yn y Ddesg Gymorth Clinigol.

Yn dilyn ehangu'r Ddesg Gymorth Clinigol yn 2022, gosododd yr Ymddiriedolaeth darged mewnol cychwynnol i 15% o alwadau 999 gael eu rheoli o bell heb fod angen anfon ambiwlans (sydd i'w nodi, yn fwy na'r potensial a fodelwyd ar gyfer efelychiad o 10.2%). Cododd y targed mewnol hwn i 17% ym mis Ebrill 2023, wrth i'r broses ddod yn fwy sefydledig, ac mae bellach wedi'i fabwysiadu fel targed gan Lywodraeth

Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur hwn wedi'i gyflawni eto mewn unrhyw fis unigol, gyda'r ffigur uchaf o 14.9% a gofnodwyd ym mis Ionawr 2023, gyda'r ffigur misol cyfartalog ar gyfer 2023/24 yn 13.9%. Wrth gwrs, dylid adlewyrchu bod y math hwn o fonitro canrannol yn cael ei effeithio gan gyfanswm y gweithgaredd. Mae wedi bod yn galonogol gweld y duedd gynyddol o fwy o achosion yn cael eu datrys yn llwyddiannus gan glinigwyr o bell.



Ffocws yr Ymddiriedolaeth yw trin mwy o gleifion trwy ymgynghori a chau, gweld a thrin a llwybrau, gan osgoi cludo i adrannau argyfwng. Er bod canran y trawsgludiadau i adrannau argyfwng mawr wedi cynyddu ychydig, o 34% yn 2022/23 i 37.5% yn 2023/24, mae hyn ar adeg pan fo nifer y digwyddiadau y ymatebwyd iddynt hefyd wedi cynyddu 8.1%, gyda chanran uwch o'r galwadau hyn yn ddigwyddiadau coch, lle mae'r claf yn ddifrifol wael, ac felly'n gwarantu trawsgludiad i adran argyfwng.



Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth yn galed gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i gytuno ar brotocol cyfeirio parafeddygon cenedlaethol i'r canolfannau Gofal Brys Yr Un Diwrnod sydd newydd eu sefydlu; mae hyn yn flaenoriaeth i'r rhaglen Chwe Nod genedlaethol. Mae gwaith modelu wedi'i gwblhau sy'n dangos y gallai tua 4% o'r gweithgarwch gael ei drosglwyddo'n ddiogel i'r gwasanaethau hyn. Hyd yn hyn, mae llai nag 1% wedi'i atgyfeirio.

A hithau'n elfen allweddol arall o'i strategaeth hirdymor yw bod mwy o barafeddygon nag erioed o'r blaen yn cael eu cefnogi i ymgymryd ag addysg bellach i ddod yn Uwch Ymarferwyr Parafeddygol (APPs), gyda thystiolaeth yn dangos bod yr wybodaeth a'r sgiliau ychwanegol yn lleihau cyfraddau cludo i'r ysbyty. Mae nifer yr APPs wedi'u cynyddu gan 15.7 cyfwerth ag amser llawn pellach yn ystod 2023/24 gyda 12.6 cyfwerth ag amser llawn pellach i fod i gymhwyso yn gynnar yn 2024/25.

Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn aelod o bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (neu is-strwythur o hynny yn achos Gwent) yng Nghymru. Mae hyn yn



golygu bod gan y gwasanaeth bellach lais wrth y bwrdd gwneud penderfyniadau strategol, gyda phartneriaid statudol eraill, partneriaid cymunedol a'r trydydd sector; sy'n gymorth pellach i gyflawni strategaeth hirdymor y gwasanaeth.

Cynrychiolir yr Ymddiriedolaeth yn y fforymau hyn gan y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, sydd hefyd ar hyn o bryd yn Is-gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, a Chyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad. Mae aelodaeth o'r fforymau hyn yn helpu'r Ymddiriedolaeth gyda'i hymgysylltiad, dylanwadu a deall heriau a chyfleoedd cyffredin, ond mae ganddo hefyd fanteision diriaethol, er enghraifft, o ran darparu mynediad at lifoedd ariannu amgen, megis y Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF). Yn ystod 2023/24, sicrhawyd cyllid drwy'r RIF ar gyfer treialu cyfrwng ymateb iechyd meddwl yng Ngwent, gan alluogi'r Ymddiriedolaeth i brofi modelau gofal wrth iddi geisio amrywio'r ffordd y mae'n ymateb i gleifion, fel sefydliad ac fel partner ag eraill.


Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gobeithio dod o dan nawdd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn 2023/24, cafodd hyn ei ohirio a bydd bellach yn cael ei sefydlu o 30 Mehefin, 2024. Wedi dweud hynny, yn ystod y flwyddyn, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i weithio o fewn ysbryd y Ddeddf a bydd mewn sefyllfa dda i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, gan gynnwys datblygu a chyhoeddi ei hamcanion llesiant.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnewyddu ei fframwaith ymgysylltu a'i chynllun cyflawni. Mae'r fframwaith a ffocws cynlluniedig ar weithio gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar atebion newydd i'r Ymddiriedolaeth fel gwasanaeth ambiwlans, tra'n cael effaith gadarnhaol ar y system iechyd a gofal ehangach. Bydd rhaglen o ymgysylltu cadarnhaol â'n rhanddeiliaid, cleifion a'r cyhoedd yn parhau yn 2024/25 ar sut y gall yr Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei gwasanaethau'n diwallu anghenion y bobl y mae'n eu gwasanaethu yn well wrth symud ymlaen.

1.6.5 Cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

Cyflawnir y Cynllun Tymor Canolig Integredig drwy ei raglenni trawsnewid gwasanaethau craidd a ffrydiau gwaith galluogi sy'n adrodd i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol.

Parhaodd y Bwrdd Trawsnewid Strategol i gyfarfod yn rheolaidd (bob chwe wythnos) yn ystod y flwyddyn, gan gyflawni trawsnewid sylweddol er gwaethaf y pwysau ariannol ar draws GIG Cymru a phwysau system ar draws y system gofal argyfwng a gofal brys. Mae'r ffeithlun trosodd yn dangos rhywfaint o'r cyflawni ar draws y prosiectau arfaethedig a'r rhai sy'n dod i'r amlwg drwy gydol 2023/24.



Gwnaed cynnydd da ym mhob maes, gan gynnwys mewn meysydd megis digidol, ystadau a fflyd. Roedd rhai meysydd nad oedd modd i ni eu cyflawni oherwydd cyllid, megis ailstrwythuro rotâu NEPTS, adolygiad o alw a chapasiti yn 111 a datblygu gwefan 111. Fodd bynnag, mae'r rhain bellach wedi'u cynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer cynllun ariannol 2024/25. Bu'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth hefyd ohirio gweithrediad y system newydd ar gyfer 111 ond eto bydd hyn yn cael ei gyflawni yn gynnar yn 2024/25.

Mae'r ffeithlun isod yn rhoi rhai enghreifftiau o waith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn:



1.6.6 Rheoli Risg

Nodwyd nifer o risgiau rhag cyflawni ar ddechrau'r flwyddyn ac fe'u hamlinellwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r tabl isod yn dangos sut y llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i reoli a lliniaru'r risgiau hyn.

Risg	Camau lliniarol
Ein gallu i gyflawni cynllun ariannol cytbwys	Cyflawnwyd hyn a lleihawyd risg ariannol yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn gan gydnabod ei bod yn parhau i fod yn hinsawdd ariannol heriol i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus.
Blaenoriaethu neu argaeledd adnoddau i gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth	Cyllid y cytunwyd arno o fewn cynllun ariannol y Cynllun Tymor Canolig Integredig i gyflawni meysydd gwaith allweddol y cytunwyd arnynt gyda chomisiynwyr. Mae blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'u pennu ar gyfer y tair blynedd nesaf gan ystyried y cyd-destun allanol y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio ynddo. Mae'r



	blaenoriaethau wedi bod yn destun ymarfer blaenoriaethu trwyadl ar gyfer referniw a chyfalaf.
Cynnal cynnydd ar uchelgais strategol gyda ffocws ar y tymor byr	Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu pum maes allweddol i uwch randdeiliaid allanol y mae'n canolbwyntio arnynt, fel y nodir yn yr adroddiad Lliniaru Niwed i Gleifion; fodd bynnag, mae ychydig iawn o hyblygrwydd yn ei chyllideb 2024/25 i roi adnoddau ychwanegol i'r model ymateb clinigol newydd yn unol ag uchelgais strategol yr Ymddiriedolaeth.
Yr effaith bosibl ar wasanaethau o ganlyniad i weithredu diwydiannol	Caewyd y risg hon yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd strwythurau ffurfiol ar waith i reoli a goruchwyllo ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r Gweithredu Diwydiannol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau ei bod wedi parchu hawl staff i weithredu, tra'n sicrhau y gallai ddarparu gwasanaeth diogel i gleifion.
Pwysau system ehangach parhaus sy'n arwain at oedi sylweddol wrth drosglwyddo y tu allan i adrannau achosion brys yn effeithio ar oedi wrth gael mynediad at ofal diffiniol ac yn effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol	Mae pwysau parhaus ac eithafol ar draws system gofal brys a brys GIG Cymru yn cael effaith negyddol ar lif cleifion ac mae oedi wrth drosglwyddo yn parhau i gynyddu. Mae'r mater hwn yn parhau i gael ei gyfeirio at y Comisiynwyr, swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog. Mae targedau wedi'u nodi a'u gosod gan y Gweinidog ar gyfer gwelliannau, ac er bod y rhain yn parhau i fod y tu allan i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth i raddau helaeth, cânt eu monitro drwy'r cynllun gweithredu ar niwed y gellir ei osgoi ym mhob cyfarfod Bwrdd.
Newid tirwedd comisiynu a allai weld trefniadau newydd o bosibl yn	Parhawyd i weithio'n agos gyda'n comisiynwyr a'n partneriaid i fanteisio ar y cyfleoedd cyfatebol a ddaeth yn sgil yr adolygiad. Daeth gwasanaeth 111



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

aillfocysu'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau ambiwlans	Cymru yn wasanaeth a gomisiynwyd ochr yn ochr ag EMS a NEPTS. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweld hyn fel datblygiad cadarnhaol, gan gefnogi datblygiad uchelgais sefydliadol.
---	--

Ceir adroddiad pellach ar allu'r Ymddiriedolaeth i ymdrin â risg yn Adran D y Datganiad Llywodraethu Blynyddol lle y mae proffil risg yr Ymddiriedolaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar 31 Mawrth 2024, ac adroddiadau cysylltiedig eraill wedi'u cynnwys.

DADANSODDIAD O BERFFORMIAD A CHYFLAWNI


Mae adran y Dadansoddiad o Berfformiad a Chyflawni yn rhoi sylwebaeth ar fesurau perfformiad allweddol yr Ymddiriedolaeth a dadansoddiad perfformiad integredig manylach o ddarpariaeth gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

1.7. Ein Cleifion (Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf)

Ateb Galwadau


Er bod y gwasanaeth y mae cleifion wedi'i dderbyn wedi gwella'n sylweddol yn ystod 2023/24, nid ydynt yn cael yr amseroldeb y mae arnynt ei angen o hyd, na'r hyn sydd wedi'i nodi.

I lawer o gleifion yr Ymddiriedolaeth, y pwynt cyswllt cyntaf â'r Ymddiriedolaeth yw'r **gwasanaeth 111**. Mae'r rhif 111 a'r gwasanaeth 111 llawn wedi bod yn fyw ar draws pob rhan o Gymru ers dechrau 2022, sydd wedi cyfrannu at gynnydd cychwynnol yn nifer y galwadau a dderbynnir i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf mae nifer y galwadau a dderbyniwyd wedi gostwng ychydig, gan ostwng o 948,674 o alwadau 111 yn 2022/23 i 922,899 yn 2023/24.






Yn y **gwasanaeth 111**, mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu drwy amseroedd ateb galwadau ac amseroedd ffonio'n ôl clinigol. Nod yr Ymddiriedolaeth yw ateb 95% o alwadau o fewn 60 eiliad a chael cyfradd gadael galwadau o lai na 5%, fel y dangosir yn y graff isod. Mae'n amlygu gwelliant sylweddol mewn perfformiad yn 2023/24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chyfartaledd o 55.3% o alwadau'n cael eu hateb o fewn 60 eiliad o gymharu â 36.7% yn 2022/23, er bod hynny'n parhau i fod yn sylweddol islaw'r targed o 95%. Ein bwriad yw profi pa mor gyraeddadwy yw'r metrig hwn yn y flwyddyn nesaf drwy adolygiad o alw a chapasiti. Fodd bynnag, llwyddodd cyfraddau gadael galwadau i gyrraedd y targed o 5% mewn 7 o'r 12 mis yn ystod y flwyddyn, ar ôl methu â gwneud hynny yn ystod unrhyw fisoedd y flwyddyn flaenorol.



O ran ffonio yn ôl clinigol ar gyfer brysbennu, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r targed awr, sef 90%, yn gyson ar gyfer cleifion â'r flaenoriaeth uchaf (Brysbennu Clinigol Blaenoriaeth 1 - P1CT), sef 98.6% ar gyfartaledd yn ystod 2023/24. Dirywiodd perfformiad ar gyfer galwadau blaenoriaeth is, ar ôl cyrraedd y targed o 90% rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref, yn ail hanner y flwyddyn, gan ostwng i ychydig dros 50% ym mis Chwefror 2024. Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn

roedd hyn yn golygu bod, ar gyfartaledd, 81.2% o gleifion a flaenoriaethwyd fel Blaenoriaeth 2 Brysbennu Clinigol (P2CT) wedi derbyn galwad glinigol yn ôl o fewn dwy awr i ddiwedd y cyswllt cyntaf ac 80.7% o gleifion a flaenoriaethwyd fel Blaenoriaeth 3 Brysbennu Clinigol (P3CT) wedi derbyn galwad yn ôl o fewn 4 awr i'r cyswllt cyntaf.




Sylwch: cyfraniad at Nod 2.

Mae cleifion wedi rhoi adborth ar amseroedd aros hir ac mae potensial i'r amseroedd aros hyn gael sgil-ffaith ar 999 a gweddill y system gofal dwys a gofal brys. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol iawn bod cysylltiad agos rhwng gwell perfformiad yn y maes a chael y nifer cywir o glinigwyr yn eu swydd i fodloni'r galw presennol a'r galw disgwylidig. Er bod niferoedd clinigwyr wedi cynyddu ers diwedd 2022, a welodd welliant yn yr amseroedd galw'n ôl yn gyffredinol i ddechrau, mae lefel uchel

o absenoldeb oherwydd salwch clinigwyr wedi effeithio ar berfformiad, yn enwedig absenoldebau hirdymor. Mae camau'n cael eu cymryd i wella'r sefyllfa hon drwy ganolbwyntio ar recriwtio a chadw clinigwyr, drwy gefnogi gweithio o bell a thrwy edrych ar ffyrdd o leihau salwch hirdymor.

O fewn y gwasanaeth 999, mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu drwy ystod o fetrigau amseroedd ymateb, dangosyddion clinigol a mesurau canlyniadau. Mae perfformiad ateb galwadau wedi gweld gwelliant sylweddol yn ystod 2023/24 gyda'r 95^{ain} ganradd o alwadau yn 16 eiliad ar gyfartaledd, o gymharu â 44 eiliad yn 2022/23. Mae'r metrig ateb galwadau canolrifol hefyd wedi aros yn is na thair eiliad drwy gydol y flwyddyn. Mae tîm Cydlyn EMS yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r galw a chysoni lefelau staffio'n briodol er mwyn lliniaru pwysau ar adegau o alw uchel a darparu'r gwasanaeth gorau posibl.




Gwelodd swyddogaeth derbyn galwadau NEPTS gynnydd cyffredinol yng nghyflymder ateb cyfartalog yn ystod 2023/24, gan godi i dros bedwar munud ym mis Ionawr 2024. Fodd bynnag, mae hyn ar adeg o alw cynyddol ac mae'n dal i fod yn welliant sylweddol ar y cyflymder ateb cyfartalog o bum munud wyth eiliad a gofnodwyd ar gyfer 2022/23. Erys rhai pwyntiau pwysau yn ystod rhai adegau o'r dydd, lle gall y galw fod yn fwy na'r capasiti.




Amseroedd Ymateb

Y prif fetrig i gleifion ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yw perfformiad Coch wyth; dyma ganran y digwyddiadau Coch – sy'n peryglu bywyd ar unwaith – yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud. Yn anffodus nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweld unrhyw welliant clir mewn perfformiad yn erbyn y targed Coch o wyth munud dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'r ffigur ymateb misol cyfartalog ar gyfer 2023/24 o 50.6% ond ychydig yn uwch na'r 49.3% a welwyd yn ystod 2022/23 ac yn dal i fod dipyn yn is na tharged 65% Llywodraeth Cymru.




Fodd bynnag, bu cynnydd amlwg yn nifer y digwyddiadau coch a fynychwyd o fewn wyth munud, fel y gwelir yn y graff isod; er nad yw hyn wedi'i ailadrodd yn y ganran oherwydd cynnydd yn nifer y digwyddiadau coch yn ystod y flwyddyn. Yn 2022/23 roedd yr Ymddiriedolaeth yn mynychu 1,966 o achosion coch y mis ar gyfartaledd, ond yn ystod 2023/24 cynyddodd y ffigur hwn i 2,227.



Sylwch: cyfraniad at Nod 4

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwybod bod mwyafrif y digwyddiadau diogelwch cleifion yn digwydd yn y categori Oren. Mae cofrestr risg yr Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu'r pryder mawr am arosiadau hir yn y gymuned ac arosiadau hir y tu allan i ysbytai gan achosi lefelau annerbyniol o niwed i gleifion y gellir ei osgoi. Er bod adnoddau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cynyddu ochr yn ochr â mentrau parhaus i helpu i liniaru'r risgiau hyn, mae enillion posibl yn parhau i gael eu gwrthbwysu gan ffactorau eraill, yn arbennig, y lefelau uchel o oriau cynyddol a gollwyd wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai.

Yn ystod 2023/24, roedd perfformiad canolrifol Oren yr Ymddiriedolaeth yn awr a 19 munud, sy'n welliant o'r awr a'r 39 munud a gofnodwyd y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y flwyddyn hefyd gwelwyd y 65^{ain} canradd yn lleihau i ddwy awr a saith munud a'r 95^{ain} ganradd i saith awr a 27 munud. Er bod y rhain yn welliannau o flwyddyn i flwyddyn, mae'r amseroedd hyn yn parhau i fod yn llawer uwch nag y byddai'r Ymddiriedolaeth yn ei ddymuno.



Fel y nodwyd yn flaenorol, mae llawer o resymau dros amseroedd ymateb hwy, sy'n cynnwys cynnydd yn y galw Coch (yn codi o gyfartaledd o 4,088 y mis yn 2022/23 i 4,492 yn 2023/24) ac aciwtedd cyffredinol, ond colli oriau ambiwlans i hir iawn amseroedd aros wrth drosglwyddo i ysbyty yw'r prif ffactor. Nodwyd bod cydberthynas glir rhwng yr oriau a gollwyd wrth drosglwyddo cleifion o'r ysbyty ac amseroedd ymateb Oren uwch.

Er bod ffrydiau cyllido wedi aros yn debyg ar gyfer 2023/24 o gymharu â 2024/25, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i wella'r anghydbwysedd rhwng ardaloedd gwledig a threfol yn yr EMS. Penodwyd chwe deg naw o Barafeddygon Newydd Gymhwysu newydd yn yr hydref a chafodd y mwyafrif eu recriwtio i ardaloedd gwledig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, gan wella ein lefelau staffio yn y cymunedau hyn tra hefyd yn sicrhau digon o staff yn ein hardaloedd mwy trefol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynyddu ei sefydliad CHARU i 99.8 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ac wedi recriwtio 15.7 APP ychwanegol.

Mewn perthynas â **Gofal Ambiwylans** yr Ymddiriedolaeth, mae'r galw wedi bod yn cynyddu drwy gydol y flwyddyn; er nad yw'r galw cyffredinol am ofal Ambiwylans yn ôl i lefelau cyn-Covid o hyd, mae rhai rhannau wedi gwella ac mae rhai wedi rhagori



ar y lefelau cyn-bandemig. Erys ansicrwydd ynghylch y galw wrth i Fyrddau Iechyd symud drwy adferiad systemau yn dilyn y pandemig, ac mae perfformiad yn y maes hwn yn parhau i fod yn anodd ei ragweld. Er bod y galw arennol ac oncoleg wedi bod yn gymharol sefydlog, mae'r galw gan gleifion allanol wedi gostwng ac mae'r galw am rhyddhau a throsglwyddo yn amrywio.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio'n agos gyda'r Byrddau Iechyd trwy'r Grŵp Sicrwydd Cyflawni er mwyn cyflawni'r perfformiad gorau posibl i'r claf; fodd bynnag, mae'n debygol y bydd perfformiad y gwasanaeth yn amrywio'n barhaus nes bod gweithgarwch yn dechrau normaleiddio unwaith eto ac, ar yr adeg honno, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y gellid gweld cynnydd pellach yn y galw. Er y gallai hyn achosi problemau o ran capasiti, mae hyn wedi'i fodelu ac mae mesurau lliniaru wedi'u rhoi ar waith.

Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgymryd ag ailstrwythuro a ddaeth â NEPTS a'i weithlu Cynorthwywyr Gofal Ambiwylans (ACA) 1, ein gweithlu ACA2 Gwasanaeth Gofal Brys a Gwasanaeth Rhyddhau a Throsglwyddo Ysbyty Athrofaol y Faenor, ynghyd i swyddogaeth newydd: Gofal Ambiwylans. Mae hyn oherwydd y synergedd trafndiaeth wedi'i gynllunio. Er bod ffrydiau cyllid yn cael eu darparu ar wahân, mae cyfle i ddatblygu gwasanaethau rhyddhau a throsglwyddo pellach ledled Cymru.


Mae perfformiad trafndiaeth symudol NEPTS wedi gwella ac wedi bod yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae cynnydd yn y galw - yn arbennig ar gyfer cleifion Arennol - yn effeithio ar faint o adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithgaredd cleifion allanol. Mae Gofal Ambiwylans wedi negodi'r rhwystrau hyn trwy ddefnyddio ei Gynllun Rheoli Capasiti a gweithio'n fwy effeithlon trwy gynyddu ei gapasiti adnoddau o gontractau preifat a ail-negotwyd. Bu'n rhaid cymhwyso meini prawf cymhwyster trafndiaeth yn fwy llym, a deallwn y gall hyn fod yn siomedig i ddefnyddwyr anghymwys sy'n ceisio cael mynediad at wasanaethau trafndiaeth.

Ar ôl ei sefydlu'n llawn, mae Canolfan NEPTS wedi gweld perfformiad da, fodd bynnag, mae absenoldebau wedi effeithio ar ei gweithlu llai gan arwain at berfformiad is ar adegau. Bydd Canolfan NEPTS yn cael ei hail-drefnu yn ystod




2024/25, a fydd yn helpu gyda'r cynnydd yn y galw ynghyd â'r gallu i ailystyried y metrigau perfformiad o ran sut y caiff rhestrau dyletswyddau eu dylunio. Bydd gweithlu digonol a'r gallu i recriwtio a chadw gweithlu'r Ganolfan NEPTS yn parhau i fod yn broblem yn ystod y cyfnod hwn. Mae gweithdy strategaeth tymor hir NEPTS wedi'i gynllunio ar gyfer Ch1 2024/25, wedi'i hwyluso gan gomisiynwyr, gyda'r allbwn gofynnol i ddatblygu gweledigaeth gwasanaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer NEPTS.


Yn olaf, yn dilyn nifer o bryderon a godwyd bod criwiau Gwasanaeth Gofal Brys yn mynd i ddigwyddiadau anaddas, mae Gofal Ambiwylans wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr EMS i sicrhau bod gan y Gwasanaeth Gofal Brys ddull anfon mwy addas i'r pwrpas sydd wedi'i fodelu, gan arwain at gael cyllid digonol ar gyfer ACA2 i gyflawni'r cwmpas tynnach hwn. Cyfanswm nifer y teithiau cleifion di-frys a gyflawnwyd yn 2023/24 oedd 573,463 ac er ei fod yn gynnydd pellach o gymharu â'r 543,846 a welwyd yn 2022/23, mae'n sylweddol is o hyd na'r 670,353 a gofnodwyd ar gyfer 2019/20.



Mae ansawdd y gwasanaeth yn cael ei fesur drwy'r amrywiol ddangosyddion amser cyrraedd/casglu a chyflwynwyd safonau perfformiad newydd ym mis Ebrill 2023. Mae perfformiad wedi bod yn fwy sefydlog mewn rhai meysydd, gyda chleifion arenol uwch yn cyrraedd o fewn 30 munud cyn eu hapwyntiad a heb fod yn hwyr yn 74.4% ar gyfartaledd ar gyfer 2023/24 ac yn cyrraedd y targed o 70% ym mhob mis.



Newidiodd safonau perfformiad teithiau rhyddhau a throsglwyddo hefyd ym mis Ebrill 2023 ac roedd teithiau a archebwyd ymlaen llaw ac a gasglwyd llai na 60 munud ar ôl eu hamser parod a archebwyd ar gyfartaledd yn 82% yn 2023/24, gan fetu â chyflawni'r targed o 95%. Fodd bynnag, mae teithiau a archebwyd ar yr un diwrnod ac a gesglir o fewn pedair awr ar ôl eu hamser parod a archebwyd yn 98% ar gyfartaledd yn ystod yr un cyfnod, gan gyflawni'r targed o 95% bob mis.



Sylwch: cyfraniad at Nod 5


Mae safonau perfformiad newydd Oncoleg yn parhau ar darged gyda chyfartaledd o 70.1% o deithiau oncoleg i mewn yn cyrraedd o fewn 45 munud cyn amser eu hapwyntiad, a hyd at 15 munud yn hwyr.

Diogelwch


Mae'r Ymddiriedolaeth yn annog diwylliant diogelwch cadarnhaol ac yn ystyried pob achos/digwyddiad fel cyfle i ddysgu a gwella. Adroddwyd am 4,400 o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, damweiniau fu bron â digwydd a pheryglon yn 2023/24, o'i gymharu â 6,736 yn 2022/23.

Gwelodd yr Ymddiriedolaeth ostyngiad yn lefelau'r Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol (NRIs) ac o ddigwyddiadau difrifol a gyfeiriwyd at Fyrddau lechyd er mwyn iddynt ymchwilio iddynt. Roedd 56 o NRIs cleifion yn 2023/24 o'i gymharu â 79 yn 2022/23. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad amlwg yn nifer yr NRIs, er y cydnabyddir bod y ffigur hwn yn parhau i fod yn rhy uchel, sy'n adlewyrchu'r pwysau

o fewn y system gofal iechyd. Mae'r rhan fwyaf o'r Digwyddiadau hyn, ond nid pob un ohonynt, yn ymwneud â gwasanaeth 999 yr Ymddiriedolaeth.




Mae nifer y digwyddiadau difrifol a gyfeiriwyd at Fyrddau lechyd wedi gostwng ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ostwng o 204 yn 2022/23 i 173 yn 2023/24. Mae'r rhain yn bennaf oherwydd arosiadau hir yn y gymuned a achoswyd gan oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn ysbytai, er bod hyd yr amser yr oedd cleifion yn aros yn y gymuned hefyd wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn 2023/24, roedd 6,601 o gleifion yn aros am 12 awr neu fwy, o'i gymharu â 10,047 yn 2022/23.



Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 1016 o bryderon yn ystod y cyfnod 2023/24 ac mae cydymffurfedd â'r targed cydnabod pum niwrnod wedi bod ar 95% neu'n uwch am y chwe mis diwethaf (y targed cenedlaethol yw 100%).

O ran y targed ymateb 30 diwrnod o 75%, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gael ei herio i gyflawni hyn. Ym mis Mawrth 2024 roedd ein cydymffurfedd yn 58% ar gyfer ymateb i bryderon cleifion a theuluoedd o fewn y cyfnod o 30 diwrnod. Cyfeiriwyd dau ddeg chwech o bryderon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2023/2024 sy'n ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol (57). Mae'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd gydag Ombwdsmon yn ymwneud ag amseroldeb ymateb ambiwlansys. Darperir dadansoddiad yn y graff isod o'n pum prif bryder.



- Mae'r rhan fwyaf o'r pryderon o ran Mynediad (at wasanaethau) yn ymwneud ag oedi wrth ymateb yn y gymuned yn dilyn galwadau a wnaed i'r gwasanaeth 999.
- Mae pryderon sy'n ymwneud ag apwyntiadau yn ymwneud yn bennaf â'n Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio i fynd i'r afael â'r materion hyn trwy ein Cynllun Tymor Canolig Integredig a bu buddsoddiad sylweddol yn y Timau Cysylltiadau Cleifion a Theuluoedd a Diogelwch Cleifion eleni i sicrhau ymateb mwy prydlon i bryderon.

Symudodd yr Ymddiriedolaeth i System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru ym mis Mai 2022. Yn genedlaethol, datblygwyd cyfres o godau adborth a roddwyd ar waith yn ddiweddar ar draws GIG Cymru, felly gellir dadansoddi pryderon ar lefel sefydliad ac yn genedlaethol yn well. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn rhan o'r rhwydweithiau cenedlaethol i wella'r data a'r wybodaeth a gesglir ymhellach.

Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth naw Adroddiad Rheoliad 28 (Atal Marwolaethau yn y Dyfodol) gan Grwneriaid ar draws GIG Cymru yn ystod 2023/24, a chyhoeddwyd rhai o'r rhain ar y cyd i gyrrff eraill gan gynnwys Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Mae prydlondeb ymateb ambiwlansys yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o'r adroddiadau hyn.



Mae meysydd eraill a amlygwyd gan y crwneriaid yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd i gleifion a theuluoedd gan yr ystafell cydlyn EMS mewn perthynas ag amseroedd aros a chynor clinigol.

Mae digwyddiadau difrifol yn cael eu trafod mewn panel amlddisgyblaethol sy'n cyfarfod ddwywaith yr wythnos i adolygu a thrafod digwyddiadau i sicrhau bod ymchwiliadau priodol a Dyletswydd Gonestrwydd yn cael eu cynnal. Mae'r Ymddiriedolaeth yn aml yn cynnal ymchwiliadau ar y cyd â chydweithwyr bwrdd iechyd i sicrhau bod yr ymchwiliad a'r dysgu a'r gwelliannau dilynol yn cwmpasu llwybr cyfan y claf.

Trafodir dysgu a gwella o ddigwyddiadau yn y Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol gyda goruchwyliaeth gan Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch, sy'n un o Bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae ein Hadroddiad Gweithio i Wella Chwarterol ar gael i'r cyhoedd ac mae'n rhoi trosolwg o holl swyddogaethau Gweithio i Wella gan gynnwys digwyddiadau diogelwch cleifion a gweithredu'r Rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael trwy bapurau'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch ar ein gwefan.

Mae rhai enghreifftiau o ddysgu a gwelliannau yn cynnwys:

- Rhannu hysbysiadau a bwletinâu ymarfer clinigol
- Rhannu adborth o gwynion i gydweithwyr
- Diweddariadau i raglenni addysg a hyfforddiant a
- Gwelliannau mewn llwybrau clinigol

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn rhan o Raglen Gwella Dysgu Cymru Gyfan a arweinir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Cronfa Risg Cymru) ac rydym yn bwriadu gweithredu'r Fframwaith Dysgu o Ddigwyddiadau cenedlaethol yn ystod 2024/25 i wella ein prosesau mewnol ymhellach a sut rydym yn rhannu dysgu yn genedlaethol.

Mae'r Tîm PECl wedi parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd, cleifion, eu gofalmwyr, a theuluoedd ledled Cymru. Trwy ei fodel ymgysylltu parhaus, mae'r tîm mewn deialog barhaus gyda'r cyhoedd ar sut deimlad yw defnyddio gwasanaethau WAST a'r hyn y gallai'r Ymddiriedolaeth ei wneud ym marn y cyhoedd i wella'r gwasanaethau a gânt.



Mae pobl hefyd wedi gallu rhannu eu profiadau ar-lein trwy gwblhau arolygon profiad sydd ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth; defnyddio'r bwth adrodd straeon rhithwir ar-lein i gofnodi eu profiadau/straeon; a chael mynediad at 'Dweud eich dweud' ar-lein i roi adborth a chanmoliaeth.

Wrth ddarparu llwyfan i leisiau dinasyddion, mae croeso i bobl gofrestru i ddod yn aelodau o 'Rwydwaith Pobl a Chymunedau' yr Ymddiriedolaeth i'n helpu i wella'r gwasanaethau a ddarparwn. Mae aelodau'r rhwydwaith yn cael cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn llawer o wahanol weithgareddau i wella profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

Mae data profiad cleifion yn ychwanegu dealltwriaeth ac ystyr at ddata a gwybodaeth arall a gasglwyd fel diogelwch cleifion a gwelliant clinigol. Mae Profiad y Claf yn ddangosydd da o lefel y gofal a'r gwasanaethau o ansawdd a ddarperir.

Wrth ddeall y gwahanol agweddau ar brofiad y claf, gallwn asesu i ba raddau y mae pobl yn derbyn gofal sy'n barchus ac yn ymatebol i'w dewisiadau, anghenion a gwerthoedd unigol yn ogystal â sut deimlad yw bod yn glaf yn ein gofal.

Mae'r Tîm Diogelu yn parhau i roi sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau deddfwriaethol a statudol mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion, gan sicrhau bod lles plant ac oedolion wrth wraidd popeth a wna.

Yn ystod 2023/24, mae'r Tîm Diogelu wedi: -

- Parhau â momentwm Docworks Scribe ar draws yr Ymddiriedolaeth, gan dderbyn cydnabyddiaeth fewnol gan ein cydweithwyr a chydabyddiaeth allanol gan ein hasiantaethau partner – rydym wedi croesawu Timau Diogelu Gwasanaeth Ambiwllans Llundain a Gwasanaeth Ambiwllans De-Orllewinol a ofynnodd am arddangosiad o'r system fel enghraifft o arfer gorau.
- Derbyn canmoliaeth uchel yng Ngwobrau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru am y llwybr atgyfeirio Risg Tân rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub rhanbarthol.



- Cynnal Cynhadledd Ddiogelu lwyddiannus ar y 'Gweithlu sy'n Ystyriol o Drawma' a dderbyniodd adborth cadarnhaol gan gydweithwyr yr Ymddiriedolaeth ac asiantaethau partner allanol.
- Digidoleiddio ffurflen atgyfeirio PREVENT Cymru Gyfan, gan alluogi holl gydweithwyr yr Ymddiriedolaeth i gyflwyno pryderon PREVENT yn ddigidol trwy Docworks Scribe.
- Cwblhau Archwiliad Diogelu Pobl Ifanc. Datblygu a dosbarthu gweminar pwrpasol ar y pwnc hwn i fynd i'r afael â dysgu a nodwyd. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal ar LMS365 ar gyfer cydweithwyr EMS, y Ddesg Gymorth Clinigol a GIG 111 Cymru.
- Cyflwyno hyfforddiant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gydweithwyr newydd a darparu cyfleoedd hyfforddi datblygiad proffesiynol parhaus ar y pwnc i gydweithwyr presennol.
- Sicrhau bod y llwybr Byw Heb Ofn ar gael ar Docworks Scribe i holl gydweithwyr yr Ymddiriedolaeth, gan sicrhau y gall unrhyw un ofyn yn ddigidol am gymorth mewn perthynas â cham-drin domestig neu drais rhywiol.
- Cefnogi'r Tîm Dementia i ddatblygu'r Atgyfeiriad Dementia ar Docworks Scribe; mae hyn yn galluogi cydweithwyr i ofyn am gymorth mewn perthynas â phryderon ar gyfer unrhyw un sydd â cholled cof, dryswch, neu ddementia.

Ymgysylltu

Mae safbwyntiau cadarnhaol a pharch mawr tuag at yr Ymddiriedolaeth wedi'u cofnodi ac mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, mae pobl wedi mynegi pryder wrth aros am ymateb ambiwlans neu alwad yn ôl, ond maent wedi gwerthfawrogi sicrwydd, caredigrwydd a phroffesiynoldeb y staff. Dywedodd pobl wrthym fod ymateb amserol yn cael ei werthfawrogi o ran lleddfu pryder, gydag arosiadau byrrach am gymorth a throsglwyddiadau effeithlon o'r ysbyty.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y trawma a'r niwed y mae pobl yn ei brofi oherwydd pwysau system ehangach ac arosiadau hir a brofwyd. Mae profiadau pobl a'r penderfyniadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud wedi'u dogfennu'n dda, i aros am ymateb neu i gludo eu hanwyliaid i'r ysbyty eu hunain. Mae'r profiadau hyn



wedi'u rhannu fel straeon cleifion a'u trafod yn helaeth ym Mwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch (QuEST).

Mae'r thema hon yn cael ei hailadrodd ar draws yr holl wasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth; gofal brys 999, Cludiant Cleifion Di-frys, gydag arosiadau hir am gludiant adref yn dilyn apwyntiadau cleifion allanol ysbyty ac arosiadau hir am alwad yn ôl gan GIG 111 Cymru.

Mae ymgysylltiad parhaus yr Ymddiriedolaeth â'r cyhoedd yn bwysig er mwyn sicrhau sgysiau parhaus ar yr hyn y mae'n ei wneud a pham, yn enwedig yn ystod cyfnodau pan fo'r Ymddiriedolaeth yn profi galw cynyddol ac ar lefelau uchel o uwchgyfeirio.

Bu rhaglen helaeth o waith ymgysylltu a datblygu ar y gweill o fewn yr Ymddiriedolaeth i barhau i wella profiadau a chanlyniadau i'r rhai ag anabledd dysgu sy'n defnyddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth. Ym mis Medi 2023 gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth i roi cyflwyniad i Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Anableddau Dysgu ar ei waith i wella mynediad a phrofiadau pobl ag anabledd dysgu.

Lansiwyd modiwl e-ddysgu, a ddatblygwyd gan y Tîm PECl, ar gyfer staff. Mae'r modiwl "Deall Anableddau Dysgu" yn ategu hyfforddiant sylfaen gorfodol Paul Ridd. Mae'r modiwl yn addysgu staff yr Ymddiriedolaeth ar yr addasiadau rhesymol y gallant eu gwneud yn eu rolau priodol, p'un a ydynt yn gweithio o fewn gwasanaethau teleffoni, EMS neu NEPTS.

Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar ehangu a swyddogaeth yr ePCR i gofnodi a oes gan glaf anabledd dysgu a chasglu data pellach ar ymatebion yr Ymddiriedolaeth i bobl ag anabledd dysgu. Bydd hyn yn darparu llinell sylfaen o nifer y bobl sy'n cysylltu â'r Ymddiriedolaeth sydd ag anabledd dysgu a'u hanghenion a bydd yn helpu i lywio a nodi modelau darparu yn y dyfodol ac anghenion hyfforddi staff.

Rydym wedi parhau i ddarparu adnoddau priodol i blant ac yn ddiweddar lansiwyd '7 Gwiriad Pwysig' wrth i'r nodwedd ddiweddaraf ddatblygu ac ychwanegu at ein hap gemau 'Hwb Golau Glas' WAST.



Mae'r ap gemau dwyieithog, sydd wedi'i anelu at blant 7 i 12 oed, wedi'i gynllunio i gynorthwyo plant a phobl ifanc i ddeall beth sy'n digwydd pan fyddant yn ffonio 999 a sut rydym yn blaenoriaethu cleifion. Mae hefyd yn anelu at ymglyfarwyddo chwaraewyr â'r offer y mae criwiau brys yn eu defnyddio a pham eu bod yn eu defnyddio, gan leddfu unrhyw ofnau a allai fod gan gleifion ifanc a hyrwyddo profiad cadarnhaol.

Mae'r ap yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho yn Google Play ac Apple: -

Google:

<https://play.google.com/store/apps/details?id=com.WelshAmbulance.BlueLightHub>


Apple:

<https://apps.apple.com/us/app/blue-light-hub/id1575745545>

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Cynhaliwyd arolygiad o'r Ymddiriedolaeth yn 2021. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd yr adroddiad 'Adolygiad o Ddiogelwch Cleifion, Preifatrwydd, Urddas a Phrofiad wrth Aros mewn Ambiwylansys pan fydd Oedi wrth Drosglwyddo Cleifion' yn 2022. Mae'r adroddiad yn cynnwys pob adran argyfwng ar draws Cymru ac mae'n cynnwys nifer o argymhellion. Bydd angen ystyried yr argymhellion hyn yn awr a'u hymgorffori lle bo modd yn fwy nag erioed, gan fod amseroedd aros y tu allan i adrannau argyfwng wedi parhau i fod yn annerbyniol o uchel.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, sefydlodd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys grŵp gorchwyl a gorffen o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwylans i ymateb i'r argymhellion. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr clinigol a






gweithredol o bob un o'r saith Bwrdd Iechyd, a chynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru.

Dangosyddion Clinigol

Yn sgil cyflwyno'r ePCR, gellir casglu a rhannu gwybodaeth yn fwy amserol a chywir. Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio ePCRs i adrodd ar bum dangosydd clinigol allweddol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys, sef Torri Gwddf y Femur (*toriad clun*), Strôc, Cnawdnychiad myocardaidd trothiad ST (STEMI (*trawiad ar y galon*)), Hypoglycemia (diabetig – siwgr gwaed isel) ac Adferiad Cylchrediad Digymell (ROSC) yn yr ysbyty o *ataliad ar y galon*.

Wrth i ePCR barhau i wreiddio mewn ymarfer clinigol, mae defnyddwyr yn dal i ddod i arfer â llif gwaith wedi'i addasu ac mae pwyntiau data penodol yn cael eu methu. Mabwysiadwyd dull gwella yn seiliedig ar archwiliadau sicrwydd ansawdd manwl a gynhaliwyd ar gyfer pob un o'r dangosyddion clinigol ac yr adroddwyd arnynt drwy'r Grŵp Sicrwydd a Gwybodaeth Glinigol. Wedi'i gynnwys yn y cynllun gwella mae mwy o gefnogaeth gan Uwch Barafeddygon ac Arweinwyr Clinigol i gefnogi staff, a datblygiad dangosfwrdd dangosyddion clinigol fel y gall pawb yn yr Ymddiriedolaeth weld cydymffurfedd â dangosyddion clinigol. Cyfrannodd yr archwiliadau sicrwydd ansawdd manwl hefyd at welliannau ychwanegol a wnaed i ryngwyneb defnyddiwr yr ePCR i alluogi cipio data yn well mewn fersiynau o'r rhaglen yn y dyfodol, gan alluogi'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu a sicrhau ansawdd y dangosyddion clinigol allweddol hyn ymhellach. Mae proses wedi'i datblygu i annog clinigwyr wrth gau cofnod claf i sicrhau bod yr holl feysydd ar gyfer y dangosyddion clinigol yn cael eu cwblhau, bydd hyn yn gwella cydymffurfedd â dogfennaeth ac yn arwain at adrodd yn well. Mae addasiadau hefyd yn cael eu gwneud i'r sgriptio sy'n darparu'r data ar gyfer yr adroddiadau ac mae hyn yn seiliedig ar wybodaeth glinigol bellach a gwaith sicrwydd a wnaed.

Un o'r dangosyddion clinigol y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei fesur ar hyn o bryd yw canran y cleifion sy'n cael adferiad cylchrediad digymell (ROSC) yn yr ysbyty. Er bod hyn yn parhau i fod yn is nag y byddai'r Ymddiriedolaeth ei ddymuno ar gyfer y flwyddyn 2023/24, sef 19.2% y mis ar gyfartaledd, mae'n welliant ar yr 16.6% a gofnodwyd yn ystod 2022/23.



O'r dangosyddion clinigol allweddol eraill y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu mesur, ni chyflawnodd yr un ohonynt y targed o 95% yn ystod 2023/24. Roedd canran y bobl hŷn yr amheuir eu bod wedi torri clun y cofnodwyd eu bod yn cael y bwndel gofal priodol (gan gynnwys analgesia) ar 63.9% ar gyfer y flwyddyn (gostyngiad ychydig o 65.2% yn 22/23); roedd canran y cleifion STEMI y cofnodwyd eu bod yn cael y bwndel gofal priodol yn 42.2% (i fyny o 39.5% yn 22/23); roedd canran y cleifion hypoglycaemig y cofnodwyd eu bod yn cael y bwndel gofal priodol yn 51.2% (i fyny o 44.1% yn 22/23), a chanran y cleifion yr amheuir eu bod wedi cael strôc oedd 75.9% (i lawr o 77.7% yn 22/23).

Er bod llawer o ffactorau y tu allan i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, mae wedi datblygu gwasanaeth newydd, sef Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU). Er mwyn cyflwyno CHARU yn llawn, mae angen 153 o staff wedi'u lleoli mewn 31 o leoliadau yng Nghymru, gyda'r swydd wag bresennol ar ddiwedd y flwyddyn yn 38.61 o staff. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cyfadran brofiadol i gyflwyno'r hyfforddiant a'r addysg gyda'r cwrs nesaf o 11 o barafeddygon yn dechrau ar ddechrau Mai 2024. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i anelu at ddarparu ymateb i set o godau penodol o ddigwyddiadau aciwtedd uchel gan barafeddyg



profiadol (gan gynnwys Uwch Barafeddygon sy'n gweithio ar CHARU am 25% o'u hamser ar y rhestr) gyda meddyginiaethau a hyfforddiant ychwanegol. Byddant yn cefnogi gwneud penderfyniadau clinigol, yn cydlynu gofal cleifion ac yn sicrhau bod arfer clinigol yn unol â chanllawiau arfer gorau cyfredol i wella canlyniadau cyffredinol ar draws cymysgedd achosion eang o gleifion aciwtedd uchel (gan gynnwys ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty a thrawma mawr).

1.8. Ein Pobl

Mewn perthynas â gweithlu'r Ymddiriedolaeth, mae'r dangosyddion a adolygwyd yn y Bwrdd yn ymwneud ag a oes gan yr Ymddiriedolaeth y capasiti gweithlu cywir i ateb y galw, sut mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw staff yn ddiogel ac yn iach, a sut y maent yn cael eu datblygu. Ystyrir dangosyddion manylach a niferus hefyd yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Er bod llawer o ffactorau y tu allan i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, mae wedi datblygu gwasanaeth newydd, sef CHARU, a gyflwynwyd yn ystod hanner olaf 2022/23. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithio ar recriwtio staff i'r rôl hanfodol hon ac ar hyn o bryd mae ganddi 99.8 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn mewn swydd yn erbyn sefydliad o 141.5 (heb ein cyfraniad Uwch Barafeddyg); gyda 14 aelod arall o staff i ddechrau hyfforddi ym mis Mai 2024. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn edrych ar adolygu lleoliadau sylfaen ar gyfer y rolau CHARU hyn i annog mwy o recriwtio a bydd yn edrych i lenwi rhai swyddi yn allanol yn ogystal ag yn fewnol. Nod y gwasanaeth hwn yw darparu ymateb i set o godau penodol o ddigwyddiadau aciwtedd uchel gan barafeddygon profiadol sydd â meddyginiaethau a hyfforddiant ychwanegol. Byddant yn cefnogi gwneud penderfyniadau clinigol, yn cydlynu gofal cleifion ac yn sicrhau bod arfer clinigol yn cyd-fynd â chanllawiau arfer gorau cyfredol i wella canlyniadau cyffredinol mewn sawl un o'r meysydd a amlygwyd uchod, megis cynyddu cyfraddau ROSC yn llwyddiannus.

Roedd gan yr Ymddiriedolaeth sefydliad cyllidebol o 1,834 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ar gyfer EMS yn 2022/23. Gostyngodd y sefydliad hwn i 1823.3 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn 2023/24. Mae ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i dyfu ein rôl APP yn rhan o'n huchelgais "gwrthdroi'r triongl". Er gwaethaf y ffaith ni dderbyniwyd unrhyw arian ychwanegol; cynyddodd yr ymddiriedolaeth y rôl hon 15.7 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn 2023/24. Amcan strategol yr Ymddiriedolaeth




yw cynyddu ei gallu i frysbennu dros y ffôn a Gweld a Thrin, gan symud i ffwrdd o fodel trawsgludo traddodiadol er mwyn lliniaru'r oedi presennol wrth drosglwyddo o ysbytai. Er mwyn ariannu cynnydd o 15.7 o APP cyfwerth ag amser llawn, bu'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth leihau nifer y Technegwyr Meddygol Brys (EMTs) gan nad oedd unrhyw arian ychwanegol ar gael yn 2023/24.


Mae'r Ymddiriedolaeth yn edrych ar fodolau tymor hwy i dyfu ein carfan APP i gefnogi ein huchelgeisiau yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys recriwtio NQPs ychwanegol i gefnogi ein symudiad parafeddygon B6 i rolau APP.

Mae trafodaethau'n parhau ynghylch rôl swydd EMT2/EMT3 sydd wedi effeithio ar ein gallu i recriwtio'n allanol i swyddi EMT1. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cadarnhau dau gwrs trosi EMT1 o'n carfan ACA2 ym mis Ebrill a mis Mai 2024 i gynnig dilyniant gyrfa a llenwi rhai o'r swyddi gwag hyn.


Mae'r graff isod yn dangos, oherwydd cynnydd yn niferoedd staff rheng flaen, gyda 95% o swyddi rheng flaen a gomisiynir ar hyn o bryd, fod yr Ymddiriedolaeth wedi gallu cynyddu nifer yr oriau uned ambiwlans y mae'n gallu eu cynhyrchu o gymharu i'r flwyddyn flaenorol. Yn 2023/24, cynhyrchwyd 1,444,432 o oriau gwirioneddol o gymharu â 1,307,985 o oriau yn 2022/23. Mae hyn yn gynydd sylweddol yn nifer yr oriau EMS a gynhyrchir; ond mae'r cynnydd hwn wedi'i wrthbwysu gan y nifer uchel barhaus o oriau a gollwyd oherwydd trosglwyddo cleifion i'r ysbyty.



Ffactor allweddol arall yng ngallu'r Ymddiriedolaeth i sicrhau capasiti i fodloni'r galw yw effaith tynnu staff o'r rota gwaith, ac mae hyn hefyd yn darparu dangosydd o lesiant ein pobl. Mae tyniadau, yn arbennig, absenoldeb salwch wedi cael ei effeithio gan y pandemig. Er mwyn cefnogi'r gweithlu, canolbwyntiwyd yn barhaus ar weithgareddau llesiant ar draws pob rhan o'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y rhai mewn rolau rheng flaen a rolau cymorth.




Mae'r graff uchod yn dangos lefel y tyniadau o ganlyniad i salwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer staff EMS. Yn 2022/23, roedd 10.3% o dyniadau bob mis oherwydd salwch, ond mae'r ffigur hwn wedi gostwng i 9.4% yn ystod 2023/24. Mae'r ffigur hwn yn parhau i fod yn uwch na tharged salwch diwedd blwyddyn yr Ymddiriedolaeth o 6%. Mae'r graff isod yn amlygu'r gwelliant mewn tyniadau EMS cyffredinol drwy gydol y flwyddyn, gyda chyfartaledd misol o 33.1% yn 2023/24 o gymharu â 35.9% yn 22/23 a 37.9% yn 2021/22. Ym mis Ionawr 2024 hefyd gwelwyd y targed o 30% yn cael ei gyflawni am y tro cyntaf ers dros bedair blynedd.




Gwelwyd lluniau tebyg hefyd yn 111 a Gofal Ambiwylans. Gwelodd 111 gyfradd tyniadau oherwydd salwch o 8.1% yn 2023/24, o gymharu â 10.8% y flwyddyn flaenorol, tra bod Gofal Ambiwylans wedi gweld cyfraddau salwch yn gostwng o 10.8% yn 2022/23 i 10.2% yn 2023/24. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwbl ymwybodol bod angen i absenoldeb salwch barhau i fod yn brif faes ffocws dros y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau bod targedau lleihau salwch yn cael eu cyrraedd ac mae wedi ymrwmo'n llwyr i nifer o fentrau gan gynnwys hyfforddiant i reolwyr a sesiynau lles i staff. Mae'r cyfraddau salwch llawn i'w gweld yn yr Adroddiad Atebolwydd.



Ni wnaeth cyfraddau Hyfforddiant Statudol a Gorfodol yn ystod 2023/24 gyrraedd y targed cyffredinol o 85%, gyda'r lefel a gwblhawyd yn 81.9% ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhaliwyd dadansoddiad pellach, a chanfuwyd bod cyflwyno modiwl hyfforddi statudol newydd wedi cael effaith ar gyfraddau cydymffurfio yn ystod 2023. Fodd bynnag, yn rhan olaf 2023/24 gwelwyd parhad o'r dringo tuag at y targed o 85%.



O ran datblygiad staff, mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn mai lefelau PADRs yw'r ffordd orau o gynrychioli datblygiad ar lefel uchel. Er bod y ffigur diwedd blwyddyn ar gyfer 2023/24 o 78.8% wedi methu â chyrraedd y targed o 85%, roedd yn welliant pellach ar y gyfradd gydymffurfio o 72.1% a gofnodwyd ar gyfer 2022/23.



1.9. Cyllid a Gwerth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu nifer o ddangosyddion sy'n ceisio dangos sut y mae'n darparu gwasanaeth yn unol â dyletswyddau ariannol statudol, ac o werth ac effeithlonrwydd uchel. Bydd y maes hwn o'r Adroddiad Perfformiad yn cael ei gryfhau dros amser wrth i'r rhaglen gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth barhau. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol yn 2023/24, gyda gwagedd referniw bach o £85 mil a chyflawnodd ei dyletswydd statudol i adennill costau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.



Cyflawnwyd arbedion gros o £6.546m yn erbyn targed o £6.000m, felly cafwyd or-gyflawniad o oddeutu 9.1%. Roedd Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus ar y trywydd iawn, gyda pherfformiad o 96.4% ar gyfer nifer, a 98.5% ar gyfer gwerth, yr anfonebau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG a dalwyd o fewn 30 diwrnod (targed o 95%). Ceir rhagor o wybodaeth yng nghyfrifon blynyddol a datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, a baratowyd ar sail busnes gweithredol.

Mae cynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2024/25 yn un cytbwys ond yn seiliedig ar gyflawni targed arbedion o oddeutu £6.4m. Mae'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol, a ddechreuodd yn gynnar yn 2022/23, yn rhaglen waith allweddol a fydd yn ysgogi trawsnewid i gyflawni effeithlonrwydd cost yn ogystal ag archwilio cyfleoedd i gynhyrchu incwm ar gyfer 2024/25 a'r tu hwnt. Fel rhan o waith parhaus yr Ymddiriedolaeth ar Werth, mae'n cyflwyno system Costio Lefel Claf i ganiatáu sefydlu dadansoddiad manwl o gostau. Mae hyn yn cyfuno data ariannol, ynghyd â data gweithgarwch a gasglwyd o nifer o systemau'r Ymddiriedolaeth, a fydd yn caniatáu ar gyfer meincnodi mewnol ac allanol.

O ganlyniad i'r amgylchedd hwn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun sy'n canolbwyntio mwy ar werth a chynaliadwyedd ariannol yn ogystal â'r effaith ar ein



pobl, gan gynnal uchelgeisiau hefyd i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'n cleifion trwy drawsnewid y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol yn biler allweddol a fydd yn ysgogi trawsnewid er mwyn cyflawni arbedion cost, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd i gynhyrchu incwm ar gyfer 2024/25 a thu hwnt.

1.10. Gwybodaeth Perfformiad Anariannol

Hawliau Dynol, Amrywiaeth a Chydraddoldeb


Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn yr Adroddiad Atebolrwydd yn datgelu sut mae'r Ymddiriedolaeth yn bodloni ei rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Cyfeiriwch at y Datganiadau Datgelu a'r datganiad o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 am ragor o wybodaeth. Mae sylwebaeth ychwanegol hefyd ynghylch 'Materion Eraill Gweithwyr' yn yr Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff, yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Gwrth-lygredd a Gwrth-lwgrwobrwyo

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn cynnwys adroddiad ynghylch trefniadau atal twyll yr Ymddiriedolaeth, a pherthynas yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol â'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiad hwn i'w weld yn adran 'Y Fframwaith Rheoli' yr Adroddiad Atebolrwydd.

1.11. Partneriaethau a Chyfraniad y System

Nod yr Ymddiriedolaeth yw ystyried ei heffaith ar y system ehangach, ond hefyd effaith y system ehangach ar ei gwasanaeth. Er eu bod wedi lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae oriau a gollwyd wrth drosglwyddo wedi parhau i fod yn eithafol yng Nghymru, gyda chyfartaledd o 21,700 o oriau a gollwyd y mis drwy gydol 2023/24, sy'n cyfateb i 1,808 o sifftiau deuddeg awr ac yn golygu y gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi ymateb i dros 3,405 yn fwy o gleifion bob mis pe bai trosglwyddiadau'n cael eu lleihau. Roedd hyn yn golygu bod cyfanswm o 260,398 o oriau ambiwlans wedi'u colli yn 2023/24 hy mae'r Ymddiriedolaeth yn colli rhwng chwarter a thraean o'i chynhyrchiant ambiwlansys cludo, sy'n welliant bach ar y 298,704 a gollwyd yn ystod 2022/23, ond yn amlwg yn dal i fod yn ormod.




Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol bod Byrddau lechyd wedi cyflwyno fframweithiau galw cynyddol gofal brys a brys yn ystod 2023 i geisio lleihau'r oriau a gollwyd wrth drosglwyddo, yn dilyn negeseuon cryf gan Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod yn rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn fel mater o flaenoriaeth. Sefydlwyd cyfres o gyfarfodydd Cynllun Gweithredu Comisiynu Integredig hefyd gan yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol, a gynlluniwyd i Fyrddau lechyd unigol a'r Ymddiriedolaeth gydweithio er mwyn lleihau oriau trosglwyddo; parhaodd y rhain drwy gydol 2023.

I ddechrau, bu gostyngiad yn nifer yr oriau a gollwyd ar draws bron pob Bwrdd lechyd rhwng mis Ebrill a mis Awst 2023, er bod lefelau llwyddiant yn amrywio. Fodd bynnag, dim ond Caerdydd a'r Fro sydd wedi gallu cynnal y gostyngiad hwn mewn oriau a gollwyd hyd at 2024, sydd wedi golygu mai dim ond 794 o oriau wedi'u colli ar gyfartaledd o fewn Caerdydd a'r Fro yn 2023/24, o gymharu â 2,012 yn 2022/23. Hefyd, llwyddodd y Bwrdd lechyd i gadw amseroedd aros o dan awr yn ystod sawl mis o'r flwyddyn. Ym mhob Bwrdd lechyd arall, mae nifer yr oriau a gollwyd wedi bod yn cynyddu'n raddol unwaith eto ers mis Medi 2023, gan olygu bod nifer yr oriau a gollwyd yn uwch yn Ch4 (Ionawr i Fawrth 2024) 2023/24 yn uwch na Ch4 2022/23. O ystyried maint yr her a'i chysylltiadau â phwysau system ehangach, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth gynllunio ar y sail y bydd oriau coll yn parhau'n uchel hyd y gellir



rhagweld a chydabod y byddant yn parhau i achosi niwed sylweddol i gleifion. Mae'r Llawlyfr Polisi Chwe Nod yn nodi'r disgwyliad na fydd unrhyw drosglwyddo yn hwy nag awr erbyn 2025; byddai hyn yn cyfateb i 7,000 o oriau fesul mis calendr, sy'n llawer is na'r +20,000 o oriau y mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth weithredu ynddynt ar hyn o bryd. Dylid nodi bod allwedddi rhestr ddyletswyddau EMS cyfredol yr Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar 6,000 awr y mis calendr.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i drawsnewid ei gwasanaethau i ddod yn fwy cynaliadwy, i gael cleifion i'r gwasanaeth cywir, yn y lle iawn, bob tro, ac i leihau'r ddibyniaeth ar adrannau achosion brys fel y lleoliad diofyn ar gyfer gofal diffiniol brys ac mewn argyfwng. Un o'r meysydd lle mae'r Ymddiriedolaeth eisoes yn helpu'r system i leihau'r galw yw Ymgynghori a Chau, trwy waith y Ddesg Gymorth Clinigol ac 111. Meincnodwyd cyfradd 'Ymgynghori a Chau' 2022/23 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth ar 15%, ond cafodd hyn ei ailosod i 17% fel targed LIC ar gyfer 2023/24. Ni chyflawnwyd y ffigur hwn mewn unrhyw un mis, gyda'r ffigur 'Ymgynghori a Chau' misol ar gyfartaledd am y flwyddyn yn 13.9%. Mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi mwy o gapasiti yn 2024/25 mewn brysennu clinigol o bell.






GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust


Mae'r cynnydd wrth sefydlu'r Ddesg Gymorth Clinigol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi golygu bod yr Ymddiriedolaeth wedi gallu cynyddu ei chyfradd a'i niferoedd 'Ymgynghori a Chau'. Mae cynllun gwella ar waith a oedd wedi arwain at berfformiad uwch gyda'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei chyfradd ymgynghori a chau uwch ar ddechrau 2024/25: ym mis Ebrill 2024, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth gyfradd ymgynghori a chau o 15.1%. Mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi ymhellach yn ei gallu brysbennu o bell yn 2024/25.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn monitro ei chyfraddau 'Gweld a Thrin' a'r rhai sy'n cael eu trin yn y fan a'r lle, sydd wedi cynyddu ychydig yn erbyn digwyddiadau a ddilyswyd flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan godi o gyfartaledd misol o 10.6% yn 2022/23 i 10.9% yn 2023/24. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 3,829 o gleifion yn cael eu trin yn y fan a'r lle bob mis drwy gydol 2023/24. Erys uchelgais strategol yr Ymddiriedolaeth i gynyddu'r gweithgaredd 'symud i'r chwith' hwn a lleihau nifer y cleifion y mae angen eu cludo i adrannau achosion brys.

Mewn perthynas â gwasanaeth 111 yr Ymddiriedolaeth, un o'r ffactorau llwyddiant ar gyfer GIG 111 Cymru yw cael y claf i'r gwasanaeth cywir, y tro cyntaf. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur canlyniadau yn ôl ble y caiff cleifion eu cyfeirio ato, ond mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd i wella metrigau data 111, gan ganiatáu am adrodd data mwy ystyrlon a nodi ai'r canlyniadau hyn yw'r gorau a'r mwyaf priodol.



Mae'r graff uchod yn amlygu lle mae'r rhai sy'n ffonio'r gwasanaeth 111 yn cael eu cyfeirio ar hyn o bryd, gyda'r rhai sy'n cael eu cyfeirio at Feddyg Teulu yn cynnwys y ganran fwyaf am y flwyddyn (42%). Mae'r graff isod yn symleiddio'r ymateb a gafodd cleifion, gyda'r llinell las i bob pwrpas yn amlygu'r rhai a gafodd eu 'stopio yn y pwynt cyswllt cychwynnol'. Mae hyn yn dangos bod y ffigur hwn wedi bod yn gymharol sefydlog dros y ddwy flynedd ddiwethaf.



1.12. Atal a Rheoli Heintiau

Roedd Atal a Rheoli Heintiau (IPC) yn parhau'n elfen hanfodol o ofal iechyd yn 2023/2024, wrth i'r byd barhau i ymraffael â phandemig parhaus Covid-19 a chlefydau heintus eraill sy'n dod i'r amlwg sydd â'r potensial i achosi niwed.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i hyrwyddo canllawiau llym ar atal heintiau, hylendid y dwylo, cyfarpar diogelu personol a threfniadau glanhau gwell i atal clefydau heintus rhag lledaenu ymhlith staff a chleifion. Yn gyffredinol, bydd yr IPC yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ddarparwyr gofal iechyd a llunwyr polisi yn 2024 wrth i'r Ymddiriedolaeth barhau i wynebu heriau parhaus o ganlyniad i glefydau heintus.

Gall heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd arwain at ganlyniadau difrifol, yn enwedig i boblogaethau agored i niwed fel yr henoed, unigolion ag imiwnedd gwan a phobl â salwch cronig, felly mae'n hanfodol parhau i gryfhau strategaethau atal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a gweithredu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Parhad mesurau atal Covid-19, oherwydd er nad yw Sefydliad Iechyd y Byd yn ystyried bod Covid-19 yn "argyfwng iechyd cyhoeddus o bryder rhyngwladol" bellach, mae'n parhau yn ein cymunedau. Felly, mae'n hanfodol parhau i weithredu mesurau fel gwisgo masgiau, cynnal pellter corfforol, a sicrhau



hylendid dwylo da lle bo angen. Mae'r camau syml hyn yn fesurau ataliol sylfaenol ac effeithiol i leihau lledaeniad heintiau.

- Paratoi ar gyfer clefydau heintus sy'n dod i'r amlwg. Mae clefydau heintus sy'n dod i'r amlwg yn fygythiad sylweddol i iechyd y cyhoedd, e.e. brech y mwncïod. Fel rhan o'n harferion, mae'n bwysig ein bod yn canfod ac yn ymateb i glefydau heintus sy'n dod i'r amlwg yn brydlon, yn enwedig y rhai sy'n cael eu hystyried yn Glefydau Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol.
- Mae'r ddarpariaeth cyfarpar diogelu personol bresennol yn cael ei hadolygu a'r weledigaeth hirdymor yw ei fod yn hawdd cael ato, yn briodol ac yn gynaliadwy yn y dyfodol agos o leiaf.
- Bydd ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth yn parhau, gan y gwyddys eu bod yn chwarae rhan hanfodol wrth atal clefydau heintus. Mae'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Hyfforddi Cenedlaethol i sicrhau bod yr addysg a ddarperir ar gyfer 2024/25 yn berthnasol, yn hawdd cael ati, yn gyfredol ac yn gallu cael ei monitro o ran cydymffurfedd ac effeithiolrwydd.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i chwilio am, a phrofi, technolegau newydd ac arloesol, a strategaethau i helpu i atal lledaeniad clefydau heintus. Mae eisoes wedi croesawu'r defnydd o'r broses glanweithdra cyflym o lanhau cerbydau a rhaid iddi barhau i fod â meddwl agored a chymhelliant i barhau i chwilio am ffyrdd y gall leihau clefydau heintus sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.
- Mae disgwyl y bydd Canllawiau Cenedlaethol ar Lanhau Ambiwylansys ar gael yn 2024, ac y bydd safonau a phrosesau'n cael eu hadolygu gydag argymhellion cenedlaethol.
- Annog a hyrwyddo brechu staff gofal iechyd rhag clefydau y gellir eu hatal drwy frechlyn gan gynnwys y fflw a'r Frech Goch.
- Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn fygythiad byd-eang i iechyd y cyhoedd. Gall rhaglenni stiwardiaeth gwrthficrobaidd a mesurau atal a rheoli heintiau



helpu i atal lledaeniad organebau ymwrthol a lleihau'r defnydd o wrthfotigau, a thrwy hynny leihau risg ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Mae'n hanfodol adolygu a diweddarau polisiâu a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn rheolaidd i gyd-fynd â'r canllawiau a'r argymhellion diweddaraf gan awdurdodau perthnasol a sicrhau bod hyn yn cyrraedd ymarferwyr rheng flaen.

Cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

1.13. Cyflawni mewn Partneriaeth

Mae blwyddyn ariannol 2023/24 wedi bod yn un lle mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau breision i ddatblygu ei ffordd o feddwl o amgylch ei model clinigol tymor hwy a'r newidiadau sefydliadol y bydd hyn yn eu hachosi. Wrth i'r gwaith hwnnw ddatblygu, mae wedi amlygu pwysigrwydd ein partneriaethau strategol a systemau a'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu fel rhan o'r GIG ehangach yng Nghymru.

Yn ystod rhan olaf y flwyddyn yn arbennig, ymgwymerwyd â gwaith i wrando ar ein partneriaid bwrdd iechyd mewn perthynas â heriau a chyfleoedd a rennir, yn ogystal â rhannu rhai o syniadau cychwynnol yr Ymddiriedolaeth o ran sut y gall wneud mwy o gyfraniad at y system iechyd a gofal.

Yn yr un modd, mae gwaith wedi bod ar y gweill gyda'r Sefydliad Ymgynghori i adolygu fframwaith ymgysylltu presennol yr Ymddiriedolaeth a'r cynllun cyflawni cysylltiedig i sicrhau bod ein dull o drafod ein syniadau gyda'n partneriaid yn gadarn.

Yn gynnar yn 2024/25, bydd yr Ymddiriedolaeth yn symud i roi ei chynlluniau ymgysylltu ar waith yn fwy pendant, i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'n partneriaid ac yn gwrando arnynt yn effeithiol ac yn cefnogi dull cydweithredol o wella gwasanaethau i gleifion a phrofiadau ei staff. Yn yr un modd, ac yn dilyn ei harchwiliad enw da yn 2022/23, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ailadrodd yr ymarfer yn gynnar yn 2024/25 i sicrhau bod canfyddiadau'r ddau ymarfer yn bwydo i mewn i'n hymagwedd at ymgysylltu a dylanwadu.



O ran partneriaethau ffurfiol, bu nifer o ddatblygiadau yn 2023/24. Yn gyntaf, mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn aelod o bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (neu is-strwythur o hynny yn achos Gwent) yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan y gwasanaeth bellach lais wrth y bwrdd gwneud penderfyniadau, gyda phartneriaid statudol eraill, partneriaid cymunedol a'r trydydd sector.

Cynrychiolir yr Ymddiriedolaeth yn y fforymau hyn gan y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, sydd hefyd ar hyn o bryd yn Is-gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, a Chyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad. Mae aelodaeth o'r fforymau hyn yn helpu'r Ymddiriedolaeth gyda'i hymgysylltiad, dylanwadu a dealltwriaeth o heriau a chyfleoedd cyffredin, ond mae ganddo hefyd fuddion diriaethol, er enghraifft, o ran darparu mynediad at lifoedd ariannu amgen, megis y Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF). Yn ystod 2023/24, sicrhawyd cyllid drwy'r RIF ar gyfer treialu cyfrwng ymateb iechyd meddwl yng Ngwent, gan alluogi'r Ymddiriedolaeth i brofi modelau gofal wrth iddi geisio amrywio'r ffordd y mae'n ymateb i gleifion, fel sefydliad ac fel partner ag eraill.

Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gobeithio dod o dan nawdd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn 2023/24, cafodd hyn ei ohirio a bydd bellach yn cael ei sefydlu o 30 Mehefin 2024. Wedi dweud hynny, yn ystod y flwyddyn 2023/24, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i weithio o fewn ysbryd y Ddeddf a bydd mewn sefyllfa dda i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, gan gynnwys datblygu a chyhoeddi ei hamcanion Llesiant.

Mae safle'r Ymddiriedolaeth fel sefydliad arloesol, blaengar wedi bod yn amlwg ers blynyddoedd lawer, yn enwedig trwy ei gweithgarwch ymchwil, lle mae'r Ymddiriedolaeth ar flaen y gad o ran ymchwil yn y sector yn rhyngwladol.

Yn yr un modd, gydag uchelgeisiau i esblygu ei fodel clinigol a gwneud y gorau o sgiliau ei staff, mae addysg, dysgu a datblygiad ar gyfer yr holl gydweithwyr yn ganolog i lwyddiant y sefydliad yn y dyfodol. Gyda chysylltiadau wedi'u sefydlu eisoes gyda sefydliadau addysg uwch, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a chydag ymrwymiad cryf i arloesi a "democrateiddio dysgu", mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ymdrechu i gyflawni Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol ers nifer o flynyddoedd. Fel y nodwyd yn Rhagair yr Adroddiad, roedd y sefydliad yn falch iawn o dderbyn



hysbysiad ym mis Mawrth 2024 bod ei gais wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, yn dilyn proses asesu a llywodraethu trwyadl. Daeth yr Ymddiriedolaeth yn Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru o 01 Ebrill 2024, gan gadarnhau ei statws fel arweinydd yn ei maes.

1.14. Blaenoriaethau Gweinidogol a GIG Cymru

Er gwaethaf heriau ariannol i GIG Cymru yn 2023/24, roedd disgwyl i'r Ymddiriedolaeth gyflawni ei hymrwymiaidau yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, yn enwedig yn erbyn y blaenoriaethau gweinidogol sy'n berthnasol i WAST.

Blaenoriaethau Gweinidogol

Mynediad Gofal Sylfaenol at Wasanaethau

Nododd yr Ymddiriedolaeth ei chamau Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023/26 yn ymwneud â gwell mynediad at wasanaethau deintyddol drwy GIG 111 Cymru. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth fuddsoddiad yn ystod y flwyddyn (Rhagfyr 2023) gan y comisiynwyr 111 i wella'r platfform digidol 111. Gwnaethpwyd y gwaith yn gyflym yn ystod Ch4 ac mae bron wedi'i gwblhau ar hyn o bryd, yn benodol, gwell gwirwyr symptomau deintyddol.

Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd

Llofnod:

Colin Dennis

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2024



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

Jason Killens

Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2024

Chris Turley

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2024



2.1.4 Y Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn dangos sut y gwnaethom reoli adnoddau yn 2023/24 ac i ba raddau y gwnaethom gydymffurfio â'n gofynion llywodraethu ein hunain, gan gynnwys sut rydym wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Wrth wneud hynny, mae'n dwyn ynghyd yr holl ddatgeliadau sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheoli.

a) Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn y sefydliad. Mae Prif Weithredwr, a Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, tra hefyd yn diogelu arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, mae'r rhain wedi'u cyflawni yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr i gyflawni ei atebolrwydd ac yn cyfarfod yn wythnosol ar gyfer trafodaethau ffurfiannol, cymorth a gwneud penderfyniadau. Adlewyrchir strwythur tebyg ar gyfer Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn Nhîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol. Adolygwyd effeithiolrwydd y ddau fforwm yn ystod 2023/24 a gwnaed newidiadau i'w cylch gorchwyl a'u trefniadau gweithredu.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio, yn fewnol a chyda phartneriaid, mewn ymateb i'r pwysau ar y system wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru, a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i ddarparu. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu. Fodd bynnag, y bwriad fu lleihau dyblygu lle bo modd. Felly, mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu hwn.



b) Fframwaith Llywodraethu

Mae llywodraethu yn disgrifio'r ffyrdd y mae sefydliadau'n sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae hefyd yn disgrifio'r ffyrdd y mae sefydliadau'n agored ac yn atebol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu am y gwaith y maent yn ei wneud. I'r Ymddiriedolaeth, mae llywodraethu da yn ymwneud â chreu fframwaith o fewn yr hyn yr ydym yn:

- Darparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd da i'n cleifion.
- Bod yn dryloyw yn y ffyrdd rydym yn gyfrifol ac yn atebol am ein gwaith.
- Sicrhau ein bod yn gwella'r ffyrdd rydym yn gweithio'n barhaus ac yn dangos ein hymrwymiad i'r ddyletswydd ansawdd.
- Cadw at egwyddorion llywodraethu da ac Egwyddorion Nolan.

Mae sicrhau llywodraethu da wrth wraidd y ffordd yr ydym yn gwasanaethu ein cleifion, yn cefnogi ein staff, ac yn cynnal ein sefydliad. Adlewyrchir hyn yn y strwythurau, y systemau, a'r prosesau a sefydlwn i reoli ein cyfrifoldebau'n effeithiol yn ogystal â'r ymddygiadau a ddangoswn a'r safonau yr ydym yn glynu wrthynt. Yn ganolog i'r fframwaith hwn mae ein pobl – mae eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb, a'r safonau moesegol y maen nhw'n eu dilyn wrth gyflawni eu gwaith yn chwarae rhan ganolog wrth gynnal ein safonau llywodraethu.

Mae ein hymagwedd at lywodraethu yn ddeinamig, gan gynnwys craffu parhaus ar ein perfformiad ac ymrwymiad i'r Ddyletswydd Ansawdd. Yn 2023/24 cyflwynodd y rhaglen llywodraethu integredig ddull cyfannol o lywodraethu sy'n anelu at symleiddio ac uno mecaneg a dymeg llywodraethu yn yr Ymddiriedolaeth. Mae'n ymwneud â chymhwyso set o egwyddorion llywodraethu symlach i'r elfennau presennol, sy'n aeddfedu ac sy'n dod i'r amlwg o fframweithiau llywodraethu, atebolrwydd, risg a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Bydd hyn yn cefnogi cydlyniad, effeithlonrwydd ac atebolrwydd ar bob lefel o'r 'llawr i'r bwrdd'.



Mae fframwaith llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys y strwythurau, y systemau, y prosesau a'r ymddygiadau y mae'n ofynnol i gyrrff iechyd GIG Cymru eu sefydlu er mwyn sicrhau llywodraethu da, ac maent yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Rheolau Sefydlog, sy'n ymgorffori'r Cynllun Neilltuo a Dirprwyo Grymoedd, a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- Y gofyniad am Fwrdd unedol a'r Pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd, ynghyd â'u cylch gorchwyl.
- Sut mae rheolwyr llinell yn gweithredu, gan gynnwys safonau ymddygiad ac atebolrwydd busnes.
- Cynllunio busnes blynyddol trwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau cyfarwyddiaethau lleol.
- Fframwaith Ansawdd a Rheoli Perfformiad.
- Polisiâu a chanllawiau gweithdrefnol i staff.
- Cofrestrau risg a fframweithiau sicrwydd.
- Archwilio Mewnol; a
- Gwaith craffu gan aseswyr allanol gan gynnwys Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio ei gwaith. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Neddf GIG (Cymru) 2006 a Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990 (OS 1990 Rhif 2024) fel y'u diwygiwyd, yn arfer gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â'r Rheolau Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymddygiad busnes yr Ymddiriedolaeth ac yn diffinio ei ffyrdd o weithio.

Ar 20 Ebrill 2023, hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio am y diffyg cydymffurfio â pharagraff 7.4.3 y Rheolau Sefydlog, sef bod papurau'r Bwrdd ar gael deg diwrnod calendr cyn cyfarfodydd. Er y gallai'r Ymddiriedolaeth wneud gwelliannau parhaus o ran uwchlwytho papurau i sicrhau eu bod o leiaf saith diwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau, roedd amseroldeb data a gwybodaeth yn allweddol a gallai cyfnod o ddeg diwrnod ddarparu gwybodaeth ddarfodedig, yn enwedig wrth



ystyried prosesau llywodraethu cyn hynny. Diwygiwyd y Rheolau Sefydlog ym mis Tachwedd 2023 i ddarparu ar gyfer cyfnod amser o saith diwrnod.

Ar 01 Mawrth 2024, hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio am ddiffyg cydymffurfio â darpariaeth y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â chymeradwyo contractau gan y Bwrdd. Amlygwyd hyn trwy gwblhau archwiliad mewnol â sgôr sicrwydd rhesymol a amlygodd y mater hwn. Mewn ymateb i hyn mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio'r Cynllun Materion a Gadwyd yn Ôl i'r Bwrdd a'i Ddirprwyo i arferion sefydledig cliriach. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariad llafar ar y cynllun i fynd i'r afael â hyn ym mis Mawrth 2024, a derbyniodd newidiadau i'r Cynllun Neilltuo a Dirprwyo Grymoedd i fynd i'r afael â hyn yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024. Mae diwygiadau pellach yn cael eu gwneud i'r ddogfen hon i'w hadolygu cyn i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ei chymeradwyo.

Ym mis Mai 2023, cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ddiwygiad dros dro i Reol Sefydlog 7.2.5, sef ei bod hi'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gynnal ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf bob blwyddyn. Roedd y diwygiad dros dro mewn ymateb i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a ganiataodd i gyrff y GIG gynnal eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol erbyn 28 Medi 2023 fan bellaf. Mewn ymateb, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023 ar 27 Medi 2023.

Mae newidiadau eraill a wnaed i ddogfennau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys adolygiad ehangach o'r Brif ddogfen Rheol Sefydlog, Cynllun Neilltuo a Dirprwyo Grymoedd a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i adlewyrchu'r ffaith bod y Rheolau Sefydlog Enghreifftiol yn ymgorffori newid o Gyngorau Iechyd Cymuned i Gorff Llais y Dinesydd (Llais), ac yn adlewyrchu gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, gan gynnwys rôl fandadol yr Is-gadeirydd a Chyfarwyddwr â phleidlais ychwanegol (a gyflwynwyd yn 2022). Yn ogystal, ym mis Tachwedd 2023 cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth newidiadau i'r Cynllun Neilltuo a Dirprwyo Grymoedd i adlewyrchu ymddeoliad y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Mae'r Rheolau Sefydlog a'r dogfennau cysylltiedig i'w gweld yn adran [cyhoeddiadau](#) ein gwefan.

Datblygwyd Nodiadau Ymarfer Llywodraethu i helpu i ddehongli rhannau o'r Rheolau Sefydlog ac i ddarparu cysondeb o ran dull gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â gosod sêl gyffredin yr Ymddiriedolaeth; gweithdrefnau mewn perthynas â gweithredoedd y Cadeirydd, a sut rydym yn cynnal busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau mewn sesiwn breifat. Cymeradwywyd y Nodiadau Ymarfer Llywodraethu hyn gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill 2023.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol. Mae'n canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- **Strategaeth:** Datblygu strategaeth, gweledigaeth a phwrpas yr Ymddiriedolaeth. Nodi blaenoriaethau, sefydlu nodau ac amcanion, defnyddio adnoddau, deall risgiau i gyflawni amcanion, a dyrannu cyllid i gefnogi'r penderfyniadau y mae angen eu gwneud ynghylch cynllunio strategol.
- **Ymgorffori Ymddygiad Moesegol:** Mae'r Bwrdd yn llunio diwylliant yr Ymddiriedolaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'n pobl, ein cleifion a rhanddeiliaid, y ffordd y mae'n rheoli ei agenda, yn ôl natur y trafodaethau yn y Bwrdd a'r pwyslais cymharol a roddir ar feini prawf perfformiad gwahanol, yn ôl amlygrwydd ei aelodau yn y sefydliad, ac yn ôl ble mae'n dewis buddsoddi amser ac adnoddau. Rhaid i aelodau'r Bwrdd gadw at y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a gonestrwydd a chadw at Egwyddorion Nolan.
- **Ansawdd:** Yn gosod disgwyliadau ac atebolrwydd ar draws y sefydliad ar gyfer perfformiad uchel a chydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd fel y'u nodir yn Neddf Iechyd a Gofal (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rôl o ran darparu gofal effeithiol ac o ansawdd uchel mewn fframwaith llywodraethu sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng ymddiriedaeth, trafodaeth adeiladol, a her effeithiol mewn diwylliant o fod yn agored a dysgu.
- **Rheoli Risg:** Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reoli risg a sicrhau bod system gadarn o reoli risg a rheolaethau mewnol ar waith, a'u bod yn edrych ar y camau lliniaru sydd ar waith ar gyfer y prif risgiau i gyflawni'r strategaeth.



- Cael Sicrwydd ar Gyflawni Strategaeth a Pherfformiad: Dwyn i gyfrif a mynnu eu bod yn atebol am gyflawni'r strategaeth yn unol â'r fframweithiau strategol a pherfformiad a ddatblygwyd gan y Bwrdd, a chanolbwyntio ar strategaeth, perfformiad, diwylliant ac ymddygiadau. Mae Aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol yr Ymddiriedolaeth ac yn darparu arweiniad a chyfeiriad, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith.

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, chwe Chyfarwyddwr Anweithredol a chwe Chyfarwyddwr Gweithredol. Cefnogir y Bwrdd gan bedwar Cyfarwyddwr heb hawliau pleidleisio pellach (gan gynnwys Ysgrifennydd y Bwrdd) a dau gynrychiolydd partner Undeb Llafur. Roedd pum aelod heb hawliau pleidleisio ar y Bwrdd tan 31 Rhagfyr 2023. O 01 Ionawr 2024 yn dilyn ymddeoliad y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a phan symudodd y dynodiad pleidleisio i Gyfarwyddwr Parafeddygaeth (sef y Cyfarwyddwr Parafeddygaeth Gweithredol bellach), cyfanswm y nifer o aelodau'r Bwrdd heb hawliau pleidleisio oedd pedwar.

Mae'r Bwrdd yn cynnal cyfarfodydd wedi'u hamserlennu bob deufis, ynghyd â chyfarfod ychwanegol i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Cyfarfu Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gyhoeddus chwe gwaith yn 2023/24 a naw gwaith mewn sesiwn breifat, lle trafodwyd materion cyfrinachol a/neu o sensitifrwydd masnachol. Mae penderfyniadau a wneir yn sesiwn breifat y Bwrdd a Phwyllgorau yn cael eu hadrodd wedyn yn sesiwn gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Roedd cyfansoddiad priodol i gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn 2023/24 ac roedd ganddynt gworwm i gyd. Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth ganslo unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd na Phwyllgorau Bwrdd a drefnwyd yn ystod 2023/24. Mae Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WASPT) a ailgyfansoddwyd ym mis Tachwedd 2022 yn adrodd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyfarfod yn gyhoeddus ac wedi gwneud hynny ar gyfer ei chyfarfodydd Bwrdd yn 2023/34. Cynhaliwyd holl gyfarfodydd Bwrdd yr



Ymddiriedolaeth yn 2023/24 yn Nepo Ymbaratoi Caerdydd. Drwy gydol 2023/24, mae sawl cyfarfod Pwyllgor wedi'u cynnal fel cyfarfodydd hybrid; fodd bynnag, mae'r mwyafrif ohonynt yn parhau i ddigwydd fwy neu lai dros Microsoft Teams. Mae'r dull hwn yn effeithiol o ran hwyluso cyfarfodydd o ystyried cylch gwaith cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth ac mae'n caniatáu mwy o gyfranogiad gan aelodau a mynychwyr ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau y caiff busnes ei gynnal mewn modd mor agored a thryloyw ag sy'n bosibl, gall ein pobl, ein cleifion a rhanddeiliaid ymuno â chyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a Phwyllgorau drwy Zoom a Teams yn y drefn honno a chael cyfle i anfon cwestiynau i'r Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny. Caiff cyfarfodydd y Bwrdd eu ffrydio'n fyw ar dudalen Facebook yr Ymddiriedolaeth a'u cadw ar YouTube a gwefan yr Ymddiriedolaeth er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol. Mae manylion sut i ymuno â chyfarfod Bwrdd neu Bwyllgor ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Mae manylion am ddyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb aelodau i'w gweld yn Atodiad un ac Atodiad dau. Cyhoeddir agendâu a phapurau ar gyfer sesiynau cyhoeddus ar [wefan](#) yr Ymddiriedolaeth saith diwrnod cyn cyfarfod. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ei Chyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2023 drwy Zoom ar 27 Medi 2023, a chafodd hwn hefyd ei [ffrydio'n fyw](#). Cynhaliwyd y cyfarfod ym mis Medi 2023 yn hytrach na mis Gorffennaf (yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth) gan ei fod yn adlewyrchu'r amserlen archwilio estynedig ar gyfer Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2022/23.

Ffocws allweddol y Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd cyflawni perfformiad a sicrwydd ansawdd a gwelliant, mewn amgylchedd lle'r oedd y pwysau system yn y GIG yng Nghymru yn parhau i fod yn nodwedd allweddol. Ymhellach, mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau wedi ymrwmo cryn dipyn o amser i drafod y niwed yr oedd ein cleifion a'n pobl yn agored iddo ac yn parhau i fod yn agored iddo; a thrwy wneud hynny sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i liniaru hyn. Mae hyn yn parhau i fod yn ffocws yn 2024/25, tra ar yr un pryd yn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal cyflymder o ran ei thrawsnewid strategol i leihau achosion o niwed.



Cofnodwyd a chadwyd penderfyniadau a champau gweithredu ar ffurf cofnodion cyfarfodydd llawn a chofnod gweithredu ategol, a chaiff y ddau ohonynt eu hadolygu ym mhob cyfarfod.

Mae penderfyniadau allweddol a materion busnes arwyddocaol y mae angen eu huwchgyfeirio yn cael eu gwneud gan bob Pwyllgor i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar ôl pob cyfarfod Pwyllgor ar ffurf adroddiad Rhybuddio, Cynghori a Sicrhau (AAA). Dyma enghreifftiau o'r materion llywodraethu a rheoli allweddol yr aeth y Bwrdd i'r afael â nhw yn ystod 2023/24:

- Adroddiad Blynyddol Archwilio Cymru.
- Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2023.
- Cyfrifon ac adroddiad blynyddol Cronfeydd Elusennol (Elusen yr Ymddiriedolaeth).
- Adroddiadau integredig ar ansawdd a pherfformiad wedi'u halinio â cherdyn sgorio cytbwys ein cleifion, ein pobl, ein gwerth, a'n partneriaethau.
- Cyflawni cynllun Tymor Canolig Integredig 2023/26 a chymeradwyo cynllun 2024/27.
- Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol Rheolaidd.
- Adroddiadau perfformiad ariannol rheolaidd.
- Straeon Cleifion a Staff.
- Polisi Safonau Ymddygiad Busnes.
- Fframwaith Sicrwydd Risg a Bwrdd.
- Polisi Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth.
- Rheolau Sefydlog, Cynllun Cadw a Dirprwyo Grymoedd, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- Adolygiadau effeithiolrwydd blynyddol a diwygiadau i gylch gorchwyl pob Pwyllgor.
- Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/28.
- Yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb y Gweithlu 2022/23.
- Yr Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2022/23.
- Adroddiad Blynyddol, cyfrifon a datganiadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth; ac
- Adroddiad Blynyddol y Gymraeg.



Ceir rhagor o fanylion am waith Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn 2023/24 ar ein gwefan [yma](#), gan gynnwys dyddiadau cyfarfodydd, papurau, cofnodion a recordiadau o gyfarfodydd blaenorol. Yn ogystal, mae gan y Bwrdd 'Gwelededd a Chyfranogiad y Bwrdd – cofnodi ein profiad', Gweithdrefn Weithredu Safonol y mae'n ei dilyn, i gefnogi eu harweinyddiaeth o'r Ymddiriedolaeth.

Parhaodd **Rhaglen Datblygu'r Bwrdd** yn 2023/24 gyda ffocws ar ddeall, dysgu a myfyrto. Roedd nifer dda yn bresennol yn y saith sesiwn a drefnwyd ac fe'u cynlluniwyd i ysgogi trafodaeth ar fentrau strategol; siapio diwylliant ac ymddygiadau; cryfhau'r broses o weithio mewn systemau a phartneriaethau; gwella gwybodaeth am yr amgylchedd rheoleiddio a chaniatáu ar gyfer briffio mwy manwl ar faterion cymhleth cyn cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y sesiynau'n cynnwys:

- Canolbwyntio ar weithgareddau'r elusen a gofynion yr elusen.
- Arddangosfa'r Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS).
- Strategaeth sefydliadol ac adolygiad o fetrigau MIQPR.
- Gweithgareddau adeiladu tîm, ee sesiwn Insights pwrpasol.
- Datblygiad Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024/27.
- Cyflwyniad Llais (Corff Llais y Dinesydd).
- Sgyrsiau am ddiwylliant.
- Gweithdy cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a rhaglen cynghreiriaeth.
- Rhaglen Gweithio'n Ddiogel: Sesiwn ymwybyddiaeth ar arwain sgyrsiau diogel a chadarnhaol.
- Asesiad Strwythuredig a myfyrdodau ar lywodraethu da yn y GIG.

Ar 27 Ebrill 2023 mynychodd Archwilio Cymru sesiwn Datblygu'r Bwrdd mewn perthynas â'i Hasesiad Strwythuredig a myfyrdodau ar lywodraethu da yn y GIG, gyda ffocws penodol ar rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol a'i rôl mewn perthynas â herio a chraffu. Mae aeddfedu ymhellach y fframwaith rheoli risg yn 2023 yn naturiol yn cynorthwyo gyda hyn ac, yn y cyfamser, datblygwyd a gweithredwyd canllawiau ar gydrannau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Ebrill 2023 i gefnogi craffu a herio agosach. Nododd Asesiad Strwythuredig 2024a 2023, yn y drefn honno, fod adborth o Asesiad Strwythuredig 2023 wedi cael ei ystyried yn ofalus gan yr Ymddiriedolaeth



a bod cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn dangos her gytbwys ac adeiladol gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol.

Mae **Welsh Ambulance Services NHS Trust Charity** (rhif cofrestru 1050084) wedi'i chofrestru fel elusen gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn gyfrifol am reolaeth, rheoli a gweinyddu ei elusen yn gyffredinol, yn ogystal â gosod ei nodau a'i hamcanion strategol. Y Pwyllgor Elusennau sy'n goruchwyllo'r Elusen.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr elusen ar gyfer 2022/23 ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#). Nid oedd Archwilio Cymru yn gallu cael gafael ar dystiolaeth ar gyfer nifer o drafodion 2015/16 a arweiniodd at amod technegol cyfrifon 2021/22 mewn perthynas â balansau agoriadol. Mae'r dystiolaeth bellach ar gael ac mae'r mater wedi'i ddatrys.


Ni chanfu Archwilio Cymru unrhyw broblem gyda'r blynyddoedd ariannol dilynol nac yn uniongyrchol mewn perthynas â chyfrifon diweddaraf 2022/23. Mae adroddiad Archwiliad Annibynnol Archwilio Cymru ar gael ym mhapurau'r Ymddiriedolwyr Corfforaethol o'i gyfarfod ym mis Ionawr 2024, sydd ar gael [yma](#). Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2023, ymrwymodd yr Ymddiriedolwr Corfforaethol i roi adnoddau i'r elusen trwy benodi staff ymroddedig i gefnogi ei datblygiad strategol. Bydd y recriwtio hwn yn cael ei symud ymlaen trwy gydol 2024.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae gan y Bwrdd saith Pwyllgor Bwrdd sefydlog, pob un yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol. Mae pwyllgorau'n chwarae rhan bwysig o ran cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau drwy:

- roi cyngor ar ddatblygiad strategol a pherfformiad o fewn y cylch gorchwyl.
- cael sicrwydd a chynnig trosolwg ar agweddau allweddol ar berfformiad sefydliadol, a chefnogi cyflawniad nodau strategol yr Ymddiriedolaeth.
- cyflawni cyfrifoldebau penodol ar ran y Bwrdd; a
- chynnig fforwm lle gellir archwilio syniadau'n fanylach nag y gall cyfarfodydd y Bwrdd ei ganiatáu, gan ddarparu amser a lle i ystyried materion yn fanylach.

Mae papurau a chofnodion pwyllgorau ar gyfer pob cyfarfod wedi'u cynnwys yn adran y [Pwyllgor](#) ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae strwythur Pwyllgorau'r Bwrdd fel a ganlyn:



Mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn paratoi adroddiad crynhoi cynnydd ar gyfer y Bwrdd sy'n seiliedig ar fodel 'Rhybuddio, Cyngori a Sicrhau' (AAA). Dosberthir hwn i'r Bwrdd yn dilyn pob cyfarfod a'i drafod yng nghyfarfod y Bwrdd yn dilyn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor. Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau i'r Bwrdd hefyd wedi iddynt gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor perthnasol.

Roedd argymhellion Asesiad Strwythuredig 2023 yr Ymddiriedolaeth yn nodi y dylai'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi cofnodion heb eu cadarnhau i'r wefan o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod. Mewn ymateb i argymhelliad Asesiad Strwythuredig, cytunwyd y byddai'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi Adroddiad AAA gan y Pwyllgor priodol o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod. Mae'r adroddiadau ac adroddiadau AAA gan y Pwyllgor Elusennau yn cael eu cyflwyno i'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn hytrach na Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Yn ogystal ag adrodd i'r Bwrdd, mae Pwyllgorau'n cydweithio â'i gilydd ar ran y Bwrdd i sicrhau bod croes-adrodd ac ystyriaeth yn digwydd, a rhoddir sicrwydd a chynghor i'r Bwrdd a'r sefydliad ehangach. Mae gan bob Pwyllgor Bwrdd Gyfarwyddwr Gweithredol neu Gyfarwyddwr/Gyfarwyddwyr arweiniol sy'n cydweithio'n



agos â Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd wrth osod agendâu, cynllunio'r cylch busnes a sicrhau bod gwybodaeth amserol o ansawdd da yn cael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor.

Rhoddir cylch gorchwyl pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth a cheir crynodeb o gyfrifoldebau pob un o'r Pwyllgorau isod. Cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth adolygiadau effeithiolrwydd cynhwysfawr a diweddariadau o gylch gorchwyl pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ystod 2023/24; a chymeradwywyd y cylch gorchwyl diwygiedig gan bob Pwyllgor yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2024 a'i gymeradwyo fel pecyn gan y Bwrdd ym mis Mai 2024.

Mae pob Pwyllgor wedi paratoi adroddiad blynyddol ar ei fusnes a'i effeithiolrwydd yn 2023/24, gyda'r adroddiadau blynyddol a'r cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer pob Pwyllgor a gyflwynwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2024. Mae papurau'r cyfarfod hwn ar gael [yma](#).

Mae'r **Pwyllgor Archwilio** yn darparu ffynhonnell allweddol o sicrwydd i'r Bwrdd fod gan y sefydliad reolaethau effeithiol ar waith i reoli'r risgiau rhag cyflawni ei amcanion strategol ac adolygu prosesau llywodraethu a sicrwydd. Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2023/24. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Roedd cynllun gwaith y Pwyllgor am y flwyddyn yn cynnwys:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Blynyddol 2022/23.
- Diweddariadau rheolaidd gan Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol.
- Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25.
- Archwiliad Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu Archwilio Cymru.
- Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2023.
- Diffyg cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog.
- Diwygiadau i Reolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo.
- Nodiadau Arfer Llywodraethu.



- Diweddariad ynghylch yr ôl-groniad sylweddol o bolisiau'r Ymddiriedolaeth sydd i'w hadolygu a'r cynllun i fynd i'r afael â'r ôl-groniad.
- Hunanasesiad o God Llywodraethu 2027 ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog.
- Llawlyfr Proses Archwilio ac Adrodd yr Ymddiriedolaeth.
- Diweddariadau ynghylch gweithredu'r Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad.
- Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig.
- Adroddiadau Tendr ac Ymwadiad Tendr Sengl.
- Diweddariadau rheolaidd gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol.
- Trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban.
- Y Gofrestr Rhoddion a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.
- Y Polisi Rheoli Risg a'r Polisi Atal Twyll Lleol.
- Adroddiadau Rheoli Risg rheolaidd a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.
- Cylch Busnes y Pwyllgor 2023/24.
- Effeithiolrwydd y Pwyllgor a'i adolygiad o'i gylch gorchwyl a'i flaenoriaethau.

Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor Archwilio yn 2023/24 [yma](#).

Mae'r **Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth** yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer tâl cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth i staff, yn enwedig uwch aelodau staff. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod mewn sesiwn gaeedig yn unig a chyfarfu dair gwaith yn ystod 2023/24. Mae holl Gyfarwyddwyr Anweithredol yr Ymddiriedolaeth yn aelodau o'r Pwyllgor Tâl, a Chadeirydd y Pwyllgor yw Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Sefydlwyd y **Pwyllgor Partneriaeth Academaidd** ym mis Gorffennaf 2020 yn strwythur llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, ac mae ei ddiben a'i rôl yn dal i esblygu. Fel y nodir yn ei gylch gorchwyl, mae'n ymdrin â'i gylch gwaith gyda chymysgedd o graffu (yn enwedig o ran blaenoriaethau wedi'u hadnewyddu a chyflawni Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol, partneru (sicrhau bod y partneriaid cywir ar y Pwyllgor a bod trefniadau priodol yn eu lle gyda phartneriaid), cysylltu (gyda phartneriaid presennol a newydd ag ymchwil/rhaglenni gwaith yn yr



Ymddiriedolaeth, ac ymchwilio (dadansoddi elfennau o'r blaenoriaethau a rhaglenni eraill lle'r ydym yn partneru ag academyddion a diwydiant i feithrin a hyrwyddo).

Dros y flwyddyn ddiwethaf gweithiodd y Pwyllgor tuag at ennill Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol, sef dynodiad a ddaeth i rym ar 01 Ebrill 2024. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2023/24. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Roedd cynllun gwaith y Pwyllgor am y flwyddyn yn cynnwys:

- Cyflwyniad Statws Ymddiriedolaeth y Brifysgol, a chynllun i gael aelod o'r Bwrdd sy'n cynrychioli'r byd academiaidd fel rhan o'r broses hon. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu a chyflwyno'r dull recriwtio hwn.
- Y blaenoriaethau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyda Chynllun Tymor Canolig Integredig 2024/27 sy'n ymwneud ag uchelgais y Pwyllgor ac Ymddiriedolaeth Prifysgolion yr Ymddiriedolaeth.
- Trafodaethau ar gyfleoedd i gynhyrchu incwm yn y dyfodol a diweddariad ar y ffrwd waith cynhyrchu incwm o dan y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol.
- Mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Ymchwil a Datblygu newydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, a hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn y Fframwaith hwn.
- Iteriad pellach o fapio rhyngwynebau ymgysylltu i ddangos ble a sut mae'r sefydliad yn cysylltu â'i randdeiliaid academiaidd a diwydiant;
- Effeithiolrwydd y Pwyllgor a chytunodd ar newidiadau i'w drefniadau gweithredu a'i gylch gorchwyl ar gyfer 2024/25 a chymeradwyodd ei gylch busnes ar gyfer 2023/24.
- Profiadau bywyd o weithgareddau ymchwil ac arloesi o fewn yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys derbyn cyflwyniad ar y prosiect addysg a hyfforddiant rhyngbroffesiynol seiliedig ar efelychiad.

Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor Partneriaethau Academiaidd [yma](#).



Diben y **Pwyllgor Cronfeydd Elusennol** (a newidiodd ei enw o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol i'r Pwyllgor Elusennau ym mis Mai 2023) yw gwneud a monitro trefniadau ar gyfer archwilio a rheoli cronfeydd elusennol yr Ymddiriedolaeth a'i chyfeiriad strategol. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2023/24. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Roedd cynllun gwaith y Pwyllgor am y flwyddyn yn cynnwys:

- Canlyniad yr adolygiad strategol o'r elusen sy'n darparu argymhellion ar gyfer cyfeiriad yr Elusen yn y dyfodol. Yn dilyn yr adolygiad hwn ymrwymodd yr Ymddiriedolwr Corfforaethol i dyfu'r elusen fel galluogwr strategol gydag uchelgais i ddatblygu ei galluoedd codi arian.
- Cefnogi'r gofynion adnoddau ar gyfer yr elusen yn unol â'r canlyniad / penderfyniad yn ymwneud â'r adolygiad strategol a'r uchelgais i recriwtio Pennaeth Elusen a Swyddog Codi Arian i Elusen i wireddu ei thwf (a gytunwyd wedyn gan yr Ymddiriedolwr Corfforaethol).
- Dull archwilio Archwiliad Annibynnol ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Elusen 2022/23, a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr Corfforaethol ar 13 Hydref 2023.
- Adroddiadau ariannol rheolaidd ar gronfeydd elusennol a cheisiadau grant a wnaed gan yr elusen.
- Adroddiadau rheolaidd gan y Panel Cynigion a'r Panel Bwrsariaethau ar fidiau a gymeradwywyd dan awdurdod dirprwyedig.
- Polisi Buddsoddi Cronfeydd Elusennol.
- Risgiau newydd yn benodol mewn perthynas â'r elusen.
- Diweddariad ar y meysydd llywodraethu a chodi arian mewn perthynas ag Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned.
- Ystyried fframwaith llywodraethu ar gyfer ceisiadau cronfeydd elusennol ac awdurdod dirprwyedig y Panel Cynigion a'r Panel Bwrsariaethau. Cytunwyd ar newid yn ystod y flwyddyn i ostwng y terfyn cymeradwyo ar gyfer cymeradwyo ceisiadau yn y paneli i £5,000 (gostyngiad o £50,000).
- Adroddiad cloi Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cronfeydd Elusennol.



- Effeithiolrwydd y Pwyllgor a chytunodd ar newidiadau i'w drefniadau gweithredu a'i gylch gorchwyl ar gyfer 2024/25 a chymeradwyodd ei gylch busnes ar gyfer 2023/24.

Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor Elusennau [yma](#).

Mae'r **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad** yn cefnogi'r Bwrdd drwy roi sicrwydd ynghylch cyfrifoldebau ariannol a chynllunio statudol yr Ymddiriedolaeth ac mae ganddo rôl fonitro mewn darparu a chyflawni swyddogaethau busnes ar draws yr Ymddiriedolaeth. Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod 2023/24. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Roedd cynllun gwaith y Pwyllgor am y flwyddyn yn cynnwys:

- Cafwyd adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ac oedi wrth drosglwyddo, gan uwchgyfeirio effaith niwed a marwolaeth y gellir eu hosgoi i gleifion a phrofiad gwael i staff at Fwrdd yr Ymddiriedolaeth;
- Adroddiadau cyllid rheolaidd ym mhob cyfarfod.
- Adroddiadau rheolaidd ar y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol.
- Perfformiad yn erbyn yr Adroddiad Misol ar Ansawdd a Pherfformiad Integredig ym mhob cyfarfod. Adolygwyd yr adolygiad blynyddol o fetrigau ar gyfer yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2023.
- Cynnydd ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023/2026, a adolygwyd ym mhob cyfarfod.
- Y sefyllfa alldro yn erbyn Cynllun Tymor Canolig Integredig 2021/24, a chafwyd a chymeradwywyd Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynllun ariannol 2023/2026.
- Diweddariadau ynghylch y strwythur diwygiedig a llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Trawsnewid Strategol.
- Sawl adroddiad ar Barodrwydd i Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb ac Adroddiad Cynllunio Argyfwng Blynyddol Llywodraeth Cymru.
- Diweddariadau gweithredol rheolaidd.



- Derbyniwyd diweddariadau rheolaidd yn erbyn cynnydd ar gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas ag Ymchwiliad Arena Manceinion a Chynllun Ymateb i Ddigwyddiad yr Ymddiriedolaeth mewn sesiwn breifat.
- Trafodaeth gyson drwy gydol y flwyddyn ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2022, drwy'r diweddariadau Amgylchedd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, yn ychwanegol at yr archwiliad mewnol ar Ddatgarboneiddio a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.
- Crynodeb o Adroddiad Cynaliadwyedd 2022/23.
- Yr Adroddiad Blynyddol Cydymffurfio â Diogelwch Tân.
- Adroddiad Gwireddu Buddion ePCR.
- Adroddiad ynghylch adolygiad porth Llywodraeth Cymru o'r Datrysiadau Cerbydau Data Symudol.
- Diweddariad ar yr adolygiad o swyddogaethau comisiynu cenedlaethol sy'n effeithio ar yr Ymddiriedolaeth.
- Diweddariadau rheolaidd ar weithgarwch mentrau Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth o fewn yr Ymddiriedolaeth.
- Diweddariadau ar gynnydd y Cynllun Digidol a diweddariadau rheolaidd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol digidol yr Ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â Strategaeth Hirdymor a Chynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth.
- Archwiliadau mewnol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor a'r traciwr archwilio i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion a gynhwysir yn yr archwiliadau hyn.
- Adroddiad Rheoli Risg Rheolaidd ac adroddiadau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Adeiladwyd agendâu'r Pwyllgor o amgylch y risgiau â'r sgôr uchaf i'r Pwyllgor.
- Effeithiolrwydd y Pwyllgor a chytunodd ar newidiadau i'w drefniadau gweithredu a'i gylch gorchwyl ar gyfer 2024/25 a chymeradwyodd ei gylch busnes ar gyfer 2023/24.
- Mewn sesiwn breifat, roedd busnes y Pwyllgor yn cynnwys amnewid y System Gwybodaeth Integredig (Salus) a system CAS (System Asesu Clinigol); y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 a rhaglen adnewyddu fflyd yr Ymddiriedolaeth ac achosion busnes cysylltiedig; adroddiadau rheolaidd ar



drefniadau seiberddiogelwch; adolygiad o drefniadau comisiynu cenedlaethol; Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad yr Ymddiriedolaeth; gwelliannau i dechnoleg ar fwrdd cerbydau'r Ymddiriedolaeth, a'r trefniadau ynghylch contract yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Airwave (system gyfathrebu).

Mae rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn 2023/24 ar gael [yma](#).

Mae'r **Pwyllgor Pobl a Diwylliant** yn cefnogi'r Bwrdd drwy roi sicrwydd ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â'i weithlu sy'n cynnwys rhai cyflogedig a gwirfoddolwyr. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd am ei drefniadau arweinyddiaeth, ymddygiadau a diwylliant, hyfforddiant, addysg a datblygiad, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a'r Iaith Gymraeg. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2023/24. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Roedd cynllun gwaith y Pwyllgor am y flwyddyn yn cynnwys;

- Adroddiadau rheolaidd ar brofiad heriol staff, gan uwchgyfeirio hyn i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, a derbyniwyd diweddariadau ym mhob cyfarfod gan y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithredoedd.
- Y Cynllun Pobl a Diwylliant ym mis Mai 2023, a gymeradwywyd wedi hynny gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Cyflwyniad ar ddatblygu Offeryn Adolygu Diwylliannol y gellir ei ddefnyddio fel arf ymarferol i gyflawni newid diwylliannol.
- Plymio dwfn ar ganlyniadau recriwtio ar gyfer cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Cyflwyniadau profiad staff rheolaidd, ynghyd â dysgu a gwelliannau a wnaed oherwydd materion a godwyd.
- Diweddariad ar gynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru a derbyniwyd Cynllun Gweithredu LHDTCC+ Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023.
- Diweddariadau rheolaidd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Codi Llais Heb Ofn, a gwblhaodd ei waith yn ystod y flwyddyn.



- Canlyniadau Arolwg Staff y GIG a chanlyniadau arolwg Pulse mewnol rheolaidd.
- Elfennau pobl a diwylliant y Cynllun Tymor Canolig Integredig 24/27.
- Ystyried datblygiad sgiliau/sgiliau yn pylu ar gyfer clinigwyr.
- Diweddariadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd.
- Y Cynllun Iechyd a Lles drafft ar gyfer 2025/29.
- Cynllun Cyflawni'r Fframwaith Ymgysylltu a'r Archwiliad Enw Da.
- Sbotolau ar wirfoddolwyr a'r Strategaeth Gwirfoddoli.
- Yr Ymgyrch Ffliw dymhorol 2023/24.
- Trefniadau cofrestru ac ail-ddilysu mewn perthynas â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Fframwaith y Gymraeg.
- Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022/23.
- Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau 2022/23.
- Yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Gweithlu.
- Plymio'n ddwfn i absenoldebau oherwydd pryder, straen, iselder / salwch meddwl arall. Roedd y cyflwyniad hwn yn ystyried y rhesymau dros salwch o'r fath a'r cymorth sydd ar gael i gydweithwyr yr Ymddiriedolaeth.
- Yr ôl-groniad o bolisiau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor a'r adolygiad o'r Polisi Iechyd a Diogelwch, Fframwaith Llefaru'n Ddiogel Cymru Gyfan, Polisi Gweithio Hyblyg Cymru Gyfan, a'r Polisi Gweithio o Gartref.
- Diweddariadau rheolaidd ar weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Undebau Llafur gan gynnwys derbyn Adroddiad Blynyddol yr Undebau Llafur, a diweddariadau ynghylch ailsefydlu Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru.
- Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/28.
- Yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb y Gweithlu 2022/23.
- Yr Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2022/23.
- Archwiliadau mewnol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ogystal â'r traciwr archwilio i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion.
- Adroddiadau Rheoli Risg rheolaidd a Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ym mhob cyfarfod. Adeiladwyd agendâu'r Pwyllgor o amgylch y risgiau â'r sgôr uchaf i'r Pwyllgor.



- Effeithiolrwydd y Pwyllgor a chytunodd ar newidiadau i'w drefniadau gweithredu a'i gylch gorchwyl ar gyfer 2024/25 a chymeradwyodd ei gylch busnes ar gyfer 2023/24.

Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn 2023/24 [yma](#).

Mae'r **Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch** yn cefnogi Bwrdd yr Ymddiriedolaeth drwy roi sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu clinigol yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig y rhai ar gyfer diogelu a gwella ansawdd a diogelwch gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y claf. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2022/23. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Roedd cynllun gwaith y Pwyllgor am y flwyddyn yn cynnwys:

- Adroddiadau rheolaidd ar ddiogelwch cleifion, gan uwchgyfeirio i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth nifer y digwyddiadau difrifol a digwyddiadau y gellir eu hadrodd yn genedlaethol sy'n achosi niwed a marwolaeth y gellir ei osgoi i gleifion ac Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol.
- Diweddariadau gweithredol rheolaidd.
- Ffocws ar ddangosyddion clinigol: - Dangosyddion Adferiad Cylchrediad Digymell a strôc.
- Ym mhob cyfarfod, cafwyd stori profiad y claf, naill ai'n uniongyrchol gan y claf neu gan berthynas claf, ar eu profiad byw o'r gwasanaeth, ynghyd â'r hyn a ddysgwyd a'r gwelliannau a wnaed oherwydd y materion a godwyd.
- Elfennau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024/27 sy'n ymwneud â'r Pwyllgor.
- Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ansawdd.
- Adroddiadau Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned Rheolaidd, yn derbyn sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â chleifion a'r gymuned trwy'r Model Ymgysylltu Parhaus;
- Cynllun Archwilio Clinigol blynyddol yr Ymddiriedolaeth.
- Plymio'n ddwfn ar amseroedd ymateb Coch mewn ardaloedd gwledig.
- Y trefniadau Diogelwch Gwybodaeth a Llywodraethu Gwybodaeth.



- Yr ôl-groniad o bolisiau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, a chymeradwywyd y polisiau a ganlyn: Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion;
 - Techneg Aseptig Di-gyffwrdd
 - Polisiau Rheoli Meddyginiaethau
 - Polisi Llywodraethu Gwybodaeth
 - Polisi Atal a Rheoli Heintiau (yn ôl Camau Gweithredu'r Cadeirydd)
 - Polisi Goruchwyliaeth Glinigol; a
 - Polisi Diogelu Data.
- Asesiad o Bryderon Cronfa Risg Cymru.
- Parodrwydd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 – y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd – a ddaeth i rym ar 01 Ebrill 2024, a'u gweithrediad. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth am y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) sydd wedi disodli'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).
- Asesiadau Effaith Ansawdd mewn perthynas â gweithgaredd sefydliadol.
- Yr Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau 2022/23.
- Yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu 2022/23.
- Yr Adroddiad Blynyddol Iechyd Meddwl a Dementia 2023.
- Yr Adroddiad Sicrwydd Rheoli Meddyginiaethau.
- Diweddariad ar Adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC): Diogelwch Cleifion, Preifatrwydd, Urddas a Phrofiad wrth aros mewn ambiwlansys yn ystod oedi wrth drosglwyddo (adroddiad o 2021).
- Adroddiad adolygu AGIC, yr Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion - Taith Drwy'r Llwybr Strôc, ac Adroddiad Blynyddol AGIC ar gyfer 2022/23.
- Materion yn ymwneud â'r ôl-groniad o adolygiadau moesoldeb.
- Archwiliadau mewnol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor a'r traciwr archwilio i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion.
- Adroddiadau rheolaidd ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob cyfarfod. Adeiladwyd agendâu'r Pwyllgor o amgylch y risgiau â'r sgôr uchaf i'r Pwyllgor.
- Effeithiolrwydd y Pwyllgor a chytunodd ar newidiadau i'w drefniadau gweithredu a'i gylch gorchwyl ar gyfer 2024/25 a chymeradwyodd ei gylch busnes ar gyfer 2023/24.



Mae rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch yn 2023/24 ar gael [yma](#).

Grwpiau Cyngori

I gefnogi'r Bwrdd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WASPT) fel y fforwm lle mae uwch arweinwyr, undebau llafur a sefydliadau proffesiynol yn cydweithio â'i gilydd i wella gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth i bobl Cymru. Dyma'r prif fforwm partneriaeth ar gyfer trafod blaenoriaethau a strategaethau cenedlaethol a lle mae Partneriaid Undebau Llafur ac uwch arweinwyr yn ymgysylltu â'i gilydd i lywio, trafod a cheisio cytuno ar flaenoriaethau ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu a'r gwasanaeth iechyd. Mae'r Grŵp Cyngori hwn yn darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, cyddrafod a chyfathrebu rhwng yr undebau llafur ac uwch arweinwyr yr Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y pandemig, cafodd y Fforwm Partneriaeth Lleol ei ddarod a ffurfiwyd Cell Partneriaeth Undebau Llafur o dan y strwythur pandemig. Cyfarfu WASPT yn anffurfiol i adolygu ei gylch gorchwyl ym mis Medi 2022 ac fe'i hailsefydlwyd yn ffurfiol yn gynnar yn 2023 gyda chylch gorchwyl diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Adroddir y Grŵp hwn i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor, a chaiff materion eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd ac adroddir arnynt drwy adroddiad AAA y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Mae WASPT yn cyfarfod bob deufis a chynhaliwyd chwe chyfarfod yn 2023/24 yn bersonol ac yn breifat. O fis Mai 2024 bydd pob cyfarfod yn cynnwys gweithdy anffurfiol ar faterion cyfoes.

Mae WASPT wedi sefydlu fforymau gweithredol a chorfforaethol sy'n adrodd iddo er mwyn galluogi ymdrin â materion yn lleol, ac i WASPT gael eu gosod mewn gofod mwy strategol. Cynhaliodd y Grŵp ei adolygiad effeithiolrwydd ym mis Chwefror 2024 a bydd ei gylch gorchwyl a'i adroddiad blynyddol yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd ym mis Mai 2024 gyda newidiadau priodol yn cael eu cynnig i'w drefniadau gweithredu. Y busnes allweddol a dderbyniwyd gan WASPT drwy gydol 2023/24 oedd:



- Sefydlu is-strwythurau WASPT.
- Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023/26 a 2024/27.
- Materion amrywiol gan gynnwys:
 - Portha cleifion
 - Allyriadau egsôst injan diesel
 - Rhyddhad o chwe wythnos
 - Cynnig cyflog diwygiedig ac atodiad penodol WAST
 - Sefydliad EMS
 - Cyfyngiadau goramser
 - Absenoldeb Astudio
 - Arolwg Hive
 - Polisi Atal a Rheoli Heintiau.
- Diweddariadau ynghylch camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu.
- Adolygiad effeithiolrwydd y Grŵp a newidiadau i'w gylch gorchwyl.

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth grŵp cyfeirio rhanddeiliaid na fforwm gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (fel y'i diffinnir yn Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru IFRS) gan nad yw'r rhain yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth.

Cyd-bwyllgorau a Phwyllgorau Cymru Gyfan

Roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC) yn gydbwyllgor o'r saith Bwrdd Iechyd, gyda'r tair Ymddiriedolaeth y GIG yn aelodau cyswllt, ac fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2014. Bu'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys ar sail Cymru Gyfan. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau gweithgaredd rheolaidd. Mae rhagor o wybodaeth am EASC a'i rôl gomisiynu wedi'i nodi yn yr Adroddiad Perfformiad, yn benodol, y newidiadau i drefniadau comisiynu sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2024, sy'n effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaeth 111. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran 'Gwneud penderfyniadau a llywodraethu' yn yr Adroddiad Perfformiad.



Sefydlwyd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn 2010 i sicrhau mynediad teg a chyfartal ar draws GIG Cymru at yr ystod lawn o wasanaethau arbenigol. Mae WHSSC hefyd yn gydbwyllgor o Fyrddau Iechyd Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau gweithgaredd rheolaidd. Mae Prif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn aelod Cyswllt o'r Pwyllgor.

O 01 Ebrill 2024, datblygodd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys yn Gydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru gan ddisodli EASC a WHSSCC a ddaeth i rym ar y dyddiad hwnnw.

Sefydlwyd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn 2012 ac fe'i cynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae ganddo gyfrifoldeb am y swyddogaethau a rennir ar gyfer GIG Cymru, megis caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau gweithgaredd rheolaidd y Pwyllgor. Mae Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn aelod o'r Pwyllgor hwn. Mae adroddiadau gan y Pwyllgorau hyn wedi'u cynnwys ym mhob pecyn Bwrdd.

Gwelliannau i'r Fframwaith Llywodraethu

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn asesu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn rheolaidd, y mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn rhan annatod ohonynt. Cynhaliwyd adolygiadau effeithiolrwydd Pwyllgorau blynyddol ar gyfer pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd, a chynigiwyd cyfres o addasiadau i drefniadau gweithredu a chylch gorchwyl i'r Bwrdd ym mis Mai 2024. Mae rhestr lawn o newidiadau i drefniadau gweithredu ar gael yn y papurau ar gyfer cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2024, sydd ar gael [yma](#). Rhestrir y newidiadau mwyaf arwyddocaol isod, gyda'r newidiadau i drefniadau gweithredu wedi'u cynnwys yn y tabl dilynol:

- Pwyllgor Archwilio: Diwygio enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) yn unol ag arfer safonol a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.
- Pwyllgor Elusennau: Mae'r newidiadau arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn cydfynd â'r trafodaethau llywodraethu a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â phwrpas y Pwyllgor, gan roi eglurder ynghylch ei gysylltiad â'r



Ymddiriedolwr Corfforaethol a'r angen i wneud penderfyniadau gyda'r gofynion budd cyhoeddus mewn golwg.

- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: Mae busnes llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth wedi'i ychwanegu at ei gylch gorchwyl a'i drosglwyddo o gylch gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Phrofiad.

c) Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisiau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, yr effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol a darbodus.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn parhau yn ei lle ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

ch) Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i reoli risg yn weithredol ac yn effeithiol fel elfen allweddol wrth gyflawni ei hamcanion busnes a strategol, darpariaeth gwasanaeth i'r cyhoedd yn llwyddiannus ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod staff ym mhob rhan o'r sefydliad yn cael eu hyfforddi a'u harfogi i nodi, dadansoddi, gwerthuso, trin ac uwchgyfeirio risgiau.

Mae rheoli risg yn gyfrifoldeb allweddol ar y cyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac mae'n parhau i fod yn rhan annatod o'r trefniadau llywodraethu a gweithgareddau sefydliadol i gefnogi gwneud penderfyniadau, cryfhau ac effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad uchelgais strategol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhoi eglurder ynghylch y risgiau a fyddai'n ein hatal rhag cyflawni ein hamcanion sefydliadol.



Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gael Fframwaith Rheoli Risg yn ei le. Y Prif Weithredwr, fel Swyddog Atebol, sy'n gyfrifol yn gyffredinol am sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith rheoli risg effeithiol a system rheolaeth fewnol ar waith; fodd bynnag, mae gan Gyfarwyddwyr gyfrifoldeb am berchenogaeth a rheolaeth y prif risgiau a'r risgiau gweithredol yn eu portffolios eu hunain.

Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am arwain ar gynllunio, datblygu a gweithredu'r Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd (BAF), sy'n rhoi darlun o'r rheolaethau a'r sicrwydd cysylltiedig, a'r camau y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i liniaru'r risgiau.

Canfu Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2023 a nodwyd bod *"gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rhesymol ar gyfer goruchwyllo risgiau corfforaethol, ond mae angen iddi ail-fframio'r BAF fel arf sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol ar y risgiau i gyflawni amcanion strategol"*.

Yn ystod 2023/24, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd ar ei huchelgais i ddatblygu a chyflawni fframwaith rheoli risg strategol fel galluogwr allweddol ein strategaeth hirdymor a'n prosesau gwneud penderfyniadau. Cymeradwywyd Polisi Rheoli Risg cyntaf yr Ymddiriedolaeth, sy'n disodli'r Strategaeth Risg, gan y Pwyllgor Archwilio, a'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2024.

Mae'r ffaith bod y fframwaith rheoli risg yn parhau i aeddfedu yn ystod 2023/24 yn cefnogi'r Ymddiriedolaeth i ganolbwyntio ar ba un a yw camau lliniaru yn cael eu cymryd a chyflawni eu heffaith arfaethedig ar risgiau a heriau sylweddol a pharhaus, ac i herio lle nad yw'r effaith honno'n cael ei dangos na'i chynnal. Ffocws penodol yw sicrhau bod risgiau yn cyrraedd eu sgôr targed trwy adolygu rheolaethau, sicrwydd ac unrhyw fylchau yn rheolaidd.

Mae'r BAF wedi'i fapio i dargedau cyflawnadwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a, thrwy hynny, i'r amcanion strategol. Mae'r ddolen i'r BAF a'r adroddiad risg a drafodwyd ym Mwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 28 Mawrth 2024 i'w gweld [yma](#).



Mae'r Canllaw Datblygu Cofrestr Risg yn disgrifio prosesau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer asesu a thrin risg trwy gofrestrau risg lleol, cyfarwyddiaethau a chorfforaethol. System Rheoli Risg Datix yw'r llwyfan ar gyfer cadw risgiau'n ganolog. Mae'r Canllawiau yn galluogi perchnogion risg i gymhwyso sgorau risg cynhenid, cyfredol a tharged priodol gan ddefnyddio matrices 5 x 5 ar gyfer tebygolrwydd a chanlyniad a fabwysiadwyd fel fframwaith arfer gorau ledled Cymru.

Mae amllder monitro risgiau a lefelau uwchgyfeirio wedi'u nodi yn y dogfennau hyn ac mae'n galluogi'r perchennog risg a swyddogion dirprwyedig, timau a rheolwyr sydd yn y sefyllfa orau i'w lliniaru i reoli risgiau graddedig is. Cynhyrchwyd dogfen ganllaw BAF ym mis Ebrill 2023 i gefnogi'r Bwrdd i ddehongli'r rhannau o'r BAF a'r cwestiynau y mae'n eu gofyn i geisio lefelau priodol o sicrwydd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu fel rhan o system gofal iechyd a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru ac nid oes ganddi adnoddau diderfyn, felly mae'n pennu priodoldeb a chost yr adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r prif risgiau.

Er bod risg yn gynhenid i lawer o weithgareddau'r Ymddiriedolaeth, nid oes ganddi unrhyw awydd i dderbyn risgiau sy'n amharu'n sylweddol ar y gallu i ddarparu gwasanaethau i safon uchel o ddiogelwch ac ansawdd, ei henw da neu'r rhai a allai achosi unrhyw anfri ar ei rhanddeiliaid.

Gall yr Ymddiriedolaeth dderbyn rhai risgiau os yw'r gost o liniaru yn rhy uchel neu os bernir bod y risg o fewn terfynau derbyniol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae monitro parhaus yn hanfodol i ganfod unrhyw newidiadau ac ysgogi ailasesiad o'r risg.

Mewn dau faes allweddol, mae archwaeth risg yr Ymddiriedolaeth yn wrth-risg, sy'n golygu y caiff risgiau eu dileu neu eu lleihau i'r lefel ymarferol isaf pe baent yn cael effaith negyddol ar:

- Ansawdd a diogelwch (gan gynnwys niwed corfforol a/neu seicolegol) ei gleifion, ei weithlu, a'r cyhoedd, a
- Chydymffurfio â dyletswydd statudol, cydymffurfiaeth reoleiddiol, neu achrediad.



Serch hynny, mae pwysau parhaus ac eithafol ar draws system gofal brys a gofal mewn argyfwng GIG Cymru yn cael effaith negyddol ar lif cleifion, gan arwain at niwed a marwolaeth cleifion y gellir eu hosgoi. Mae ffactorau mewnol ac allanol yn rhoi gwasanaethau dan bwysau difrifol, sy'n cyflwyno risgiau o ran diogelwch cleifion.

Mae hyn yn golygu bod risgiau'r Ymddiriedolaeth â'r sgôr uchaf, ID 223 (*anallu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd cleifion yn y gymuned sy'n achosi niwed a marwolaeth i gleifion*), ac ID 224 (Mae oedi sylweddol wrth drosglwyddo gofal y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys yn effeithio ar oedi wrth gael mynediad at ofal diffiniol ac yn effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion), gan sgorio 25, aros yr un fath er bod cyfres o gamau lliniaru ar waith. Mae'r risgiau hyn yn parhau i gael eu hadolygu'n ddeinamig ar y cyd â'i gilydd a'u monitro'n agos gan reolwyr, Pwyllgorau'r Bwrdd, a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ogystal â fforymau mewnol.

Nid yw'r sgôr risg ar gyfer y ddau risg hyn sydd â'r sgôr uchaf yn seiliedig ar nifer yr achosion o niwed trychinebus, mae'n seiliedig ar unrhyw un unigolyn sy'n profi niwed y gellir ei osgoi. Bydd dimensiwn ansawdd pob un o'r risgiau hyn bob amser yn un heriol i'w lleihau tra bod cleifion a'r Ymddiriedolaeth yn profi oedi yn y ffordd y maent ar hyn o bryd.

Fel yr adroddwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2024, er bod cynnydd da wedi'i wneud ar y camau gweithredu y gall yr Ymddiriedolaeth eu rheoli, mae'r pwysau eithafol yn parhau. Oherwydd hyn, y tebygrwydd yw y bydd y lefelau o niwed y gellir ei osgoi yn parhau. Nid yw hynny'n golygu nad yw'r Ymddiriedolaeth yn ceisio camau gweithredu ychwanegol yn barhaus i liniaru'r risgiau hyn ac mae'r camau gweithredu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a rhanddeiliaid wedi'u mynegi yn y papur ar niwed y gellir ei osgoi y mae'r Bwrdd yn ei ystyried ym mhob cyfarfod.

Yn ogystal, mae materion yn parhau i gael eu huwchgyfeirio ar y lefel uchaf i geisio dylanwadu ar fesurau lliniaru pellach i'r risgiau hyn yn y systemau ehangach, gan gynnwys i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr y GIG yng Nghymru, Prif Gomisiynydd y Gwasanaeth Ambiwllans a Phrif

Weithredwyr Byrddau Iechyd i fynegi pryderon ynghylch lefel y risg y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei chario a'i hanallu i ymateb i gleifion sy'n arwain at niwed a marwolaeth cleifion.

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rhoi manylion y camau lliniaru ar gyfer yr holl brif risgiau, a chaiff y rhain eu diweddarau pan gaiff risgiau eu hadolygu yn unol â'r amserlen adolygu.

Proffil Risg

Mae proffil risg yr Ymddiriedolaeth yn destun craffu gan uwch reolwyr a'r Bwrdd. Ar 28 Mawrth 2024 yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth roedd pedwar ar ddeg o brif risgiau ar draws y sefydliad ar Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR) yr Ymddiriedolaeth. Mae un ar ddeg prif risg yn sgorio 15 ac uwch a ddisgrifir yn y tabl isod.

Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL				
RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
223	Anallu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd cleifion yn y gymuned gan achosi niwed a marwolaeth i gleifion	OS bydd pwysau mewnol ac allanol sylweddol ar y system yn parhau YNA mae risg o anallu ac/neu oedi cyn i ambiwlansys gyrraedd cleifion yn y gymuned GAN ARWAIN AT niwed a marwolaeth cleifion	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	25 (5x5)
224	Mae oedi sylweddol wrth drosglwyddo y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys yn effeithio ar oedi	OS caiff cleifion eu hoedi'n sylweddol mewn ambiwlansys y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrso	25 (5x5)



Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
	wrth fanteisio ar ofal diffiniol ac mae'n effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol	YNA mae risg y bydd y gallu i fanteisio ar ofal diffiniol yn cael ei ohirio, y bydd yr amgylchedd gofal yn dirywio ac y bydd safonau gofal cleifion yn cael eu peryglu GAN ARWAIN AT gleifion a allai gael niwed a phrofiad gwael i gleifion		
160	Cyfraddau absenoldeb uchel yn effeithio ar ddiogelwch cleifion, lles staff a gallu'r ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol	OS oes lefelau uchel o absenoldeb YNA mae risg y bydd llai o adnoddau GAN ARWAIN AT beidio â gallu darparu gwasanaethau, a fydd yn cael effaith andwyol ar ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion/staff	Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant	20 (5x4)
163	Cynnal partneriaethau Undebau Llafur effeithiol a chryf	OS nad eir i'r afael yn effeithiol ac yn gyflym â'r ymateb i densiynau a heriau yn y berthynas â phartneriaid Undebau Llafur ac na chynhelir ymddiriedaeth ac ymgysylltiad (cynnar) YNA mae risg y bydd perthnasoedd partneriaeth Undebau Llafur yn cynyddu o ran breuder a bod y gallu i	Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant	20 (5x4)



Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
		<p>gyflawni newid yn effeithiol yn cael ei beryglu</p> <p>YN ARWAIN AT effaith negyddol ar brofiad cydweithwyr a/neu wasanaethau i gleifion.</p>		
201	Colli hyder rhanddeiliaid sy'n niweidio enw da'r Ymddiriedolaeth	<p>OS nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gallu darparu ei gwasanaethau craidd oherwydd pwysau'r system neu'r sefydliad</p> <p>YNA bydd diffyg hyder rhanddeiliaid yn yr Ymddiriedolaeth</p> <p>YN ARWAIN AT ddiffyg cefnogaeth rhanddeiliaid i weledigaeth strategol hirdymor yr Ymddiriedolaeth, methiant i gyflawni ei huchelgais strategol, niwed i enw da a mwy o graffu allanol</p>	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	20 (4x5)
594	Anallu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu ymateb sifil wrth gefn os bydd digwyddiad mawr a chynnal parhad busnes sy'n achosi niwed a	<p>OS bydd digwyddiad mawr neu ddigwyddiad anafus torfol yn cael ei ddatgan</p> <p>YNA mae risg na all yr Ymddiriedolaeth ddarparu ei phresenoldeb a bennwyd ymlaen llaw fel y nodir yn y Cynllun Ymateb i</p>	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	20 (4x5)



Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
	marwolaeth i gleifion	Ddigwyddiad a darparu ymateb effeithiol, amserol neu ddiogel i gleifion YN ARWAIN AT niwed trychinebus (marwolaeth) a thorri rhwymedigaeth gyfreithiol yr Ymddiriedolaeth fel ymatebydd Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.		
424	Argaeledd adnoddau (refeniw, cyfalaf, a chapasiti staff) i gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig y sefydliad	OS na cheir adnoddau o fewn yr amlen ariannu sydd ar gael i WAST (dolen i risg 139) YNA mae risg nad oes digon o gapasiti i gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig YN ARWAIN AT Oedi neu beidio â chyflawni canlyniadau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a fydd yn effeithio'n andwyol ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei hamcanion strategol a gwella diogelwch cleifion a lles staff	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad	16 (4x4)
458	Mae angen ymrwymiad wedi'i gadarnhau gan EASC a/neu Lywodraeth Cymru	Os na cheir digon o gyllid rheolaidd, mae risg y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymrwymo i wariant ychwanegol drwy gyflawni'r	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol	16 (4x4)



Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
	yn ymwneud â chyllid ar gyfer costau rheolaidd comisiynu	<p>Cynllun Tymor Canolig Integredig a datblygiadau yn ystod y flwyddyn a gydnabyddir gan gomisiynwyr yn unig ar sail adennill costau</p> <p>YNA mae risg efallai na fydd yr Ymddiriedolaeth yn gallu darparu gwasanaethau a bydd diffyg sicrwydd ariannu wrth wneud ymrwymadau cost rheolaidd. Gallai unrhyw 'strategaethau ymadael' posibl o wasanaethau datblygedig fod yn heriol ac yn niweidiol i gleifion.</p> <p>GAN ARWAIN AT gleifion nad ydynt yn derbyn gwasanaethau, yr Ymddiriedolaeth yn methu cyflawni cydbwysedd ariannol a methiant posibl i fodloni rhwymedigaethau statudol gan achosi niwed i enw da.</p>		
260	Ymosodiad seiber sylweddol a pharhaus ar WAST, GIG Cymru a rhwydweithiau rhyngddibynnol gan arwain at wadu	OS oes ymosodiad seiber ar raddfa fawr ar WAST, GIG Cymru a rhwydweithiau rhyngddibynnol sy'n cau'r rhwydwaith TG ac nad oes digon o drefniadau	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	15 (3x5)



Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
	gwasanaeth a cholli systemau critigol	<p>diogelwch gwybodaeth ar waith</p> <p>YNA mae risg o ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth sylweddol</p> <p>GAN ARWAIN AT ymyrraeth rannol neu lwyr yng ngallu WAST i ddarparu gwasanaethau hanfodol, colli neu ddwyn data personol/cleifion a niwed i gleifion neu golli bywyd</p>		
543	Digwyddiad aflonyddgar mawr yn arwain at golli systemau TG critigol	<p>OS oes digwyddiad annisgwyl neu afreolus e.e. llifogydd, tân, digwyddiad diogelwch, methiant pŵer, methiant rhwydwaith yn WAST, GIG Cymru neu systemau rhyngddibynnol</p> <p>YNA mae risg o golli systemau TG hanfodol</p> <p>GAN ARWAIN AT ymyrraeth rannol neu lwyr yng ngallu effeithiol WAST i ddarparu gwasanaethau hanfodol</p>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	15 (3x5)
558	Dirywiad yn iechyd a lles staff o ganlyniad i bwysau ar systemau mewnol ac allanol	OS bydd pwysau mewnol ac allanol sylweddol ar y system yn parhau	Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant	15 (3x5)



Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
		<p>YNA mae risg o ddirywiad sylweddol yn iechyd a lles staff o fewn WAST</p> <p>GAN ARWAIN AT lefelau salwch uwch, staff yn gorweithio, profiad gwael o ran staff a chleifion a niwed i gleifion</p>		

Y Broses Asesu Risg ac Adolygu Risg

Roedd Tîm Arwain Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yr Ymddiriedolaeth, y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol (ELT), y Pwyllgor Archwilio a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd yn derbyn ac yn ystyried ac yn cyfrannu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod 2023/2024. Ymhellach, adroddwyd am risgiau sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgorau Cyllid a Pherfformiad, Pobl a Diwylliant, Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch, a'r Pwyllgorau Elusennau yn eu cyfarfodydd ar gyfer craffu a herio. Mae agenda pob Pwyllgor yn cael ei datblygu a'i halinio â risgiau o fewn ei gylch gwaith ac mae'n canolbwyntio'n fanwl ar liniaru risgiau yn rheolaidd ar gyfer trafodaeth fanwl. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad annibynnol ar yr holl brif risgiau ym mhob cyfarfod gan ganolbwyntio'n arbennig ar y risgiau sydd â'r sgôr uchaf (sgorio 20 a 25) 223, 224, 160, 163, 201 a 594. Disgrifir y risgiau hyn yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol uchod.

Ar bob achlysur, darparwyd sicrwydd ar gynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth (gan gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid fel y bo'n briodol) i liniaru'r risgiau presennol ac i nodi'r holl risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i'r sefydliad. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgorau'n ceisio sicrhau'n barhaus bod y rheolwyr yn craffu ar y mesurau lliniaru o fewn eu rheolaeth a bod popeth yn cael ei wneud i liniaru risgiau hyd at darged.



Mae'r ADLT yn parhau i adolygu'r asesiadau risg ar yr holl brif risgiau newydd sy'n cael eu datblygu ac unrhyw newidiadau i risgiau presennol a chamau lliniaru. Mae pob un o'r prif risgiau wedi'u datblygu gan y swyddogion dirprwyedig, cyfrifol a'r perchnogion risg a chytunir arnynt yng nghyfarfodydd busnes y Gyfarwyddiaeth a'u cymeradwyo gan berchennog y risg cyn adolygiad gan yr ADLT. Yna caiff y gweithgaredd ei adrodd i'r ELT, Pwyllgorau Bwrdd perthnasol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Cynhaliodd Archwilio Mewnol archwiliad cynlluniedig pellach ar reoli risg yn Chwarter 4 2023/24, gyda'r amcan cyffredinol o asesu effeithiolrwydd y trefniadau Rheoli Risg a sicrwydd sydd ar waith o fewn cyfarwyddiaethau. Darparodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol a nododd ddatblygiad a chyflwyniad parhaus rhaglen trawsnewid risg yr Ymddiriedolaeth. Codwyd pum mater blaenoriaeth ganolig, meysydd a amlygwyd i'w cryfhau yn cynnwys dangos yn well effaith risgiau ar gyflawni amcanion a blaenoriaethau, cwblhau asesiadau risg, rhoi tystiolaeth o weithgarwch adolygu risg ac adrodd ar risg.

Cyfranogiad Rhanddeiliaid mewn Rheoli Risg

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod rheoli nifer o'i risgiau allweddol yn dibynnu ar weithio'n agos mewn partneriaeth â rhanddeiliaid gan gynnwys Byrddau Iechyd i sicrhau bod risgiau'n cael eu deall a bod camau lliniaru'n cael eu cymryd mewn partneriaeth, lle bo angen. Mae risgiau ID 223 a 224 (a nodir uchod) yn gofyn am gyfranogiad agos gan bartneriaid system i gefnogi'r gwaith o liniaru'r risgiau hyn sydd â sgôr uchel. Mae hyn yn ychwanegol at risgiau megis Risg ID 594, mewn perthynas ag ymateb i argyfyngau sifil posibl pe bai digwyddiad mawr.

Mae'r risgiau sy'n sgorio uchaf yn cael eu rhannu'n rheolaidd ar draws rhwydweithiau cymheiriaid fel cyfarfodydd y Cyfarwyddwyr Nyrsio a'r Prif Swyddog Gweithredu a chânt eu trafod yn fforwm Prif Weithredwyr Cymru Gyfan a chyda Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd rheolaidd y Tîm Gweithredol ar y Cyd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau eraill sy'n helpu i lywio risgiau a chamau lliniaru'r Ymddiriedolaeth. Mae'r ffynonellau hyn yn



cynnwys (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i) adborth gan gleifion a'r cyhoedd, pryderon a godwyd gyda'r Ymddiriedolaeth a digwyddiadau andwyol difrifol.

Mae cydweithio â sefydliadau partner yn ffactor amlwg wrth gyflwyno gwasanaethau ac uchelgeisiau'r Ymddiriedolaeth fel y nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a fydd yn arwain at fanteision sylweddol i'r boblogaeth. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd hyn yn effeithio ar yr amgylchedd lle caiff gwasanaethau a phrosiectau eu darparu a gall arwain at risgiau ychwanegol o ran partneriaethau a rhaglenni.

Hyfforddiant Rheoli Risg

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i barhau i ddarparu hyfforddiant risg, gyda sesiynau hyfforddi rhithwir yng nghyfarfod ADLT, cyfarfodydd busnes Cyfarwyddiaethau ac yn cynnig sesiynau pwrpasol ar gyfer timau ac ar gyfer rhaglenni sefydlu grwpiau staff penodol.

Mae'r hyfforddiant yn cipio hanfodion rheoli risg, gan gynnwys nodi ac uwchgyfeirio risg a sut i reoli risgiau drwy System Rheoli Risg Datix, yn ogystal â thrafodaeth ar risgiau'r Ymddiriedolaeth â'r sgorau uchaf a rôl yr holl staff wrth liniaru risg. Mae gwaith yn parhau ar draws GIG Cymru i ddatblygu dadansoddiad cyson o anghenion hyfforddi a modiwlau hyfforddiant risg.

Rhaglen Gwella Rheoli Risg – Ffocws ar gyfer 2024/25

Dechreuodd yr Ymddiriedolaeth ar raglen trawsnewid rheoli risg yn ystod 2022/23 i gryfhau ymhellach ac i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad uchelgais strategol yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol a darparu eglurder ar y risgiau a fyddai'n ein hatal rhag cyflawni ein hamcanion sefydliadol.

Adeiladodd y rhaglen ar y diwylliant risg cadarnhaol a wreiddiwyd yn ystod 2022/23 gydag ail-ddatgan prif risgiau'r Ymddiriedolaeth, datblygu Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Risg, a chyflwyno BAF trosiannol.

Aeddfedrwydd y BAF fel cyfrwng i gefnogi'r Bwrdd i gyflawni nodau hirdymor y sefydliad yw'r ffocws ar gyfer cynllun eleni a fydd yn ymgorffori dylunio a gweithredu



BAF strategol sy'n adlewyrchu'n agosach amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth yn erbyn ei strategaeth hirdymor – Cyflawni Rhagoriaeth: Gweledigaeth 2030.

Mae hyn yn ychwanegol at ddatblygu cyfres o ddatganiadau archwaeth risg a chyflwyno hyfforddiant ar draws y sefydliad a fydd yn dod â'r rhaglen newid trawsnewidiol rheoli risg i ben yn ei blwyddyn olaf.

Parodrwydd am Argyfwng a Gweithrediadau Arbenigol

Fel sefydliad GIG Categori Un, o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau ein bod wedi cynnal cynlluniau brys a threfniadau parhad busnes drwy gydol 2023/24, sy'n ystyried ein dyletswyddau o dan y Ddeddf ac o dan Ganllawiau Craidd Cynllunio at Argyfyngau GIG Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno ei Hadroddiad Cynllunio Argyfwng blynyddol i Lywodraeth Cymru, sy'n nodi ein lefel o gydymffurfedd wrth fodloni'r gofynion hyn. Mae'r cyflwyniad hwn yn cynnwys Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad (IRP) yr Ymddiriedolaeth, strwythur Parodrwydd ar gyfer Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR) a strwythur ymateb yr Ymddiriedolaeth i ddigwyddiad. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Risg Argyfyngau Sifil Posibl ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol (*Anallu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu ymateb sifil wrth gefn yn achos digwyddiad mawr a chynnal parhad busnes sy'n achosi niwed a marwolaeth claf*) a gafodd sgôr o 20 ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu a diweddarau ei IRP sy'n ystyried diweddariadau cenedlaethol mewn trefniadau rheoli, megis Cyd-Egwyddorion Rhyngweithredu Gwasanaethau Brys a'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau cenedlaethol a nodwyd trwy fecanweithiau cenedlaethol fel Dysgu Sefydliadol ar y Cyd. Mae'r rhain wedi cynnwys dysgu o adroddiadau Ymchwiliad Arena Manceinion, y canllawiau wedi'u diweddarau ar ymateb i ymosodiad terfysgol erchyll a'r canllawiau wedi'u diweddarau ar ymateb i ymosodiad cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear. Mae diweddariadau pellach yn cael eu paratoi a byddant yn cael eu hychwanegu at yr IRP i adlewyrchu'r system brysbennu cleifion wedi'i diweddarau a ddaw i rym ar 01 Ebrill 2024. Yn ogystal, mae'r diweddariadau'n cynnwys dysgu o ddigwyddiadau mewnol fel Digwyddiadau Parhad Busnes, Digwyddiadau Argyfyngus, Digwyddiadau Mawr a digwyddiadau lle mae angen bod yn barod ar gyfer Digwyddiadau Mawr.



Mae digwyddiadau wedi'u cynllunio a digwyddiadau digymell, megis protestiadau mawr a welwyd ledled Cymru, digwyddiadau chwaraeon mawr, gweithredu diwydiannol ar draws y GIG yng Nghymru a'r pwysau parhaus ar yr Ymddiriedolaeth oherwydd oedi wrth drosglwyddo, wedi galluogi'r sefydliad i brofi ei drefniadau gorchymyn a rheoli ar nifer o achlysuron dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithio gyda phartneriaid mewn Fforymau Cydnerth Lleol i adolygu risgiau cenedlaethol a lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp newydd i ystyried y risgiau penodol i Gymru a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i liniaru'r risgiau hyn unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i rannu.

Wrth i'r sefydliad agosáu at gyfnod y gaeaf yn 2023, roedd y pwysau ar yr Ymddiriedolaeth yn cynyddu, gydag oedi mewn ysbytai yn effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ymateb i'n cleifion yn y gymuned. Roedd sganio'r gorwel ar y pryd yn dangos cyfnodau o dywydd garw a ddisgwylir a chyfnodau o weithredu diwydiannol a allai effeithio ar yr Ymddiriedolaeth. Gan ddysgu o 2022 aseswyd gweithrediad llwyddiannus yr Uwch Dîm Cynllunio, a chynullodd yr Uwch Dîm Rheoli grŵp Uwch Dîm Cynllunio i oruchwylio'r risgiau sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac i sicrhau bod mesurau yn eu lle i liniaru'r risgiau i'r lefelau isaf posibl.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal Tîm Ymateb i Faes Peryglus (HART) llawn ac wedi cynyddu ei Thîm Ymateb Gweithredol Arbenigol (SORT). Amlinellwyd ehangu SORT ymhellach mewn Achos Busnes a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn 2022 i'w ystyried, yn unol â'r ehangiad sydd eisoes wedi'i ariannu ac sydd ar waith o fewn gwasanaethau ambiwlans yn Lloegr. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol 2023 a chyflwyniadau atodol pellach yn cael eu gwneud i ategu'r achos busnes gwreiddiol; fodd bynnag, nid yw'r cyllid i ddatblygu darpariaeth SORT yr Ymddiriedolaeth wedi'i ddarparu eto. Heb y cyllid hwn, ni all y sefydliad warantu y caiff nifer y staff SORT eu defnyddio i ddigwyddiad cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear/perygion a argymhellir yn y Safonau Gwasanaeth Ambiwylans Cenedlaethol cysylltiedig.



Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithio mewn partneriaeth, trwy Fforymau Cydnerth Lleol, i fynd i'r afael ag effeithiau ehangach risgiau ar y boblogaeth a'n sefydliad a'u lliniaru. Rydym wedi bod yn aelodau allweddol o'r pedwar grŵp cynllunio gweithredol Fforymau Cydnerth Lleol, grwpiau hyfforddi a chydlynu ac is-grwpiau'r Fforymau Cydnerth Lleol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi chwarae rhan lawn, ochr yn ochr â phartneriaid, yn yr Adolygiad o Argyfyngau Sifil Posibl a gynhaliwyd ledled Cymru ac mae'n parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r Fforymau Cydnerth Lleol i ddatblygu Fframwaith Cymru Gydnerth.

Bydd 2024/25 yn cyflwyno heriau i'r sefydliad o fewn y maes parodrwydd ar gyfer argyfyngau. Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud ar weithredu argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda phartneriaid o'r Gwasanaethau Golau Glas a'r Fforymau Cydnerth Lleol ledled Cymru a chyda phartneriaid o wasanaethau ambiwlans ledled y DU. Mae angen rhagor o waith i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad a bydd angen cyllid ychwanegol mewn rhai meysydd er mwyn gallu eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r tîm EPRR yn parhau i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y bydd yr adroddiad hwn yn arwain at wneud newidiadau i sicrhau bod ein hymateb i ddigwyddiad anafusion torfol yn gadarn.

Rhyddhawyd Fframwaith Cydnerthedd Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2022 ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar Fframwaith Cymru Gydnerth, sy'n ystyried bod Rhan Un o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 wedi'i datganoli i Gymru. Heb os, bydd hyn yn effeithio ar arena Argyfyngau Sifil Posibl Cymru ac yn arwain at newidiadau o fewn y cynllunio at argyfwng ar gyfer yr holl Ymatebwyr Categori Un yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymgysylltu a chefnogi ar lefel genedlaethol a lleol i barhau i fod yn barod i ymateb i unrhyw ddigwyddiad, helynt neu set o amgylchiadau tebygol sy'n effeithio ar y sefydliad a'r boblogaeth.



d) Y Fframwaith Rheoli

Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

Yn dilyn cyflwyno Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, rhoddwyd ffocws parhaus ar gynllunio a chynnal diwylliant o wella ansawdd ar draws yr Ymddiriedolaeth. Trwy gydol 2023/24, mae adroddiadau rheolaidd ar lywodraethu ansawdd wedi parhau i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch (QuEST). Dechreuodd Archwilio Cymru adolygiad dilynol o drefniadau llywodraethu ansawdd ym mis Mawrth 2024, a chyflwynir adroddiad ar y canlyniad i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch yn ddiweddarach yn 2024.

Yn unol â Strategaeth Ansawdd 2021/24 yr Ymddiriedolaeth a Chanllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023, rydym wedi cyflwyno fforwm integredig i ategu ein System Rheoli Ansawdd a chryfhau ein cysylltiadau 'o'r llawr i'r bwrdd' mewn dull gwella ansawdd traws-gyfarwyddiaethol. Gelwir y grŵp hwn yn Grŵp Rheoli Ansawdd (QMG), ac mae'n cyfarfod yn wythnosol gyda ffocws cylchdroi ar draws ein holl feysydd darparu gwasanaeth a swyddogaethau corfforaethol, gan fonitro gweithgaredd ym mhedwar pedrant ein system rheoli ansawdd; pwrpas y fforwm yw gwella gweithio traws-sefydliadol a darparu cyngor ar gyfer fforymau strategol, trwy gynllunio ansawdd ac uwchgyfeirio, a thrwy fframweithiau llywodraethu sicrwydd. Mae'r QMG yn adrodd i'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol, sef y prif fforwm llywodraethu clinigol yn yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n weithredol â'n dinasyddion trwy ein tîm Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned. Trwy wrando ar straeon ein cleifion, gallwn ddysgu a gwella ansawdd ein gwasanaethau. Oherwydd ein hymgylltiad parhaus â'n cymunedau, ac i helpu ein dinasyddion i rannu eu profiadau, rydym wedi cyflwyno bwth fideo rhithwir ar-lein. Rhennir straeon cleifion ar draws ein seilwaith llywodraethu gan gynnwys y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gyda thystiolaeth gysylltiedig o ddysgu a gwelliant. Trwy gydol 2023/24 rydym wedi bod yn datblygu a hyrwyddo ein Rhwydwaith Pobl a Chymunedau i gynnig y fforwm i'n dinasyddion gymryd mwy o ran yn y gwaith o wella ein gwasanaethau. Mae cymunedau yn cael eu cynnwys ar draws prosiectau strategol allweddol i lunio dyfodol y gwasanaethau a ddarparwn.



Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau tuag at ei nod o ymgorffori diwylliant o ymddiriedaeth a bod yn agored fel y gall defnyddwyr gwasanaeth deimlo'n hyderus yn y gofal y maent yn ei dderbyn gennym ni. Mae'r nod hwn nid yn unig yn rhan o'r Ddyletswydd Gonestrwydd ond mae hefyd yn cyd-fynd â'n diwylliant a'n hymddygiad ein hunain. Cyflwynir ein hadroddiad Gweithio i Wella a'i drafod yn y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch bob chwarter ac mae'n cynnwys manylion ein cydymffurfedd â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae creu'r adroddiad dangosfwrdd 'Adrodd Bob Amser' yn cyd-fynd â'n hadroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol, a'n fforwm Grŵp Rheoli Ansawdd, sy'n rhoi mwy o amlygrwydd ar faterion ansawdd ac yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ar draws y sefydliad.

Fel sy'n amlwg yn yr Adroddiad Perfformiad, parhaodd y flwyddyn hon i fod yn heriol yn weithredol, gan gyflwyno risgiau sylweddol i'r sefydliad a'n cleifion. Mae oedi wrth drosglwyddo mewn ysbytai yn parhau i effeithio ar argaeledd ac ymatebolrwydd adnoddau ambiwlansys ar draws ein cymunedau. Mae cleifion a'n pobl wedi profi aros gormodol o gyrraedd yr ysbyty i gael eu cludo i Adran Achosion Brys. Nid yn unig y mae hwn yn brofiad iawn i'n cleifion a'n pobl, ond mae hefyd yn cynyddu risgiau clinigol ymhellach i'n cleifion drwy oedi wrth asesu a thrin clinigol a, thrwy beidio â chael anghenion gofal sylfaenol wedi'u diwallu'n briodol, wrth aros mewn ambiwlans am gyfnodau hir. Yn anffodus, mae'r her hon yn creu mwy o risg i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu gan arwain at nifer o ddigwyddiadau andwyol difrifol, a niwed a marwolaeth cleifion sy'n aros yn y gymuned.

Fel rhan o'n strwythurau llywodraethu ansawdd mae hefyd yn bwysig gwrando ar lais ein pobl a nodi meysydd o bryder sylweddol i'n gweithlu. Neges allweddol yr ydym wedi'i chlywed yw pryder ynghylch dod i gysylltiad â nwyon llosg injan diesel sy'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty mewn Adrannau Achosion Brys. Mae asesiadau monitro amgylcheddol a gynhaliwyd rhwng Ch 2021/22 o 2022/23 ac Ch 2002 o 2022/23 yn cofnodi allyriadau islaw terfynau amlygiad y gweithle yn unol â gofynion rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002. Er mwyn cynnal diogelwch ein pobl mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fonitro unrhyw amlygiad i'r allyriadau hyn ac mae monitro amgylcheddol pellach yn cael ei gynllunio ar gyfer 2024/25. Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu cronfa ddata ar gyfer



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

adroddiadau monitro amgylcheddol, gweithdrefnau gweithredu safonol, ac asesiadau risg yn ogystal â gwybodaeth cofnodion digwyddiadau sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r amserlen cadw data.

Mae Asesiadau Effaith Ansawdd (QIA) wedi'u gwreiddio o fewn seilweithiau llywodraethu yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Rydym wedi rhannu ein gwaith ar weithgarwch QIA gyda'r grŵp cyfeirio cenedlaethol ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd fel enghraifft o arfer gorau, ac mae hyn wedi helpu i ddatblygu arferion QIA ar draws GIG Cymru. Cytunwyd ar gyfanswm o 18 o fentrau a newidiadau i'r system yn dilyn adolygiad o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb manwl drwy 2023/24. Mae'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu cymryd yn cynnwys mentrau effeithlonrwydd ariannol, mentrau gwella gwasanaethau (clinigol ac ansawdd) a gwelliannau diogelwch cleifion yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Darperir arweiniad a chymorth clir ar draws fforymau llywodraethu i sicrhau bod ansawdd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae storio data digidol bellach yn cael ei roi ar waith i sicrhau tryloywder o ran gwneud penderfyniadau ar draws ein gweithlu ac i gefnogi rheolwyr yn eu defnydd effeithiol o strwythurau QIA.

Yn ystod cyfnod 2023/24 mae'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf wedi gwneud newidiadau i strwythur y sefydliad. Yn y maes llywodraethu Ansawdd, mae'r strwythurau tîm ac arweinyddiaeth wedi'u hadolygu i ddarparu'r System Rheoli Ansawdd a'r gofynion Dyletswydd Ansawdd yn well i alinio adnoddau sefydliadol tuag at yr ymdrechion hyn. Yn dilyn buddsoddiad ychwanegol, mae'r Tîm Diogelwch Cleifion hefyd wedi adolygu ei strwythurau tîm ac arweinyddiaeth i gefnogi'n well swyddogaethau Gweithio i Wella a'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ogystal ag alinio â'r strwythurau adolygu marwolaethau ar draws GIG Cymru, gan gydnabod y galw sylweddol i wasanaethu'r gofynion deddfwriaethol y Ddeddf 2020.

O ganlyniad i'r newidiadau sefydliadol hyn ac yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, mae saerniaeth trefniadau llywodraethu o fewn y gyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf wedi'i diweddarau. Mae'r Uwch Dîm Ansawdd yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau llywodraethu cadarn o ran gwneud penderfyniadau a rheoli risg gyda llwybrau



uwchgyfeirio sefydledig drwy'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth Ansawdd ac ymlaen i'r Tîm Arwain Gweithredol. Mae'r strwythur hwn yn caniatáu ar gyfer goruchwylio a chyflawni ymrwymïadau ansawdd sy'n cyd-fynd â strwythur llywodraethu integredig y sefydliad ehangach.

O ran y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth yn dilyn cyflwyno Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, bydd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch (QuEST) yn monitro'r datblygiad cyffredinol a'r adrodd ar gydymffurfedd yn erbyn y Safonau drwy gydol 2024/25. Mae Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd ar gyfer 2023/24 yn cynnwys hunanasesiad yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Yn bwysig, mae integreiddio parhaus arbenigwyr Iechyd Meddwl a Mamolaeth/Newyddenedigol o fewn ein seilwaith llywodraethu yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i nodi arloesedd Clinigol ac Ansawdd er mwyn darparu gofal yn well yn nes at y cartref a mabwysiadu ymagwedd system gyfan at welliant parhaus.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 bydd yr Ymddiriedolaeth yn paratoi ac yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd ar wahân yn unol â gofynion adrodd llywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad Dyletswydd Gonestrwydd yn cael ei ymgorffori yn Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella ar gyfer 2023/24.

Trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth (gan gynnwys Diogelwch Data)

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth cadarn ac mae ganddi gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod rheolaethau a threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau ei bod yn prosesu gwybodaeth yn unol â'r gyfraith a safonau cysylltiedig. Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfres sefydledig o bolisiau, gweithdrefnau, canllawiau, llawlyfrau a phrosesau llywodraethu gwybodaeth, diogelu data a diogelwch gwybodaeth i hysbysu ac arwain y sefydliad i sicrhau y bodlonir cydymffurfedd yn ymarferol. Mae'r fframwaith yn cynnwys trefniadau monitro ac adrodd, archwiliadau ac asesiadau cydymffurfio, a mentrau gwella ynghyd â phrosesau rheoli digwyddiadau a risg.



Mae diogelwch gwybodaeth yn parhau i fod yn risg sylweddol ar draws GIG Cymru, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu mesurau lliniaru ar gyfer a monitro'r Risg cysylltiedig, rhif 260 '*Seiber-ymosodiad sylweddol a pharhaus ar WAST, GIG Cymru a rhwydweithiau rhyngddibynnol sy'n arwain at wrthod gwasanaeth a cholli systemau critigol*'. Gyda dull a arweinir gan risg, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar wella'r agweddau technoleg, prosesau a phobl er mwyn sicrhau seibergadernid. Mae Cynllun Gwella Seiber yn cael ei ddatblygu. Cynhelir asesiadau risg system. Mae Polisi Diogelwch Gwybodaeth diwygiedig wedi'i gymeradwyo, a chaiff hyfforddiant ac ymwybyddiaeth eu rhannu a'u cyfathrebu'n weithredol ar draws yr Ymddiriedolaeth o dan yr Ymgyrch Hyfforddiant Diogelwch Gwybodaeth. Cynhelir ymarferion rheolaidd i brofi gwytnwch, mireinio cynlluniau parhad busnes ac ymwybyddiaeth staff o fygythiadau seiber.

Sefydli'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth gydag aelodau Gweithredol ac uwch aelodau gan gynnwys yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a Gwarcheidwad Caldicott, sy'n derbyn adroddiadau ar lywodraethu gwybodaeth a materion diogelu data, datblygiadau a pherfformiad. Mae'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol bob mis ac yn rhoi sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â safonau Llywodraethu Gwybodaeth perthnasol. Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sydd â throsolwg cyffredinol o lywodraethu gwybodaeth gan y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2024.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu cyflwyniadau blynyddol i Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru. Mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn offeryn hunanasesu sy'n galluogi sefydliadau i fesur lefel eu cydymffurfiaeth yn erbyn safonau a deddfwriaeth Llywodraethu Gwybodaeth genedlaethol. Mae materion technegol gyda'r plattform wedi atal yr Ymddiriedolaeth rhag gallu adrodd yn gywir ar ganran o gydymffurfedd yn erbyn gofynion y Pecyn Cymorth. Cyhoeddwyd iteriad newydd o'r Pecyn Cymorth yn ystod y cyfnod adrodd, a datblygwyd cynllun gweithredu gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth i lenwi, monitro ac adolygu cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth. Yn dilyn cyflwyniad eleni, mae materion technegol gyda'r plattform wedi atal yr Ymddiriedolaeth rhag gallu adrodd yn gywir ar ganran o gydymffurfedd yn erbyn gofynion y Pecyn Cymorth. Fodd



bynag, y canlyniadau dros dro yw bod yr Ymddiriedolaeth wedi bodloni'r Disgwyliadau Lleiaf o 5 allan o 11 categori. O'r categorïau a oedd yn bodloni'r Isafswm Disgwyliadau, roedd 3 yn bodloni'r safon Uwchlaw'r Disgwyliadau. Yn dilyn cyflwyniad 2023/24, bydd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn cynhyrchu cynllun gwella i dargedu unrhyw feysydd perthnasol, a fydd yn cael eu monitro gan y Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru i gasglu digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth drwy'r modiwl adrodd am ddigwyddiadau. Mae digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth a adroddir yn cael eu hadolygu a'u hasesu yn unol â Chanllawiau GIG Cymru ar Gategoreiddio a Hysbysu Toriadau Data Personol, sy'n darparu canllawiau manwl ar gyfer asesu ac adrodd am ddigwyddiadau. Cymerir unrhyw gamau adferol yn ôl y gofyn. Adroddir ar ffigurau digwyddiadau i'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth ac fel rhan o'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol. Gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y digwyddiad, efallai y bydd angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) am yr adroddiadau am ddigwyddiadau. Yn ystod y cyfnod adrodd (01 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024), hysbyswyd yr ICO am dri digwyddiad. Yn dilyn hysbysiad, caewyd un heb unrhyw gamau pellach gan yr ICO ac mae dau yn parhau i fod ar agor (mae un yn aros am ymateb gan yr ICO, a'r llall yn destun ymchwiliad pellach gan yr Ymddiriedolaeth).

Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Aseiad yn erbyn yr Adrannau Llywodraethu Corfforaethol mewn Llywodraethu Canolog: Mae Cod Ymarfer Da 2017 wedi'i gwblhau gan ddefnyddio'r dull "Cydymffurfio" neu "Esbonio". Er nad oes unrhyw ofyniad i gydymffurfio â holl elfennau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog, cynhaliwyd aseiad ym mis Mawrth 2024 yn ôl y prif egwyddorion fel y maent yn ymwneud â sefydliad sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn fodlon ei bod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod ac yn cynnal ei busnes mewn modd agored a thryloyw yn unol â'r Cod. Ni adroddwyd/rhodddwyd gwybod am unrhyw wyriadau oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y flwyddyn adrodd 2023/24.



Gwasanaethau Atal Twyll Lleol

Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol (LCFS) yn weithiwr proffesiynol gwrth-dwyll achrededig sy'n darparu gwaith rhagweithiol (e.e. codi ymwybyddiaeth o dwyll, atal a rhwystro twyll) a gwaith ymatebol i ddwyn y rhai sy'n cyflawni twyll i gyfrif (e.e. ymchwiliadau twyll). Mae'r LCFS yn darparu adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol mewn perthynas ag ansawdd ac effeithiolrwydd yr holl waith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yr ymgymerydd ag ef.

Caiff amcanion gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd eu trafod a'u hadolygu ar lefel strategol o fewn y sefydliad. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn atebol am gael sicrwydd bod dulliau rheolaeth a rheoli digonol ar waith mewn perthynas â gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd.

Caiff hyn ei gyflawni drwy ddiweddariadau chwarterol i'r Pwyllgor gan yr LCFS, a ategir gan adroddiad blynyddol ar waith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd sy'n cydymffurfio â chanllawiau Awdurdod Atal Twyll y GIG mewn perthynas â chynnwys yr holl safonau perthnasol ar gyfer twyll, llwgrwobrwyo a llygredd; ac yn rhoi diweddariad clir ar gynnydd yn erbyn amcanion y cynllun gwaith. Yn ogystal, mae'r Polisi Atal Twyll wedi'i adolygu yn ystod y flwyddyn a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

Rhaid i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau digonol ar waith ar gyfer atal twyll mewnol ac adolygu canlyniadau'r gwaith hwnnw, a chydabod gwaith a gwblhawyd yn erbyn risgiau a gyflwynwyd a chynllun gwaith cytûn. Mae'r Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r trefniadau gwrth-dwyll mewnol yn flynyddol.

f) Trefniadau Cynllunio

Yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2023/26 erbyn 31 Mawrth 2023 ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar 30 Mawrth 2022. Fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 12 Medi 2023.



Datblygwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig gyda chyfranogiad gan ein rhanddeiliaid, gan gynnwys ein staff, yn enwedig yn ystod Sioeau Teithiol y Prif Weithredwr yn 2023/24.

Mae rhagor o fanylion am Gynllun Tymor Canolig Integredig a threfniadau cynllunio'r Ymddiriedolaeth wedi'u nodi yn yr Adroddiad Perfformiad a gynhwysir yn adran Trosolwg Perfformiad yr Adroddiad Perfformiad.

g) Datganiadau Datgelu

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau, yn unol â gofynion y Datganiad Llywodraethu bod:

- Mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/2028 yn nodi ymrwymiad ystyrlon yr Ymddiriedolaeth i weithio gydag ein pobl i'w helpu i nodi, hyrwyddo a dathlu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys ein hymagwedd at gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae hefyd yn amlinellu sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ambiwlans, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig, yn cael mynediad a chanlyniadau cyfartal. Mae'r Cynllun ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru](#).
- Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr a gynhwysir yn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn digwydd yn unol â rheolau'r cynllun, a bod cofnodion aelodau yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.



- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal asesiadau risg ac mae ganddi gynlluniau cyflawni carbon i gydymffurfio ag elfennau parodrwydd ar gyfer argyfwng ac argyfyngau sifil o ragamcanion tywydd 2009 UKCIP (Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU) i fodloni rhwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r Gofynion Adrodd ar Addasiadau. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tywydd Garw ar waith. Yn ogystal, mae tîm EPRR yn defnyddio gwybodaeth gan y Swyddfa Dywydd i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer tywydd garw, ac mae rhybuddion tywydd yn sbardun blaenoriaeth uchel yn ein hystyriaeth wythnosol o godi lefelau rhybudd yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gydag asiantaethau partner yn ein Fforymau Cydnerth Lleol i lywio unrhyw ymateb daearyddol aml-asiantaeth ac mae'r system Rhybudd Brys newydd yn caniatáu ar gyfer hysbysu a rhybuddio os bydd tywydd garw yn bygwth bywyd. Mae cynllunio, hyfforddi ac ymarfer yn agwedd allweddol ar gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl fel ymatebydd categori un. Drwy gydol 2023/24 mae'r Ymddiriedolaeth wedi trafod ei dull o Gynllunio Ymaddasu ac wedi cynnwys ymrwymiad yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2024/27 i ffurfioli ei threfniadau Cynllunio Ymaddasu.

- Fel y nodir uchod, nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi adrodd am unrhyw ddigwyddiadau anffafriol difrifol yn ystod 2023/24 mewn perthynas â diogelwch data. Yn ystod y cyfnod adrodd (01 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024), hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am dri digwyddiad. Yn dilyn hysbysiad, caewyd un heb unrhyw gamau pellach gan yr ICO ac mae dau yn parhau i fod ar agor (mae un yn aros am ymateb gan yr ICO, a'r llall yn destun ymchwiliad pellach gan yr Ymddiriedolaeth).

Ansawdd y Data

Ystyrir bod ansawdd y data a gynhyrchir ac a ddefnyddir gan feysydd gwasanaeth craidd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifoldeb ar y cyd, ond yn cael ei oruchwylio gan y Gyfarwyddiaeth Ddigidol. Trwy biblinell ddata aeddfed a phrosesau cadarn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal lefel gref o ansawdd data drwyddi draw. Mae Polisi Ansawdd Data'r Ymddiriedolaeth yn amlinellu pwysigrwydd cynnal ansawdd data da



ac yn egluro'r broses uwchgyfeirio ar gyfer datrys unrhyw faterion ansawdd data a ddarganfuwyd.

Bob mis, mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd am fetrigau perfformiad allweddol i Lywodraeth Cymru mewn Datganiad Ystadegau Swyddogol. Mae'r cyflwyniadau hyn yn gofyn am wiriadau trylwyr ar draws holl ddimensiynau ansawdd data (sef: cywirdeb, cyflawnder, cysondeb, dilysrwydd, amseroldeb ac unigrywiaeth), ar lefel galwad/digwyddiad ac wedi'u cydgrynhoi i'r safbwyntiau lefel uwch. Gall yr ymarfer hwn hefyd gynnwys ymchwilio i gofnodion data ar y lefel fwyaf gronynnog, lle gellir nodi unrhyw broblemau yn y system, proses neu adroddiadau a chynnig atebion; gan ddangos bod ansawdd data o fewn yr Ymddiriedolaeth yn mabwysiadu dull gweithredu llawn o'r dechrau i'r diwedd. Dim ond ar ôl i'r rhwystrau a gwrthbwysau gael eu cymeradwyo gan uwch staff gwybodeg y darperir y cyflwyniadau; o ystyried natur lem y sicrwydd ansawdd hwn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i henwi ar Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017, sy'n rhan o Ddeddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007.

Yn yr un modd, cynigir gwybodaeth i'r Bwrdd trwy amrywiaeth o adroddiadau sy'n mynd trwy sawl rownd o brofion priodol a sicrwydd ansawdd yn gyntaf. Mae unrhyw newidiadau sylweddol a wneir i ddata neu adroddiadau yn amodol ar gymeradwyaeth gychwynnol gan y Bwrdd Cynghori ar Newidiadau Gwybodeg Iechyd a, phe bai canfyddiadau unrhyw ddadansoddiad o effaith yn mynnu bod angen lefel uwch o gymeradwyaeth, byddai hyn yn cael ei uwchgyfeirio ymhellach cyn ei roi ar waith. O ran Gwybodeg Iechyd a Gwasanaethau Digidol, cyhoeddir adroddiadau a dangosfyrddau i systemau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer defnyddwyr terfynol gan Wybodeg Iechyd, a chânt eu defnyddio mewn modd llym, rheoledig i gynnal, lle bynnag y bo modd, "fersiwn sengl o'r gwir".

Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Cyhoeddir Cyfarwyddiadau Gweinidogol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cyhoeddiadau iechyd a gofal cymdeithasol a gellir eu gweld [yma](#). O'r Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 roedd un yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth; y Cyfarwyddyd ynghylch y trefniadau comisiynu newydd sy'n ymwneud â'r Ymddiriedolaeth - [Cyfarwyddiadau](#)



[Cydbwyllgor Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Cymru\) 2024](#). Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn aelod o'r Cydbwyllgor Comisiynu; fodd bynnag, mae'r Prif Weithredwr yn mynychu'r cyfarfodydd.

Cylchlythyrau Iechyd Cymru

Mae Cylchlythyrau Iechyd Cymru yn darparu dull cyfathrebu symlach, tryloyw ac olrheiniadwy rhwng GIG Cymru a sefydliadau'r GIG. Mae'r Cylchlythyrau'n ymwneud â gwahanol feysydd megis polisi, perfformiad a chyflawni, cynllunio, deddfwriaeth, y gweithlu, cyllid, ansawdd a diogelwch, llywodraethu, technoleg gwybodaeth, gwyddoniaeth, ymchwil, iechyd y cyhoedd a llythyrau at weithwyr iechyd proffesiynol.

Cafwyd nifer o Gylchlythyrau yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhain wedi'u dyrannu i Gyfarwyddwr arweiniol sy'n gyfrifol am roi'r camau gofynnol ar waith. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw log o gylchlythyrau.

h) Adolygiad o Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o'r system rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, a'r swyddogion gweithredol o fewn yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol (Archwilio Cymru) yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill, gan gynnwys Asesiad Strwythuredig 2023 a'r Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu, a gynhaliwyd yn 2023.

Mae'r Rheolau Sefydlog, cylch gorchwyl y Pwyllgor a'r Cod Llywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau asesu effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu fel mater o drefn, y mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn rhan annatod ohonynt.

Mae pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd wedi cael adolygiadau effeithiolrwydd helaeth yn Ch4 2023 24/22 gan arwain at newidiadau i gylch gorchwyl ac aelodaeth er mwyn cryfhau sicrwydd a chraffu i'r Bwrdd. Yn ogystal, mae newidiadau i drefniadau gweithredu wedi'u nodi a byddant yn cael eu rhoi ar waith drwy gydol 2024/25.

Mae adroddiadau blynyddol y Pwyllgorau y cyfeirir atynt uchod a'r adran 'Gwelliannau i'r Fframwaith Llywodraethu' yn nodi'r rhain yn fanylach.



Caiff perfformiad y Cadeirydd ei werthuso'n flynyddol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhelir gwerthusiadau perfformiad blynyddol ar gyfer yr Is-gadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Anweithredol gan y Cadeirydd, a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr gan y Prif Weithredwr. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cael sefyllfa alldro'r Prif Weithredwr ac amcanion y flwyddyn i ddod, yn ogystal â sicrydd bod yr amcanion hyn yn cael eu rhaedru i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.

Cyd-drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

O dan y Cyd-drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cyfarfod â Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru i drafod asesiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth.

Er bod y gwerthusiad teiran yn cynnwys asesu pob un o gyrff y GIG yn seiliedig ar y gwaith a wneir gan yr aelodau teiran, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n pennu statws uwchgyfeirio cyrff y GIG. Yn y cyfarfod teiran diweddaraf, arhosodd statws uwchgyfeirio'r Ymddiriedolaeth yn ddigyfnewid yn y 'trefniadau arferol'. Hysbyswyd yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad y cyfarfod hwn ar 23 Ionawr 2024.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Cyhoeddwyd adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 'Adolygiad o Ddiogelwch, Preifatrwydd, Urddas a Phrofiad Cleifion Wrth Aros mewn Ambiwylansys pan fydd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal' yn 2022, a nodir ymateb yr Ymddiriedolaeth yn yr Adroddiad Perfformiad yn is-adran 'Ymgysylltu' yr adran Dadansoddi Cyflawni, Ansawdd a Pherfformiad yr Adroddiad Perfformiad.

Cyhoeddodd adroddiad gan Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) 'Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion: taith drwy'r llwybr strôc' yn 2023/24. Cynhyrchwyd amrywiol gamau gweithredu ar draws y system o'r adroddiad hwn ac mae'r rhai sy'n ymwneud â'r Ymddiriedolaeth yn cael eu holrhain a'u monitro gan y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch.



Archwilio Mewnol

Mae Archwilio Mewnol yn rhoi llif sicrwydd i'r Swyddog Atebol a'r Bwrdd ar y system rheolaeth fewnol. Comisiynodd y Swyddog Atebol raglen o waith archwilio a gyflawnwyd yn amodol ar newidiadau y cytunwyd arnynt ac yn unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.


Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn un o swyddogaethau'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwiliadau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd i roi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau fel y cynlluniwyd yn 2023/24.

Roedd dau addasiad i'r cynllun archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn; gohirio'r archwiliad 'Cyflawni Rhaglenni Newid Mawr' - a ohiriwyd ar ôl cwblhau'r prosiect ac ystyriaeth gan yr Ymddiriedolaeth i dynnu'r prif risg cysylltiedig o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Yn ail, mae'r archwiliad 'Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad Integredig' wedi'i ohirio ar gais rheolwyr yr Ymddiriedolaeth er mwyn caniatáu amser i brosesau'r Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad gael eu gwreiddio.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynllun Archwilio Mewnol blynyddol ar y cyd ag Archwilwyr Mewnol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar risg sy'n cyfeirio'r adolygiadau at feysydd lle mae'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio o'r farn y gallai fod gwendidau posibl. Yn hyn o beth, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl cael rhai adroddiadau sicrwydd cyfyngedig ac ni ddylai'r rhain amharu ar y cynnydd cyffredinol y mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i'w wneud. **Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad:**



 <p>- + Melyn</p>	<p>Gall Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau sydd ar waith i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfedd, gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad i risg gweddilliol, hyd nes y cânt eu datrys.</p>
---	---

Mae'r casgliad hwn yn gyson â Barn Sicrwydd Rhesymol y Pennaeth Archwilio Mewnol a adroddwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 yr Ymddiriedolaeth.

Mae casgliad sicrwydd rhesymol 2023/24 yn deillio o 18 o adolygiadau Archwilio Mewnol.

Casgliad Sicrwydd Archwilio Mewnol	Nifer yr Adroddiadau
Dim sicrwydd	0
Sicrwydd Cyfyngedig <small>(Yn seiliedig ar adolygiadau Cymru Gyfan a oedd yn gyfyngedig ar gyfer pob Corff Iechyd)</small>	2
Sicrwydd Rhesymol	15
Sicrwydd Sylweddol	0
Cynghorol	1
Cyfanswm	18

Am y chweched flwyddyn yn olynol, ni chafwyd unrhyw Adroddiadau Archwilio Mewnol 'Dim Sicrwydd' o fusnes yr Ymddiriedolaeth. Isod, nodir y ddau adroddiad a oedd â chasgliad o Sicrwydd Cyfyngedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2023/24.



Archwilio Mewnol Datgarboneiddio (Sicrwydd Cyfyngedig)

Amcan yr archwiliad hwn oedd ystyried cynnydd yn erbyn Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru a Chynllun Gweithredu Datgarboneiddio'r Ymddiriedolaeth; gan ddangos sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu mentrau Cynllun Strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru.

Roedd Archwilio Mewnol yn cydnabod y swm sylweddol o waith y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i wneud ar draws pob Cyfarwyddiaeth i fynd i'r afael â gofynion y Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio; fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod a newid y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn, ynghyd â'r diffygion ariannol, mae hyn yn effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i gyflawni'r agenda datgarboneiddio ehangach. Roedd y farn Sicrwydd Cyfyngedig yn seiliedig ar adolygiad Cymru Gyfan ac roedd yn cynnwys pob Corff lechyd yng Nghymru.

Nodwyd chwe cham gweithredu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn yr adroddiad archwilio hwn; dau ohonynt yn cael eu categoreiddio fel blaenoriaeth uchel. Derbyniwyd yr adroddiad archwilio hwn gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2024 a bydd cynnydd ar y camau gweithredu yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Archwilio drwy gydol 2024/25.

Archwilio Mewnol ar Gyflwr Ystadau (Sicrwydd Cyfyngedig)

Amcan yr archwiliad hwn oedd gwerthuso'r trefniadau a roddwyd ar waith gan yr Ymddiriedolaeth i nodi a rheoli risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r ystâd bresennol, a gweithredu strategaethau canlyniadol i reoli a lliniaru'r risgiau.

Roedd Archwilio Mewnol yn cydnabod diffyg strategaeth wedi'i hariannu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw a'r anghysondeb o ran adrodd ledled Cymru. Roedd y farn sicrwydd Cyfyngedig yn seiliedig ar adolygiad Cymru gyfan yn ymgorffori'r holl Gyrff lechyd. Roedd Archwilio Mewnol yn cydnabod bod llawer o'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad y tu allan i reolaeth yr Ymddiriedolaeth.



Nodwyd 12 o gamau gweithredu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn yr adroddiad archwilio hwn; a graddiwyd un ohonynt yn flaenoriaeth uchel. Rhoddwyd blaenoriaeth ganolig i'r holl rai eraill. Derbyniwyd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2023 a bydd cynnydd ar y camau gweithredu yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Archwilio drwy gydol 2024/25.

Gellir cael copïau o'r holl adroddiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau cynnydd yn adran papurau'r Pwyllgor Archwilio ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Gellir gweld Adroddiad llawn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2023/24 [yma](#) hefyd, ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ei gyfarfod ar 07 Mehefin 2024.

Archwiliad Allanol – Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol yr Ymddiriedolaeth ac, er 01 Ebrill 2020, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hadnabod ar y cyd fel Archwilio Cymru. Mae Archwilio Cymru yn craffu ar systemau a phrosesau ariannol, rheoli perfformiad a meysydd risg allweddol yr Ymddiriedolaeth.

Caiff adroddiadau eu llunio gan Archwilio Cymru yn unol â rhaglen waith blynyddol a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio ac maent yn cynnwys ymatebion rheolwyr gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer adroddiadau sy'n cynnwys argymhellion. Ystyrir holl adroddiadau Archwilio Cymru gan y Pwyllgor Archwilio a, lle bo'n briodol, y Pwyllgor perthnasol a'r Bwrdd. Mae eu hargymhellion yn cael eu cofnodi wedyn yn nhraciwr argymhellion archwilio'r Ymddiriedolaeth, a adroddir i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio i roi sicrwydd ar eu gweithrediad.

Yr adroddiad llywodraethu blynyddol allweddol ar faterion yr Ymddiriedolaeth a gynhyrchir gan Archwilio Cymru yw'r Asesiad Strwythuredig. Derbyniwyd yr Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2023 gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2024 a chan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2024. Yn ogystal, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau cynllunio'r gweithlu yn 2023, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2023, yn y drefn



honno. Mae rhagor o fanylion am ganlyniadau'r adolygiadau hyn wedi'u darparu isod.

Asesiad Strwythuredig 2023

Roedd y prif ffocws ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheolaeth ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Roedd yr Asesiad Strwythuredig hwn yn gadarnhaol a nododd welliant yn nhrefn lywodraethol gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, yng ngweithrediadau'r Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgorau, a sicrhau bod arolygaeth effeithiol o feysydd risg allweddol. Roedd y prif negeseuon yn cynnwys y canlynol:

- *“Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth yn dangos pwyslais ar wella ei threfniadau ar gyfer llywodraethu, cynllunio a chyllid. Fodd bynnag, mae pwysau gweithredu sylweddol, aneffeithlonrwydd wedi'i achosi gan oedi cyn trosglwyddo, dibyniaeth ar arbedion nad ydynt yn gylchol a diffyg cyllid sydd ar gael yn cyfyngu ei gallu i drawsnewid gwasanaethau*
- *Canfuwyd gennym fod trefniadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn effeithiol, ond mae gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol o bolisiau sy'n disgwyl adolygiad, a cheir lle i wneud rhai gwelliannau i feysydd eraill o lywodraethu gweinyddol.*
- *Mae'r Bwrdd yn dal i fod wedi ymrwymo i dryloywder cyhoeddus. Mae cyfarfodydd yn cael eu ffrydio'n fyw, ceir cyfleoedd i'r cyhoedd ofyn cwestiynau cyn cyfarfodydd a hysbysir am gamau gweithredu cyfarfodydd preifat/caeedig mewn papurau Bwrdd cyhoeddus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi'r rhan fwyaf o bapurau cyfarfod cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, i gynyddu tryloywder busnes y Bwrdd ymhellach, dylai'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi cofnodion Bwrdd a phwyllgorau heb eu cadarnhau yn fwy buan, a dylid darparu fersiwn ysgrifenedig o Adroddiad y Cadeirydd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol o bolisiau sy'n hwyr yn cael eu hadolygu. Fodd bynnag, mae wedi*



datblygu cynllun realistig ac wedi'i flaenoriaethu i adolygu polisiau allweddol a gwella ei broses ar gyfer cynnal dogfennau rheolaeth ysgrifenedig.

- Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithredu'n dda, wedi'u cefnogi gan gylchoedd gorchwyl a chylchoedd busnes cyfredol. Mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda, ac mae'r aelodau yn gwneud cyfraniad ystyrlon i gefnogi, craffu, a cheisio sicrwydd ar feysydd o berfformiad. Mae papurau o safon dda yn gyffredinol a cheir gwaith parhaus i annog cyflwyniadau mwy cryno o risgiau a materion allweddol. Mae straeon cleifion a staff yn nodweddion allweddol o agendâu'r bwrdd a'r pwyllgorau sy'n ffurfiau o wybodaeth a werthfawrogir yn fawr i osod naws cyfarfodydd. Mae gwaith yn parhau i alluogi ac annog aelodau i wneud mwy o ddefnydd o ymweliadau aelodau'r bwrdd i alluogi aelodau i driongli gwbyodaeth o gyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau gyda'u harsylwadau. Bydd rhai newidiadau i aelodaeth y Bwrdd dros y misoedd nesaf oherwydd trosiant Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau rhesymol a ystyriwyd yn dda i reoli'r newidiadau hyn.*
- Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol, ond mae mwy i'r wneud mewn meysydd allweddol gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac ymdrin â phryderon a digwyddiadau. Mae perfformiad gweithredu yn dal i fod yn eithriadol o anodd oherwydd galw cynyddol a phwysau ehangach ar y system.*
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal trefniadau rhesymol ar gyfer rheoli a goruchwylio risgiau corfforaethol. Mae'n parhau i fwrw ymlaen â'i rhaglen trawsnewid risg a disgwylir i sawl cam gael eu cyflawni erbyn mis Ebrill 2024. Ceir ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth sy'n cyfrannu'n sylweddol at ei risgiau mwyaf ac mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i gydweithredu â phartneriaid i sefydlu cyd-ddealltwriaeth ac ymateb i'r risgiau hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn datblygu ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ers 2022. Fodd bynnag, mae angen mwy o bwyslais gan y Bwrdd a'r pwyllgorau ar y risgiau i gyflawni amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth.*



- *Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal trefniadau rheoli perfformiad rhesymol, ond mae perfformiad gweithredu yn dal i fod yn eithriadol o anodd oherwydd galw cynyddol, pwysau ehangach ar y system a'r aneffeithlonrwydd canlyniadol a grewyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i wella ei threfniadau llywodraethu ansawdd, gan gynnwys gwaith i baratoi ar gyfer y gofynion o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020). Fodd bynnag, mae prydlondeb ymateb i bryderon wedi gwaethygu oherwydd galw cynyddol a phroblemau capasiti. Mae trefniadau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio yn cryfhau, â mwy o eglurder ynghylch cyflawni camau gweithredu a'r effaith a sicrhawyd.*
- *Canfuwyd gennym fod gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol da o ddatblygu strategaethau a chynlluniau, ond nid yw cynlluniau yn cynnwys cerrig milltir CAMPUS ac nid yw adroddiadau darparu yn cynnig digon o eglurder ar ba un a yw canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni.*
- *Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer llunio a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau yn gymharol gadarn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i lunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig fel cyfrwng ar gyfer cyflawni ei huchelgais strategol hirdymor. Derbyniodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig gymeradwyaeth eto gan Lywodraeth Cymru ac fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gryfhau ei hymgysylltiad o staff wrth ddatblygu ei chynllun 2023-2026. Fodd bynnag, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr holl gamau a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn CAMPUS â chanlyniadau mesuradwy a cherrig milltir darparu eglur. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth gryfhau adrodd ar ddarpariaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy gynyddu'r pwyslais ar ganlyniadau ac effaith a sicrhawyd, yn hytrach na chanolbwyntio ar weithgarwch yn unig.*
- *Canfuwyd gennym fod yr Ymddiriedolaeth yn dangos perfformiad ariannol cryf, dull cynllunio ariannol da a throsolwg priodol gan y Bwrdd a'r pwyllgorau. Fodd bynnag, gallai'r ddibyniaeth ar gynlluniau arbedion nad ydynt yn gylchol, aneffeithlonrwydd gweithredu wedi'i achosi tan oedi cyn trosglwyddo a diffyg*



cyllid ychwanegol sydd ar gael gyfyngu gallu'r Ymddiriedolaeth i gefnogi ei chynlluniau moderneiddio gwasanaethau.

- Parhaodd yr Ymddiriedolaeth ei hanes ariannol da o gyflawni ei hamcanion a'i dyletswyddau ariannol ar gyfer 2022-23 a'r cyfnod tair blynedd treigl o 2020-21 i 2022-23. O fis saith (Hydref) 2023-24, mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn eto i gyflawni ei dyletswyddau ariannol, sy'n arwyddocoal o gofio'r heriau ariannol eithriadol o heriol presennol sy'n wynebu GIG Cymru.*
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar gyfer cynllunio ariannol, sy'n nodi risgiau a materion allweddol yn eglur. Mae'r risgiau yn cynnwys diffyg eglurder ynghylch y cyllid cylchol sydd ar gael i staff ambiwlans a recriwtiwyd yn wreiddiol i fynd i'r afael â phwysau ar y gwasanaeth yn ystod y gaeaf yn 2022 gan ddefnyddio cyllid byrdymor.*
- Roedd gan yr Ymddiriedolaeth fwllch arbedion ar adeg cymeradyo ei chynllun ariannol ond roedd yn gallu nodi'r arbedion angenrheidiol i lenwi'r bwlch hwn erbyn mis pedwar. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch lefel yr arbedion nad ydynt yn gylchol yng nghynllun yr Ymddiriedolaeth a sut y gallai hyn effeithio ar yr Ymddiriedolaeth yn y blyneddoddedd i ddod.*
- Mae aneffeithlonrwydd fel oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ac anawsterau yn cael gafael ar gyllid ychwanegol yn cyfyngu gallu'r Ymddiriedolaeth i fynd ar drywydd newid trawsnewidiol a moderneiddio gwasanaethau. Y llynedd, amlygwyd gennym mai £50 miliwn oedd cost dybiannol oedi cyn trosglwyddo, ac mae'r achosion hynny o oedi yn dal i fod yn uchel. Mae'r aneffeithlonrwydd hwn yn amharu ar allu'r Ymddiriedolaeth i adleoli ei hadnoddau i gefnogi triniaeth ataliol yn y gymuned lleihau cludiant ambiwlansys i'r ysbyty. Byddwn hefyd yn ystyried trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd ariannol yn rhan o'n rhaglen archwilio ddechrau 2024.*

Derbyniwyd yr argymhellion a wnaed yn Asesiad Strwythuredig 2023 a'r holl ymatebion gan reolwyr yn ymwneud â rhai o'r meysydd allweddol a amlygwyd uchod ac maent yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio. Mae themâu'r argymhellion



o Asesiad Strwythuredig 2023 yn ymwneud â gwella tryloywder busnes y Bwrdd, gwella mynediad y cyhoedd at strategaethau a chynlluniau allweddol drwy eu cyhoeddi ar-lein, gwella eglurder amcanion/camau gweithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a gwella'r oruchwyliaeth o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac arbedion cynlluniau. O'r chwe argymhelliad mae tri eisoes wedi'u cwblhau; gyda gweddill y camau gweithredu i'w cwblhau yn Ch 2 blwyddyn ariannol 2024/25. Mae dogfen Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gael [yma](#).

Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu 2023

Roedd ffocws allweddol yr adolygiad hwn mewn perthynas â dull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio'r gweithlu ac a oedd yn cyfrannu'n effeithiol at fynd i'r afael â heriau gweithlu'r GIG yn awr ac yn y dyfodol. Yn benodol, edrychodd Archwilio Cymru ar gamau gweithredol yr Ymddiriedolaeth i reoli heriau'r presennol a'r dyfodol, a threfniadau monitro a goruchwyllo. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol a nododd fod yr Ymddiriedolaeth yn dangos (mewn meysydd lle gall reoli'r canlyniad) welliannau da ac mae wedi dangos ei bod wedi ymateb i'r heriau gweithredol ac amrywiaeth a recriwtio uniongyrchol. Roedd y prif negeseuon yn cynnwys y canlynol:

- *“Ar y cyfan, canfuom fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau effeithiol i liniaru heriau presennol y gweithlu ac egluro ei gweledigaeth strategol tymor hwy, fodd bynnag mae adnoddau tymor canolig iddynt hwy yn rhwystro sylweddol a pharhaus.”*
- *Mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu heriau sylweddol o ran y gweithlu. Mae dangosyddion y gweithlu a gyflwynir yn Atodiad 2 yr adroddiad yn amlygu bod lefelau gweithlu a chostau'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu rhwng 2017-18 a 2022-23. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd mewn staffio asiantaeth, o £180,000 yn 2018-19 i £1.7 miliwn yn 2021-22 sydd wedi gostwng ers hynny ac sy'n sylweddol is na gwariant asiantaethau'r Bwrdd lechyd. Er bod swyddi gwag yn gymharol isel, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweld trosiant uwch na'r arfer ac maen achos pryder bod 67% o'r staff a adawodd y sefydliad yn 2021-22 wedi nodi eu rhesymau dros adael fel naill ai anhysbys neu resymau eraill. Mae proses newydd ar fin cael ei chyflwyno gyda'r nod o geisio eglurder pellach ar y rhesymau dros adael staff. Mae proses newydd ar fin cael ei chyflwyno gyda'r*



nod o geisio eglurder pellach ar y rhesymau dros adael staff. Gan nodi bod gwasanaethau ambiwlans yn dueddol o fod â lefelau absenoldeb salwch uwch na sefydliadau eraill y GIG, yr Ymddiriedolaeth sydd â'r ganran uchaf o gyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yng Nghymru, sef 12.1% ym mis Ionawr 2022, er bod y ffigur hwn wedi gostwng i 8.2% ym mis Gorffennaf 2023, mae lefelau wedi cynyddu ym mis Awst 2023 i 9.2%.

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull strategol o gynllunio'r gweithlu i fynd i'r afael â risgiau allweddol ac mae'n ymgysylltu'n effeithiol â'r rhan fwyaf o randdeiliaid. Fodd bynnag, mae angen cryfhau'r modd y mae'n cyrchu ac yn dadansoddi gwybodaeth am y gweithlu.*
- Mae gweledigaeth strategol a chynlluniau'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar gryfhau'r gweithlu i oresgyn risgiau allweddol i'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cryfhau ei dull gweithredu ymhellach drwy ddatblygu cynllun gweithlu strategol ar gyfer y sefydliad y mae'n disgwyl ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2024. Mae gan yr Ymddiriedolaeth fynediad at symiau sylweddol o ddata y mae'n ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau allweddol yn ymwneud â'i gweithlu. Fodd bynnag, mae angen integreiddio systemau TG yn well er mwyn gallu dadansoddi data'r gweithlu a sicrhau bod ei fodol sefydlu gweithlu yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Er bod y berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid undeb llafur weithiau'n heriol, mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n effeithiol â'i staff a rhanddeiliaid ehangach, a chomisiynwyr i roi sicrwydd a datblygu atebion i'r gweithlu.*
- Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â heriau ei gweithlu, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gref o risgiau. Fodd bynnag, mae trawsnewid gweithlu ehangach yn cael ei gyfyngu gan argaeledd adnoddau.*
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi buddsoddi yn ei chapasiti a'i galluoedd cynllunio'r gweithlu, megis drwy recriwtio pennaeth cynllunio a thrawsnewid y gweithlu a datblygu hyfforddiant cynllunio'r gweithlu ar gyfer rheolwyr. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod hyfforddiant cynllunio'r gweithlu yn gwireddu'r*



manteision a fwriedir. Mae hefyd angen sicrhau cefnogaeth ganolog gyson ar gyfer gweithgaredd recriwtio ar draws yr Ymddiriedolaeth.

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos dealltwriaeth gymharol gref o'r rhwystrau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r weledigaeth strategol ar gyfer ei gweithlu. Mae'n mabwysiadu dull ragweithiol i liniaru rhai heriau tymor hwy ac uniongyrchol o dan ei ddylanwad. Er enghraifft, i oresgyn heriau recriwtio.*
- Mae'n bwriadu cyflwyno gweithio gartref i nyrsys a chodi proffil neu barafeddygaeth o fewn prifysgolion.*
- Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyfrifo costau ei chynllun gweithlu drwy ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, efallai y bydd angen adnoddau sylweddol arni i gyflawni'r trawsnewid sylweddol a nodir yn ei gweledigaeth strategol yn llawn. Ar yr un pryd, mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn dal aneffeithlonrwydd sylweddol yn ei gweithlu oherwydd oedi wrth drosglwyddo a achosir gan bwysau system. Mae hefyd yn ei chael yn anodd sicrhau buddsoddiad ychwanegol parhaus gan gomisiynwyr i feithrin gallu, a gall cyllid gweithlu tymor byr ychwanegol ei gwneud yn anoddach recriwtio a chadw. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i weithio'n agos gyda'i chomisiynwyr a Llywodraeth Cymru.*
- Ceir trosolwg rhesymol ar lefel Bwrdd o heriau'r gweithlu gweithredol, ond mae'n rhy gynnar i farnu effaith cyflawni'r Cynllun Pobl a Diwylliant.*
- Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn cael adroddiadau rheolaidd a chynhwysfawr yn ymwneud â'r gweithlu. Mae gwybodaeth i'r pwyllgor wedi bod yn gynyddol weithredol, fodd bynnag, ym mhwyllgor Awst 2023, cymeradwyodd y Pwyllgor fetrigau a dangosfwrdd data i helpu i fonitro cynnydd nodau strategol yn y Cynllun Pobl a Diwylliant. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth hefyd sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd ei chynllun gweithlu strategol, unwaith y caiff ei gymeradwyo.*



- *Mae goruchwyliaeth allanol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (EASC)1 yn sicrhau bod y comisiynwyr yn deall pwysau gweithlu gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn helpu i gysoni disgwyliadau'r comisiynydd, â'r cyllid sydd ar gael a'r adnoddau gweithlu sydd ar gael. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi meincnodi ei pherfformiad gyda gwasanaethau ambiwlans eraill, fodd bynnag, nid yw hyn yn rheolaidd ac nid yw'n cael ei adrodd yn eang o fewn y sefydliad."*

Gwnaed chwe argymhelliad yn yr adroddiad hwn, a derbyniwyd pob un ohonynt i'w harolygu gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Mae'r argymhellion yn cynnwys gwella trefniadau systemau gwybodaeth y gweithlu, gwerthuso trefniadau cynllunio'r gweithlu, gwelliannau ar gyfer cymorth recriwtio ar draws y sefydliad, datblygu targedau a cherrig milltir cysylltiedig i ganiatáu monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun, a meincnodi yn erbyn cyrff iechyd eraill. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu gael eu cwblhau drwy gydol 2024 a byddant yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Mae Adolygiad Archwilio Cymru o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu ar gael [yma](#).

i) Casgliad

Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn amodi bod y Pwyllgorau wedi'u harfogi – o ran eu trefniadau gweithredu effeithiol ac aelodaeth – i gael a gweithredu ar ddirprwyaethau clir gan y Bwrdd. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth gan wybod bod y Pwyllgorau'n craffu ac yn goruchwyllo meysydd o fewn eu cylch gwaith gyda mwy o fanylder nag a fyddai'n bosibl yn y Bwrdd. Mae adroddiadau clir gan y Pwyllgorau ar sail Rhybuddio, Cynghori a Sicrhau yn cryfhau'r hyder sydd gan y Bwrdd yn y fframwaith hwn.

Mae'r pwysau system gyfan ar draws y GIG yng Nghymru yn parhau i lywio amgylchedd gweithredol heriol yr Ymddiriedolaeth ac mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn parhau i uwchgyfeirio eu pryderon sylweddol i'r Bwrdd ynghylch perfformiad, ansawdd ein gwasanaethau a niwed y gellir ei osgoi i'n cleifion. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi blaenoriaethu trafodaethau ar liniaru niwed i gleifion y gellir ei osgoi ym mhob un o'i gyfarfodydd er mis Mai 2022 ac mae'n parhau i geisio dylanwadu ar newid yn y system ehangach. Er bod nifer o gamau gweithredu wedi'u



rhoi ar waith o safbwynt yr Ymddiriedolaeth dros y misoedd diwethaf, ni allant wrthbwysu effaith oedi cynyddol wrth drosglwyddo gofal.

Mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bwysau system parhaus, heriau ariannol, a phwysau'r gaeaf wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad a'r GIG ehangach yng Nghymru. Mae hyn wedi mynnu ymateb dynamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â heriau.

Bydd y fframwaith llywodraethu corfforaethol yn parhau i wella yn 2024/25, gyda ffocws parhaus ar lywodraethu integredig a fframweithiau sicrwydd, datblygiad pellach y Rhaglen Trawsnewid Risg, cefnogaeth i'r sawl sy'n ysgrifennu adroddiadau ac i gyflwynwyr, ac ymwreiddio Gweithdrefn Gweithredu Safonol y Bwrdd a Phwyllgorau i ddarparu cysondeb a gwella ansawdd ac amseroldeb papurau. Bydd y Weithdrefn Weithredu Safonol Ymweliadau Bwrdd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2023 yn parhau i gefnogi aelodau i driongli sicrwydd a hyrwyddo arweinyddiaeth weledol.

Mae ymrwymiad i Fforwm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru – unig Grŵp Cyngori'r Ymddiriedolaeth – fod â ffocws strategol i gryfhau'r berthynas â'n partneriaid Undebau Llafur, a bydd hyn yn ategu ac yn alinio ei drefniadau gweithredu â'r gyfres o Bwyllgorau Bwrdd sydd eisoes ar waith.

Fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, rwy'n cadarnhau bod y datganiadau a wnaed yn yr adroddiad hwn yn gywir ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, na fu unrhyw faterion mewnol na llywodraethu sylweddol a chadarnhaf fod systemau cadarn o reolaeth fewnol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion polisi'r Ymddiriedolaeth.

Jason Killens

Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2024



j) Atodiadau Datganiad Llywodraethu

Atodiad 1: Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990 (OS 1990 Rhif 2024) fel y'u diwygiwyd. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd sydd wedi'u cyflwyno yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd yn cyflawni nifer o rolau hyrwyddo hefyd ac yn gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y materion hyn.

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y cyfarfodydd y mae pob aelod o'r Bwrdd wedi'u mynychu yn ystod 2023/24 (ffigurau presenoldeb y Pwyllgor fel y'u cofnodwyd yn Adroddiadau Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor a gyflwynwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth).

Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
Peter Curran	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 0 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Preifat): 0 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Archwilio: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 0 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Colin Dennis	Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Preifat): 9 allan o 9 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 3 allan o 3
Kevin Davies	Is-gadeirydd (tan 30 Tachwedd 2023) a Chyfarwyddwr Anweithredol (o 01 Rhagfyr 2023)	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 5 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 allan o 9 Y Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd: 4 allan o 4 Pwyllgor Archwilio: 1 allan o 1 (ers penodi i'r Pwyllgor) Pwyllgor Elusennau: 2 allan o 4



Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
		Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 6 allan o 6 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 3 allan o 3
Bethan Evans	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 8 allan o 9 Pwyllgor Elusennau: 2 allan o 4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 6 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 2 allan o 3
Paul Hollard	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 8 allan o 9 Y Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd: 4 allan o 4 Pwyllgor Archwilio: 4 allan o 5 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 3 allan o 3
Ceri Jackson	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 8 allan o 9 Pwyllgor Archwilio: 5 allan o 5 Pwyllgor Elusennau: 4 allan o 4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 2 allan o 3
Hannah Rowan	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 5 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 allan o 9 Y Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd: 4 allan o 4



Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
		Pwyllgor Elusennau: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 1 allan o 3
Joga Singh	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 3 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 5 allan o 9 Y Pwyllgor Archwilio: 2 allan o 5 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 0 allan o 4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 5 allan o 6 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 0 allan o 3
Martin Turner	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 4 allan o 5 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 2 allan o 8 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 2 allan o 4 Pwyllgor Archwilio: 4 allan o 4 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 4 allan o 4 (o gyfarfodydd ar gael) Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 0 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Jason Killens	Prif Weithredwr	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 9 allan o 9 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 3 allan o 3 Pwyllgor Archwilio: 2 allan o 5 (ddim yn fynychwr angenrheidiol) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 1 allan o 6 (ddim yn fynychwr angenrheidiol) Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 1 allan o 4 (ddim yn fynychwr angenrheidiol)



Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
Lee Brooks	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 8 allan o 9 Pwyllgor Archwilio: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Elusennau: 2 allan o 4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 3 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 1 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4
Angela Lewis	Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 allan o 9 Pwyllgor Archwilio: 4 allan o 5 Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 3 allan o 4 Pwyllgor Elusennau: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 5 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 3 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 3 allan o 3
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 9 allan o 9 Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 4 allan o 4 Pwyllgor Elusennau: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4
Brendan Lloyd	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 4 allan o 4 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 6 allan o 7 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 1 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Rachel Marsh	Cyfarwyddwr Gweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6



Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
	Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 9 allan o 9 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 5 allan o 6 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 2 allan o 4
Trish Mills	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 9 allan o 9 Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 4 allan o 4 Pwyllgor Archwilio: 5 allan o 5 Pwyllgor Elusennau: 4 allan o 4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 5 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 3 allan o 3
Jonny Sammut (O 27 Medi 2023)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 3 allan o 4 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Preifat): 3 allan o 6 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 3 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 1 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Leanne Smith (O 01 Awst 2022 tan 11 Hydref 2023)	Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Digidol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 3 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 5 allan o 5 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 1 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 1 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 1 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael)



Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
Andy Swinburn	Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth (O 01 Ionawr 2024; cyn Cyfarwyddwr Parafeddygaeth)	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 6 allan o 9 Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 4 allan o 4 Pwyllgor Elusennau: 3 allan o 4 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 2 allan o 4
Chris Turley	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 9 allan o 9 Pwyllgor Archwilio: 5 allan o 5 Pwyllgor Elusennau: 2 allan o 4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 5 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4
Liam Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 6 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 9 allan o 9 Pwyllgor Archwilio: 3 allan o 5 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 4 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 2 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4



Atodiad 2: Dyddiadau Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae'r Tabl canlynol yn nodi dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgorau a gynhaliwyd yn 2023/24. Cafwyd cworwm ar gyfer holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i bwyllgorau yn 2023/24.

Teitl y Cyfarfod	Dyddiadau Cyfarfodydd 2023/24
Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus)	25/05/2023; 27/07/2023; 28/09/2023; 23/11/2023; 25/01/2024; 28/03/2024
Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig)	25/05/2023; 27/07/2023; 10/08/2023; 08/09/2023; 28/09/2023; 23/11/2023; 08/12/2023; 25/01/2024; 28/03/2024
Y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd	25/04/2023; 15/08/2024; 24/10/2023; 16/01/2024
Y Pwyllgor Archwilio	20/04/2023; 25/07/2023; 14/09/2023; 30/11/2023; 01/03/2024
Y Pwyllgor Elusennau	05/04/2023; 05/07/2023; 09/10/2023; 18/01/2024
Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	15/05/2023; 17/07/2023; 18/09/2023; 13/11/2023; 15/01/2024; 19/03/2024
Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant	09/05/2023; 17/08/2023; 16/11/2023; 20/02/2024
Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch	11/05/2023; 10/08/2023; 31/10/2023; 08/02/2024
Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth	05/06/2023; 26/07/2023; 08/03/2024



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

2.2 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i God Ymarfer Cyflogaeth Foesegol Llywodraeth Cymru mewn Cadwyni Cyflenwi ac mae wedi ymrwymo'n llwyr iddo. Mae hwn wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflawni contractau ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a sefydliadau trydydd sector sy'n derbyn arian cyhoeddus. Mae'r swyddogaeth gaffael yn faes allweddol ar gyfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Mae hwn yn cael ei redeg gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith a wneir ar ran y Bwrdd Iechyd gan PCGC ar wefan y Bartneriaeth Cydwasanaethau.



2.3 Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff

Mae'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff yn cynnwys gwybodaeth am dâl cydnabyddiaeth uwch reolwyr. Bydd yn manylu ar gyflogau a thaliadau eraill, polisi'r Ymddiriedolaeth ar dâl cydnabyddiaeth i uwch reolwyr ac a oedd unrhyw daliadau ymadael neu ddyfarniadau arwyddocaol eraill i uwch reolwyr presennol neu gyn-reolwyr.

Y diffiniad o uwch reolwyr fel y'i rhagnodir gan y Llawlyfr Cyfrifon 2023/24 Pennod tri yw: 'yr unigolion hynny mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfarwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol".

Ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, ystyrir mai'r uwch reolwyr yw aelodau'r Byrddau, h.y. y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol gan gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr; pedwar Cyfarwyddwr pellach (heb hawliau pleidleisio) a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd.

Yn ogystal â chyflwyno data ar dâl cydnabyddiaeth i uwch reolwyr, mae'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff yn nodi aelodaeth Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth, a gwybodaeth staff o ran niferoedd, cyfansoddiad ac absenoldebau salwch, ynghyd â gwariant ar ymgynghoriaeth a gwariant oddi ar y gyflogres.

Aelodaeth y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth

Mae manylion aelodau'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu. Roedd y newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu'r newidiadau i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar y Bwrdd.

Datganiad o Bolisi ar Dâl Cydnabyddiaeth i Uwch Reolwyr

Mae holl gyflogau a thelerau ac amodau gwasanaeth yr uwch reolwyr wedi'u pennu gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth o fewn y fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Asesir perfformiad uwch reolwyr yn erbyn amcanion personol a pherfformiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r broses yn pennu amcanion ar gyfer y flwyddyn



ac yn asesu perfformiad unigol yn erbyn yr amcanion. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud taliadau bonws perfformiad na thaliadau bonws cysylltiedig eraill.

Yn unol â Chylchlythyrau Llywodraeth Cymru ar gyflogau uwch reolwyr yn GIG Cymru ar gyfer 2023/24, cymhwyswyd codiad cyflog cyfunol o 5% i bob graddfeydd cyflog ar gyfer unigolion mewn swyddi gweithredol ac uwch, yn weithredol o 01 Ebrill 2023. Cytunwyd ar y codiad cyflog hwn ym mis Mawrth 2024 a'i gymhwyso'n ôl-weithredol.

Mae'r codiad hwn wedi'i gymhwyso i bob graddfa gyflog, gan gynnwys staff uwch yr Ymddiriedolaeth sydd ar gyfraddau yn y fan a'r lle a drafodir yn unigol yn unol â'r Cylchlythyrau cyflog. Nid yw'r codiad hwn yn berthnasol i Gyfarwyddwyr Anweithredol.

Polisi ar Hyd Contractau a Chyfnodau Rhybudd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio contractau cyflogaeth parhaol a chyfnod penodol yn ogystal â chyfleoedd secondiad. Ar gyfer aelodau staff eraill, mae'r rhybudd cytundebol y mae'n ofynnol i staff ei roi i'r Ymddiriedolaeth ac y mae gan staff hawl i'w gael, fel a ganlyn: Bandiau un i chwech = pedair wythnos; Band saith = wyth wythnos; Bandiau wyth a naw = 12 wythnos.

Y darpariaethau rhybudd ar gyfer Bandiau Cyflog un i saith a amlinellir uchod yw'r cyfnodau rhybudd arferol. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau hyn yn diystyru'r gofynion rhybudd statudol y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth eu rhoi i'w staff. Yn ôl hyd gwasanaeth, efallai y bydd gan staff hawl i gyfnod rhybudd hwy a chael un wythnos o rybudd am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblhawyd hyd at a chan gynnwys 12 wythnos o rybudd ar ôl 12 mlynedd o gyflogaeth barhaus.

Mae hyn yn cyfeirio at y cyfnodau rhybudd y mae'n rhaid i staff eu rhoi; fodd bynnag, nid yw hyn yn atal unigolion rhag gofyn i gael eu rhyddhau o'u swyddi'n gynharach. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl y naill barti na'r llall i derfynu'r contract heb rybudd oherwydd ymddygiad y parti arall. Gall yr Ymddiriedolaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, dalu cyflog yn lle rhybudd.

Contractau a Dyfarniadau Uwch Reolwyr

Dangosir manylion contractau uwch reolwyr yn y tablau isod. Nid oedd unrhyw daliad am derfynu contractau uwch reolwyr yn gynnar yn ystod 2023/24.



Perthynas Tâl Cydnabyddiaeth

Nodir manylion perthynas tâl cydnabyddiaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn Nodyn 10.6 o Gyfrifon Blyneddol 2023/24.

Uwch Reolwyr mewn Swydd 2023/24

Enw	Teitl y Swydd	Categori Penodi	Dyddiad Dechrau yn y Swydd	Dyddiad Gorffen Cyfnod Penodol
Peter Curran	Cyfarwyddwr Anweithredol	Dyddiad Gorffen	01 Chwefror 2024	31 Ionawr 2028
Colin Dennis	Cadeirydd	Dyddiad Gorffen	01 Hydref 2022	30 Medi 2026
Kevin Davies	Is-gadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol o 01 Rhagfyr 2023	Dyddiad Gorffen	01 Ebrill 2019	30 Medi 2024 ¹
Bethan Evans	Cyfarwyddwr Anweithredol	Dyddiad Gorffen	06 Rhagfyr 2019	5 Rhagfyr 2026
Paul Hollard	Cyfarwyddwr Anweithredol	Dyddiad Gorffen	01 Ebrill 2016	31 Mawrth 2024
Ceri Jackson ²	Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd Dros Dro o 01 Rhagfyr 2023	Cyfnod Penodol	01 Ebrill 2021	31 Mawrth 2026

¹ Estynnwyd tymor Kevin Davies yn ystod y flwyddyn; manylion pellach yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr

² Penodwyd Ceri Jackson yn Is-gadeirydd Dros Dro y Bwrdd yn dechrau ar 01 Rhagfyr 2023; manylion pellach yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr



Enw	Teitl y Swydd	Categori Penodi	Dyddiad Dechrau yn y Swydd	Dyddiad Gorffen Cyfnod Penodol
Anoop Joga Singh	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cyfnod Penodol	09 Rhagfyr 2019	8 Rhagfyr 2025
Hannah Rowan	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cyfnod Penodol	01 Ebrill 2022	31 Mawrth 2026
Jason Killens	Prif Swyddog Gweithredol	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Christopher Turley	Cyfarwyddwr Gweithredol	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Angela Lewis	Cyfarwyddwr	Parhaol	12 Medi 2022	Ddim yn Berthnasol
Liam Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol	Parhaol	01 Awst 2022	Ddim yn Berthnasol
Lee Brooks	Cyfarwyddwr Gweithredol	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwr	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Rachel Marsh	Cyfarwyddwr Gweithredol	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Patricia Mills	Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd y Bwrdd	Parhaol	02 Awst 2021	Ddim yn Berthnasol
Jonathan Sammut	Cyfarwyddwr	Parhaol	27 Medi 2023	Ddim yn Berthnasol
Andrew Swinburn ³	Cyfarwyddwr Gweithredol	Parhaol	01 Rhagfyr 2021	Ddim yn Berthnasol

³ Derbyniodd swydd y Cyfarwyddwr Parafeddygaeth ddynodiad hawliau pleidleisio aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn.



Ceir rhagor o fanylion am drefniadau contract uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth yn 2023/24 yn y Tabl Tâl Cydnabyddiaeth (a'r Nodiadau) a nodir yn ddiweddarach yn yr Adroddiad hwn ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff. Lle bu newidiadau i swyddi'r Cyfarwyddwyr, newidiadau i delerau neu ymddiswyddiadau yn ystod y flwyddyn, ceir rhagor o fanylion yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Uwch Reolwyr yn llenwi swyddi dros dro yn ystod 2023/24

Enw	Teitl y Swydd	Categori Penodi	Dyddiad Dechrau yn y Swydd	Dyddiad Gorffen
Leanne Smith	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	Dros Dro	01 Awst 2022	Dros dro tan 11 Hydref 2023 (trosglwyddiad pythefnos wedi'i gytuno o 27 Medi 2023)

Uwch Reolwyr a adawodd yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2023/24

Enw	Teitl y Swydd	Categori Penodi	Dyddiad Dechrau yn y Swydd	Dyddiad Gadael
Brendan Lloyd	Cyfarwyddwr Gweithredol	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	31 Rhagfyr 2023
Martin Turner	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cyfnod Penodol	13 Rhagfyr 2019	31 Ionawr 2024 ⁴

⁴ Estynnwyd tymor Martin Turner yn ystod y flwyddyn o 12 Rhagfyr 2023 i 31 Ionawr 2024.



Gwybodaeth Adroddiad Hutton (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae'n ofynnol i gyrrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr/aelod o staff sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a'r 25ain canradd, y canolrif a'r 75fed canradd o dâl gweithlu'r sefydliad. Blwyddyn ariannol 2021/22 oedd y datgeliadau blwyddyn gyntaf mewn perthynas â chymhareb gyflog y 25ain canradd a bod angen cymhareb gyflog y 75ain canradd.

		2023-24	2023-24	2023-24	2022-23	2022-23	2022-23
		£000	£000	£000	£000	£000	£000
		Prif Weithredwr	Cyflogai	Cymhareb	Prif Weithredwr	Cyflogai	Cymhareb
Cyfanswm cyflog a buddion							
	Cymhareb cyflog 25ain canradd	172,500	28,906	5.97:1	167,500	26,462	6.33:1
	Cyflog canolrifol	172,500	36,067	4.78:1	167,500	34,225	4.89:1
	Cymhareb cyflog 75ain canradd	172,500	48,629	3.55:1	167,500	46,920	3.57:1
Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a buddion							
	Cymhareb cyflog 25ain canradd	177,500	24,701		172,500	23,525	
	Cyflog canolrifol	177,500	28,010		172,500	26,676	
	Cymhareb cyflog 75ain canradd	177,500	43,257		172,500	41,197	
Cyfanswm cyflog a buddion							
		Cyfarwgd ddr â'r Cyflog Uchaf	Cyflogai	Cymhareb	Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf	Cyflogai	Cymhareb
	Cymhareb cyflog 25ain canradd	172,500	28,906	5.97:1	167,500	26,462	6.33:1
	Cyflog canolrifol	172,500	36,067	4.78:1	167,500	34,225	4.89:1
	Cymhareb cyflog 75ain canradd	172,500	48,629	3.55:1	167,500	46,920	3.57:1
Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a buddion							
	Cymhareb cyflog 25ain canradd	177,500	24,701		172,500	23,525	
	Cyflog canolrifol	177,500	28,010		172,500	26,676	
	Cymhareb cyflog 75ain canradd	177,500	43,257		172,500	41,197	

Yn 2023-24, cafodd 0 (2022-23, 1) aelod staff dâl cydnabyddiaeth a oedd yn uwch na thâl y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Roedd y tâl ar gyfer pob aelod staff yn amrywio o £22,720 i £177,500 (2022-23, £21,069 i £172,500). Mae'r amrediad 'holl staff' yn cynnwys cyfarwyddwyr (gan gynnwys y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) ac nid yw'n cynnwys buddion pensiwn yr holl staff.

*O ran y datgeliadau hyn, y Prif Weithredwr hefyd yw'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.



Crynodeb o'r Flwyddyn Ariannol (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae cyfanswm y cyflog a buddion ar gyfer y Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf yn is na'r elfen gyflog oherwydd cynllun aberthu cyflog.

Mae'r cyflogai a gafodd tâl cydnabyddiaeth sy'n fwy na'r Prif Weithredwr yn 2022-23 yn weithiwr asiantaeth dros dro ac nid yw'n Gyfarwyddwr ac nid yw bellach yn ei swydd.

Yn unol â chylchlythyrau Llywodraeth Cymru ar gyflog, mae'r cynnydd cyflog o 5% ar gyfer 2023/24 wedi'i gynnwys yn y cyfrifiadau.

10.6.2 Newidiadau o ran Canran		2022-23	2021-22
		i	hyd
		2023-24	2022-23
Newid % o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r Prif Weithredwr		%	%
	Cyflog a lwfansau	3.0	3.1
	Tâl perfformiad a bonysau	0	0
Newid % o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf			
	Cyflog a lwfansau	3.0	3.1
	Tâl perfformiad a bonysau	0	0
Cyfartaledd y newid % o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion yn ei gyfarwydd			
	Cyflog a lwfansau	5.0	6.1
	Tâl perfformiad a bonysau	0	0

Mae'r 3.1% a adroddwyd yn 2022/23 yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog a dderbyniwyd ac a gronnwyd yn ystod 2022/23. Mae'r 3.0% a adroddwyd yn 2023/24 yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog a dderbyniwyd yn 2023/24, yn seiliedig ar bwynt canol y band.

Roedd y 6.1% yn 2022/23 o ran y cyflog cyfartalog fesul gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn gysylltiedig â'r dyfarniad cyflog a dderbyniwyd ac a gronnwyd ar ei gyfer yn ystod 2022/23. Mae'r 5.0% a adroddwyd yn 2023/24 yn ymwneud â'r codiadau cyflog y cytunwyd arnynt ar draws y sefydliad.



Hawliau Cyflog a Phensiynau Uwch Reolwyr

a) Tâl (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Enw a Theitl	2023-24				2022-23			
	Cyflog (bandiau o £5000) (Nodyn 25)	Buddion mewn Wedi'i dalgrnau i'r £100 agosaf	Buddion mewn Wedi'i dalgrnau i'r £100 agosaf	Cyfanswm (bandiau o £5000)	Cyflog (bandiau o £5000) (Nodyn 26 a 27)	Buddion mewn Wedi'i dalgrnau i'r £100 agosaf	Buddion mewn Wedi'i dalgrnau i'r £100 agosaf	Cyfanswm (bandiau o £5000)
Martin Woodford (Cadeirydd) (Nodyn 1)					20-25			20-25
Colin Dennis (Cadeirydd) (Nodyn 2)	40-45			40-45	20-25			20-25
Kevin Davies (Cyfarwyddwr Anweithredol / Is-gadeirydd) (Nodyn 3)	15-20			15-20	15-20			15-20
Paul Holland (Cyfarwyddwr Anweithredol) (Nodyn 4)	5-10			5-10	5-10			5-10
Martin Turner (Cyfarwyddwr Anweithredol) (Nodyn 5)	5-10			5-10	5-10			5-10
Anoop Joga Singh (Cyfarwyddwr Anweithredol)	5-10			5-10	5-10			5-10
Bethan Evans (Cyfarwyddwr Anweithredol)	5-10			5-10	5-10			5-10
Ceri Jackson (Cyfarwyddwr Anweithredol / Is-gadeirydd Dros Dro) (Nodyn 6)	10-15			10-15	5-10			5-10
Hannah Rowan (Cyfarwyddwr Anweithredol) (Nodyn 7)	5-10			5-10	5-10			5-10
Peter Curran (Cyfarwyddwr Anweithredol) (Nodyn 8)	0-5			0-5				
Jason Killens (Prif Weithredwr) (Nodyn 9 a Nodyn 30)	170-175	-	0	170-175	165-170	-	15	165-190
Christopher Turley (Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol) (Nodyn 10 a Nodyn 30)	120-125	-	0	120-125	110-115	-	15	125-130
Dr Brendan Lloyd (Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Meddygol a Chlinigol) (Nodyn 11)	60-65	-		60-65	60-65	-		60-65
Claire Vaughan (Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol) (Nodyn 12)					5-10	-		5-10
Dr Catherine Goodwin (Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithlu a Datblygu Sefydliadol) (Nodyn 13)					45-50	-	10	55-60
Angela Lewis (Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant) (Nodyn 14)	110-115	-	27	140-145	60-65	-	4	65-70
Gail Wendy Herbert (Cyfarwyddwr Ansawdd a Ngriso Dros Dro) (Nodyn 15)					45-50	-	49	95-100
Liam Williams (Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Ngriso) (Nodyn 16 a Nodyn 30)	120-125	-	0	120-125	75-80	-	14	90-95
Estelle Hitchon (Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu) (Nodyn 17)	105-110	-		105-110	100-105	-		100-105
Rachel Marsh (Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad) (Nodyn 18 a Nodyn 30)	105-110	-	0	105-110	105-110	-		105-110
Lee Brooks (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediaid) (Nodyn 19)	110-115	-	30	140-145	115-120	2,300	28	145-150
Andrew Haywood (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol) (Nodyn 20)					35-40	-	5	40-45
Dr Leanne Smith (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Digidol) (Nodyn 21)	60-65	-	13	75-80	75-80	-	16	90-95
Jonathan Sammut (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol) (Nodyn 22)	55-60	-	2	60-65				
Andrew Swinburn (Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth) (Nodyn 23 a Nodyn 30)	110-115	-	0	110-115	115-120	-	93	205-210
Patricia Mills (Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd) (Nodyn 24)	100-105	-	26	125-130	95-100	-	22	115-120

Nodyn 1 - Gadawodd Martin Woodford yr Ymddiriedolaeth ar 30 Medi 2022
Nodyn 2 - Ymunodd Colin Dennis â'r Ymddiriedolaeth ar 1 Hydref 2022.
Nodyn 3 - Kevin Davies oedd Is-gadeirydd tan 30 Tachwedd 2023 ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol o 1 Fhagfyr 2023
Nodyn 4 - Gadawodd Paul Holland yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2024
Nodyn 5 - Gadawodd Martin Turner yr Ymddiriedolaeth ar 31 Ionawr 2024
Nodyn 6 - Ceri Jackson oedd Cyfarwyddwr Anweithredol tan 30 Tachwedd 2023 ac yn Is-gadeirydd Dros Dro o 1 Fhagfyr 2023
Nodyn 7 - Ymunodd Hannah Rowan â'r Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2022
Nodyn 8 - Ymunodd Peter Curran â'r Ymddiriedolaeth ar 1 Chwefror 2024. Y cyflog cyfwrth â blwyddyn lawr yw 5-10 (bandiau o £5000) a berthwyd mewn perthynas â NHS Fleet Solutions
Nodyn 10 - Mae cyflog Christopher Turley yn cynnwys £2,391 o ran gwgliau blyngddol a werthwyd ac nid yw'n cynnwys £5,306 a berthwyd mewn perthynas â NHS Fleet Solutions. Roedd cyflog 2022-23 yn cynnwys £4,500 ar gyfer gwgliau blyngddol a werthwyd ac nid oedd yn cynnwys £10,612 a berthwyd mewn perthynas â NHS Fleet Solutions £4,039 o ran gwgliau blyngddol a werthwyd
Nodyn 12 - Gadawodd Claire Vaughan yr Ymddiriedolaeth ar 22 Ebrill 2022
Nodyn 13 - Penodwyd Dr Catherine Goodwin yn Gyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o 11 Ebrill 2022 tan 11 Medi 2022
Nodyn 14 - Ymunodd Angela Lewis â'r Ymddiriedolaeth ar 12 Medi 2022. Newidiodd teitl swydd Angela o Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant o 20 Ebrill 2023.
Nodyn 15 - Penodwyd Gail Wendy Herbert yn Gyfarwyddwr Ansawdd a Ngriso Dros Dro o 7 Mawrth 2022 tan 31 Awst 2022
Nodyn 16 - Ymunodd Liam Williams â'r Ymddiriedolaeth fel Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Ngriso ar 1 Awst 2022
Nodyn 17 - Mae cyflog Estelle Hitchon yn cynnwys £2,054 o ran gwgliau blyngddol a werthwyd Roedd cyflog yn 2022-23 yn cynnwys £2,956 o ran gwgliau blyngddol a werthwyd a berthwyd mewn perthynas â NHS Fleet Solutions
Nodyn 19 - Nid yw cyflog Lee Brooks yn cynnwys £10,415 a berthwyd mewn perthynas â NHS Fleet Solutions. Nid oedd cyflog 2022-23 yn cynnwys £3,472 a berthwyd mewn perthynas â NHS Fleet Solutions
Nodyn 20 - Gadawodd Andrew Haywood yr Ymddiriedolaeth ar 31 Gorffennaf 2022
Nodyn 21 - Penodwyd Dr Leanne Smith yn Gyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Digidol o 1 Awst 2022 tan 11 Hydref 2023. Y cyflog cyfwrth â blwyddyn lawr yw 115-120 (bandiau o £5000) 105 (bandiau o £5000)
Nodyn 23 - Nid yw cyflog Andy Swinburn yn cynnwys £9,629 a berthwyd mewn perthynas â NHS Fleet Solutions. Roedd cyflog yn 2022-23 yn cynnwys £2,144 o ran gwgliau blyngddol a werthwyd
Nodyn 24 - Newidiodd teitl swydd Patricia Mills o Ysgrifennydd y Bwrdd i Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd o 8 Mawrth 2024
Nodyn 27 - Mae'r golofn gyflog yn cynnwys o 5% ar ben y graddfedd cyflog ar gyfer gweithwyr sy'n dod o dan delerau ac amodau gwasanaeth cyflog gweithredol ac uwch. Byrddau a Chyfarwyddwyr Anweithredol
Nodyn 28 - Mae'r golofn gyflog 2022-23 hefyd yn cynnwys taliad amhensiynadwy ar wahân o 15%, ynghyd â chroniad cyfunol o 15%. Yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru, nid yw'r taliad cyfunol hwn wedi'i gynnwys yn elfen buddion pensïon y tabl 2022-23 uchod. Nid oedd y taliadau hyn yn berthnasol i Gadeiryddion Bwrdd a Chyfarwyddwyr Anweithredol
Nodyn 29 - Yn unol â chanllawiau Datgelu Tâl Uwch Reolwyr (Greenbury) 2024, dim ond pan fydd y cyfrifiad yn rhoi ffigur cadarnhaol y caiff buddion pensïon eu cynnwys.
Nodyn 30 - Mae'r wybodaeth bensiwn a ddatgelwyd wedi'i chyrnhori ar sail tâl pensïonadwy gan gynnwys y cynnydd o 5% a dalwyd ym mis Mawrth 2024
Nodyn 30 - Wedi'i effeithio gan Fhwymedi Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a symudwyd eu haelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yn ôl i Gynllun 1995/2008 ar 1 Hydref 2023. Ni ddatgelir gwerthoedd negyddol yn y tabl hwn ond yn hytrach rhoddi zero yn eu lle.



Hawliau Cyflog a Phensiynau Uwch Reolwyr

b) Buddion Pensiwn (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

B) Buddion Pensiwn					
Enw a Theitl	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/3/24 a'r cyfandaliad cysgiltiedig (bandiau £'000)	Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysgiltiedig ar oedran pensiwn (bandiau o £'000)	Gwerth Trosglwyd do Cyfwerth ag Arian £'000	Gwerth Trosglwyd do Cyfwerth ag Arian £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyd £'000
Jason Killens (Prif Weithredwr)	55-60 ynghyd â chyfandaliad o 150-155	0 ynghyd â chyfandaliad o 22.5-25	1,222	922	183
Christopher Turley (Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol)	50-55 ynghyd â chyfandaliad o 145-150	0 ynghyd â chyfandaliad o 35-37.5	1,245	925	210
Dr Brendan Lloyd (Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Meddygol a Chlinigol)	-	-	-	-	-
Angela Lewis (Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant)	0-5 ynghyd â chyfandaliad o 0-5	0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0	76	35	23
Liam Williams (Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Ngrsio)	35-40 ynghyd â chyfandaliad o 100-105	0 ynghyd â chyfandaliad o 20-22.5	865	664	117
Estelle Hitchon (Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu) **	-	-	-	-	-
Rachel Marsh (Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad)	50-55 ynghyd â chyfandaliad o 60-65	0 ynghyd â chyfandaliad o 0	957	768	97
Lee Brooks (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)	40-45	0-2.5	562	394	112
Leanne Smith (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Digidol)	5-10	0-2.5	111	62	14
Jonathan Sammut (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol) ***	0-5	0-2.5	56	43	0
Andrew Swinburn (Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth)	45-50 ynghyd â chyfandaliad o 120-125	0 ynghyd â chyfandaliad o 15-17.5	1,052	852	99
Patricia Mills (Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd)	5-10	0-2.5	112	65	27
*Dewisodd Dr Brendan Lloyd adael y cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2021					
**Dewisodd Estelle Hitchon beidio â chael ei diogelu gan drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd gyfiredol					
***Dewisodd Jonathan Sammut beidio â chael ei gwrpasu gan drefniadau pensiwn y GIG o 1 Chwefror 2024					



Niferoedd Staff (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae dadansoddiad o niferoedd staff yn ôl categori yn ystod 2023/24 wedi'i nodi isod. Mae'r ffigurau'n ymwneud â nifer cyfartalog y staff o dan contract gwasanaeth ym mhob mis o'r flwyddyn ariannol, wedi'i rannu â 12 (a'i dalgrynnu i'r cyfwerth ag amser llawn agosaf). Cyfrifwyd y ffigurau hyn i gynnwys secondiadau o'r tu allan a staff asiantaeth ac i gysoni â'r cyfrifon ariannol.

Categori	2023/24	2022/23	2021/22
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	2,071	2,078	2,064
Staff Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	3	4	2
Staff Gweinyddol, Clerigol ac Aelodau o'r Bwrdd	643	618	581
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	1,103	1,092	1,052
Ystadau a Chymorth	68	64	62
Meddygol a Deintyddol	0	1	1
Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig	191	196	207
Cyfanswm	4,079	4,053	3,969

Cyfansoddiad Staff

Nodir dadansoddiad o nifer y bobl o bob rhyw sy'n uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth (h.y. Cyfarwyddwyr Anweithredol, Cyfarwyddwyr Gweithredol, Cyfarwyddwyr) ar 31 Mawrth 2024 isod (ac eithrio'r rhai a secondiwyd allan o'r Ymddiriedolaeth). Mae hyn yn cymharu â chyfansoddiad staff yr Ymddiriedolaeth gyfan o 50% o fenywod, 50% o ddynion.

Rhywedd	Nifer y bobl	%
Benyw	7	39



Gwryw	11	61
Cyfanswm	18	100

Data Absenoldeb Oherwydd Salwch

	2023/24	2022/23	2021/22
Diwrnodau a gollwyd (hirdymor)	93,684.07	88,732.85	100,910.74
Diwrnodau a gollwyd (tymor byr)	32,961.72	47,226.89	50,050.55
Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd	126,645.79	135,959.74	150,961.30
Cyfanswm y blynyddoedd staff	338.43	335.66	329.20
Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd	19.43	21.09	23.96
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer y bobl)	4354	4,315	4,231
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod na fuont yn absennol (nifer y bobl)	1,025	917	1,035
Canran y staff na fuont yn absennol oherwydd salwch	24.93%	21.09%	24.04%

Nodyn 1: Mae canran a chyfanswm nifer y staff na fuont yn absennol yn ystod y flwyddyn wedi dod o adroddiad safonol Gwybodaeth Busnes (BI) y Cofnod Staff Electronig (ESR). O ran yr adrodd mewn perthynas â chanran y staff sydd â 'dim salwch', nid yw'r adroddiad Gwybodaeth Busnes safonol yn cynnwys newydd-ddyfodiaid a hefyd penodiadau banc. Felly, mae nifer y staff sydd wedi cael



blwyddyn gyfan heb unrhyw absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei rannu'n nifer llai na chyfanswm y cyfrif pennau ar ddiwedd y flwyddyn.

Nodyn 2: Mae "Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod heb unrhyw absenoldeb (cyfrif pennau)" yn absenoldeb salwch yn unig ac nid yw'n cynnwys y rhai a oedd yn ynysu/gwarchod oherwydd COVID-19.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli perfformiad absenoldeb yn gadarn ac mae wedi rhoi llawer o gamau gweithredu ar waith yn 2023/2024. Bu gostyngiad mewn absenoldebau o 8.26% ym mis Mawrth 2023 i 7.67% ym mis Chwefror 2024. Mae'r gweithredoedd yn cynnwys y canlynol:

- Lansiad arfer tosturiol yn ystod ymchwiliadau ar bob cam o'r broses yn anelu at sicrhau bod y cydweithwyr hynny sy'n ymwneud â'r broses yn cael eu trin yn dosturiol, yn deg ac yn cael eu trin mewn modd amserol.
- Mae gweithredu'r llwyfan codi llais yn ddiogel wedi gweld cynnydd yn nifer y cydweithwyr sy'n codi pryderon
- Mae tîm Gwasanaethau Pobl yn parhau i gynnig cymorth ac arweiniad i reolwyr ar bob agwedd ar wella presenoldeb yn y gwaith
- Darperir adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Rheoli Gweithredol, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gan edrych yn fanwl ar faterion penodol;
- Mae adolygiadau achos yn parhau i gael eu cynnal i sicrhau bod cymorth personol priodol yn cael ei ddarparu i gydweithwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth am ymagwedd yr Ymddiriedolaeth at les a chefnogi ei phobl yn adrannau 1.14 ac 1.15 o'r Adroddiad Perfformiad.

Polisiau Staff a Gymhwyswyd yn ystod y Flwyddyn

Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith polisi ar waith sy'n cwmpasu polisiau, gweithdrefnau a phrosesau a sut y dylid cyflwyno, diwygio, disodli a chymeradwyo'r rhain. Mae'r polisiau hyn yn mynd i'r afael â phob mater sy'n ymwneud â'r Ymddiriedolaeth ac yn ymdrin â materion fel cyflogaeth, iechyd a diogelwch, lles, a rheoli heintiau.



Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisiau ar recriwtio a dethol, hyfforddiant a gweithio hyblyg, strategaeth trin pobl yn deg, a Chynllun Pobl a Diwylliant. Cynlluniwyd y rhain i gyd i sicrhau bod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried yn llawn wrth recriwtio, dethol a chyflogi staff. Gall staff gael mynediad at y dogfennau polisi hyn drwy Fewnrwyd yr Ymddiriedolaeth.

Materion Gweithwyr/Staff Eraill

Wrth i ni barhau i wella ar ôl pandemig COVID-19 ac wynebu heriau newydd o ganlyniad i'r argyfwng costau byw ac effaith Brexit, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r effaith anghymesur y mae'r digwyddiadau hyn wedi'i chael ar ein pobl â nodwedd warchodedig a'r unigolion sy'n agored i niwed yn ein cymunedau.

Wrth i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024 ddod i ben, fe wnaethom ddatblygu cynllun newydd ar gyfer 2024-2028. Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes i wella a chynyddu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r cynllun newydd yn nodi pedwar amcan uchelgeisiol a fydd yn ein helpu i ddiwallu anghenion unigol ein defnyddwyr gwasanaeth a'n staff yn well. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyfarfod â llawer o bobl yn ein cymunedau ac wedi cynnal nifer o drafodaethau gyda'n staff a rhanddeiliaid i helpu i lywio datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roeddem yn awyddus i ddysgu mwy am yr heriau y mae pobl â nodwedd warchodedig yn eu hwynebu yn eu bywydau bob dydd. Mae'r ymgysylltu hwn wedi ein helpu i gynllunio set o amcanion a fydd yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau tecach a theilwra ein gwasanaethau gofal iechyd i ddiwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cynllun hefyd yn cyd-fynd â'n Cynllun Pobl a Diwylliant newydd i'n helpu i gefnogi iechyd a lles gweithwyr a gwella profiad gweithwyr.

Mae creu cynghreiriad a dangos cefnogaeth i'r rhai sy'n wynebu gwahaniaethu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Ymddiriedolaeth. Rydym wedi rhoi nifer o fentrau ar waith yn ystod 2023-2024 i helpu i gyflawni ein nodau. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys y canlynol:

Hyfforddiant Gwylwyr Gweithredol a Chynghreiriaid

Rydym wedi datblygu rhaglen hyfforddi Gwylwyr Gweithredol a Chynghreiriaid sy'n annog staff i gydnabod gwahaniaethu ac anghydraddoldeb a chymryd camau i helpu i ddileu gwahaniaethu ac annog ymddygiadau cadarnhaol a diwylliannau cynhwysol.



Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i gyflwyno i rai grwpiau staff allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf a byddwn yn parhau i gyflwyno'r hyfforddiant hwn i staff ochr yn ochr â hyfforddiant arbenigol arall ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rhyddid i Leisio Barn

Yn dilyn cyfres o ymarferion ymgysylltu â staff, rydym wedi cynyddu ein sianeli i staff godi pryderon a chael sgysiau agored a gonest am eu profiadau personol. Yn ogystal â'r sianeli cymorth traddodiadol sydd ar gael gan reolwyr llinell a'n Tîm Gwasanaethau Pobl, lanswyd ein Llwyfan Gweithio mewn Hyder a'n Rhaglen Rhyddid i Leisio Barn yn 2023. Mae'r ddwy sianel yn cynnig cyngor a chymorth cyfrinachol gan unigolion hyfforddedig i helpu i ddod o hyd i atebion priodol i bryderon a godwyd. Gobeithiwn nodi tueddiadau yn y pryderon a godwyd drwy'r sianeli newydd hyn er mwyn llywio cynlluniau gweithredu yn y dyfodol i fynd i'r afael â materion cyffredin.

Lleihau Casineb at Fenywod a Gwella Diogelwch Rhywiol

Rydym wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o fynd i'r afael â materion yn ymwneud â diogelwch rhywiol yn y gweithle. Gan ddysgu o ganlyniadau adolygiadau diwylliannol sydd wedi'u cynnal mewn gwasanaethau brys eraill ledled y DU, rydym wedi ymgysylltu â'n pobl ac yn cydnabod bod angen inni wneud mwy i gefnogi ein staff benywaidd a gwella diogelwch rhywiol yn ein sefydliad ein hunain. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwylans, mae un o'n Rheolwyr Datblygu Sefydliadol wedi bod yn arwain ar yr agenda diogelwch rhywiol ar draws Ymddiriedolaethau Ambiwylans y DU. Mae'r rhaglen waith hon wedi ein gweld yn ymgysylltu â'n pobl, gan godi ymwybyddiaeth, darparu manau diogel ar gyfer sgysiau, ac annog newidiadau ymddygiad. Rydym wedi cyflwyno sesiynau hyfforddi diogelwch rhywiol i'n pobl, wedi cyhoeddi podlediadau, wedi hyrwyddo adnoddau gwybodaeth, ac wedi datblygu set o egwyddorion arweiniol ar gyfer Ymddiriedolaethau Ambiwylans y DU. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n pobl a'n partneriaid i leihau casineb at fenywod a gwella diogelwch rhywiol o fewn y gwasanaethau brys a'r GIG ehangach.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'n gweithdrefnau asesu effaith ar gydraddoldeb drwy gyflwyno offeryn asesu effaith digidol, sesiynau cyngor un-i-un pwrpasol a chyfres o hyfforddiant ar-lein. Rydym hefyd wedi cryfhau ein



gweithdrefnau monitro trwy ein Grŵp Polisi sy'n datblygu llyfrgell o asesiadau effaith cydraddoldeb. Bydd asesiadau effaith cadarn yn ein helpu i nodi unrhyw effeithiau negyddol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig ac yn ein galluogi i addasu ein cynlluniau a rhoi camau lliniaru ar waith.

Cefnogaeth i LHDTC+

Yn 2023-2024 gwelwyd cynnydd nodedig mewn gweithgarwch i godi ymwybyddiaeth o'r materion y mae unigolion LHDTC+ yn eu hwynebu. Mae'r gwaith hwn wedi'i arwain gan ein Rhwydwaith Staff LHDTC+ sy'n parhau i ymgysylltu â chymunedau LHDTC+ lleol mewn digwyddiadau Pride ledled Cymru ac yn defnyddio'r adborth hwn a'u profiad bywyd eu hunain i ddylanwadu ar sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar gyfer ein staff. Eleni, mae ein Rhwydwaith LHDTC+ wedi canolbwyntio ar faterion trawsryweddol ac wedi gweithio mewn partneriaeth â Rhwydwaith LHDTC+ Cymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwllans i ddatblygu adnoddau i addysgu staff am wahaniaethu trawsryweddol a sut i gefnogi unigolion. Mae adolygiadau o'n systemau data presennol yn mynd rhagddynt i sicrhau y gallwn gofnodi rhyw yn briodol. Yn 2023, cynorthwyodd ein Cadeirydd Rhwydwaith hefyd gyda'r trefniadau ar gyfer cynhadledd genedlaethol LHDTC+ ar gyfer staff Ymddiriedolaeth Ambiwllans y DU. Galluogodd y gynhadledd, a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion, staff i fynychu nifer o weithdai achrededig datblygiad proffesiynol parhaus ar ystod o bynciau penodol, yn ogystal â chynnig cyfleoedd rhwydweithio ledled y DU.

Rhwydwaith Lleisiau WAST

Mae ein Rhwydwaith Lleisiau WAST newydd yn parhau i dyfu mewn poblogrwydd. Mae'r rhwydwaith wedi arwain y ffordd o ran addysgu staff am yr heriau a wynebir gan lawer o unigolion yn ein cymunedau. Mae'r podlediadau a'r sesiynau ar-lein gyda siaradwyr gwadd wedi rhoi'r cyfle i staff ddysgu am bynciau fel iechyd meddwl dynion, profiadau parafeddygon trawsryweddol, casineb at ddynion a gwrywod, menywod Mwslimaidd, casineb at fenywod eithafol a gweithgaredd Incel, a menywod o fewn rolau technoleg. Yn ogystal, mae aelodau'r rhwydwaith yn gweithio ar sawl ymgyrch brathog sy'n canolbwyntio ar ymyriadau wedi'u targedu i addysgu am ymddygiadau niweidiol penodol.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes i gyflawni'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd ein nod o



wneud yr Ymddiriedolaeth yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol i bawb yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd a wnaed drwy gydol y flwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Strategol 2022/23, sydd ar gael ar ein gwefan [yma](#).

Gwariant ar Ymgynghoriaeth

Y gwariant yn ystod 2023/24 mewn perthynas â chostau ymgynghori oedd £496,519.09 (yn 2022/23 roedd yn £611,451.17) ar draws y meysydd canlynol:

29,314.14	Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau
18,109.63	Trefniadaeth a Rheoli Newid
75,923.45	Adnoddau Dynol, hyfforddiant ac addysg
	Technoleg Gwybodaeth/Gwasanaethau
79,999.20	Gwybodaeth
61,300.67	Eiddo ac Adeiladu
15,000.00	Marchnata a Chyfathrebu
216,872.00	Strategaeth
-	Cyllid
-	Technegol
-	Gwasanaethau Cyfreithiol

496,519.09

Gwariant ar Staff Dros Dro

Cymhariaeth Naratif rhwng 2023/24 a 2022/23

Y gwariant yn ystod 2023/24 mewn perthynas â chostau staff dros dro oedd £1.104m (2022/23 £1.845m). Mae hyn yn cyfateb i amrywiad o £0.741m a oedd oherwydd y gwasanaeth carfanu a ddarparwyd y tu allan i Ysbyty Athrofaol y Faenor ac Ysbyty Treforys yn 2022/23, cymorth gwefan 111 ac oedi wrth recriwtio i swyddi gwag.

Ymrwymadau Oddi ar y Gyflogres

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw elw yn 2023/24 ar gyfer ymrwymadau oddi ar y gyflogres. Mae hyn yn gyson â'r hyn a adroddwyd yn 2022/23.



Pecynnau Ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae gan yr Ymddiriedolaeth gost o £53,678 yn 2023/24 ar gyfer un pecyn ymadael i staff yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn cymharu ag enillion o £170, 966 yn 2022/23. Disgrifir pecynnau ymadael yn Nodyn 10.5 yn y datganiadau ariannol.

2.4 Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

Mae Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru yn darparu gwybodaeth am faterion fel rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a thaliadau, a'r dystysgrif archwilio a'r adroddiad.

Rheoleidd-dra Gwariant

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau rheoleidd-dra ei hincwm a'i gwariant. Darparwyd tystiolaeth ddigonol o sicrwydd hyn fel rhan o'r archwiliad o'r broses gyfrifon a daw'r dystysgrif archwilio ar gyfer y cyfrifon i'r casgliad bod y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol, ym mhob ffordd berthnasol, wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd Cymru a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau bod ei gwariant ar gyfer y flwyddyn yn rheolaidd.

Ffioedd a Chostau

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cost lawn darparu gwasanaethau masnachol yn cael ei throsglwyddo yn ei ffioedd a'i thaliadau ac mae'n cadarnhau bod rheolaethau priodol ar waith yn 2023/24 ynghylch sut, pryd ac ar ba lefel y codwyd taliadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau bod ei ffioedd a'i thaliadau yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol Materol Pell

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol materol o bell o fewn ei chyfrifon ar gyfer 2023/24. Mae hyn yn gyson â'r hyn a adroddwyd yn 2022/23.

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilio

Mae tystysgrif ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i Senedd Cymru wedi'u hatodi ar y tudalennau a ganlyn.



Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglir a'u haddasir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o amgylchiadau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar 31 Mawrth 2024, ac o'i gwarged/diffyg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.



Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Rwyf fi a'm staff yn annibynnol o'r ymddiriedolaeth ac yn gweithredu'n unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifo am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg yr awdurdoddir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail busnes hyfyw cyfrifyddu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a fabwysiadwyd wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail busnes hyfyw cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Mae'r



Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn ddiamwys fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am hyn.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar dâl cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2006, a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru; Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan gyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Ystyriaethau yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth yr Ymddiriedolaeth a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau materol perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd. Nid oes gennyf unrhyw



sylwadau i'w gwneud ar y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- na wneir datgeliadau penodol o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol;
- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Ymddiriedolaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn



rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn darganfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl iddynt yn rhesymol, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, archwilio mewnol a'r rhai oedd yn gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru sy'n ymwneud â:
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig; a
- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.



- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll wrth ddiystyru rheolwyr a chydabod gwariant;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru; a
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglybiau a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth ymdrin â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.



Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
12 Gorffennaf 2024

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ



RHAN 3:- DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 wedi'u paratoi i gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FRoM) Trysorlys EF, gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan atodlen 9 adran 178 Para 3 (1) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) yn y ffurf y cyfarwyddodd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Cefndir statudol

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ym 1998. Rydym yn gwasanaethu ardal o ryw 8000 milltir sgwâr sydd â phoblogaeth o fwy na 3 miliwn ac mae ein hardal amrywiol yn cwmpasu encilion gwledig tawel, cyrchfannau glan môr prysur a bwrdeistrefi trefol mawr.

Mae ein gwasanaethau amrywiol a modern wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer gwahanol anghenion amgylcheddol a meddygol pob cymuned, o feiciau i geir ymateb cyflym, ambiwlansys rheng flaen a nyrsys yn ein canolfannau rheoli.

Rydym yn ateb mwy na 250,000 o alwadau mewn argyfwng bob blwyddyn, dros 50,000 o alwadau brys ac yn cludo dros 1.3 miliwn o gleifion nad ydynt yn achosion mewn argyfwng i dros 200 o ganolfannau triniaeth ledled Cymru a Lloegr.

Ein staff ymroddedig yw ein hased mwyaf, ac rydym yn cyflogi tua 4,000 o bobl. Mae tua 70% o'n gweithlu yn ein gwasanaethau meddygol brys sy'n cynnwys ein Canolfannau Cyswllt Clinigol, ac mae tua 640 o staff yn gweithio yn ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS). Mae ein gwasanaethau sy'n delio â chleifion hefyd yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr sy'n gweithio o fewn ein swyddogaethau corfforaethol a chymorth (tua 500 o staff) a'n gweithlu gwirfoddol estynedig gwerthfawr, gan gynnwys dros 1,000 o Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned (CFRs) a thua 300 o Yrwy'r Ceir Gwirfoddol.

Rydym yn gweithredu o 90 a mwy o orsafoedd ambiwlans, tair canolfan reoli, tair swyddfa ranbarthol a phum gweithdy cerbydau.

Mae gennym hefyd ein Coleg Hyfforddi Cenedlaethol ein hunain i sicrhau bod ein staff yn aros ar frig eu proffesiwn ac yn derbyn datblygiad proffesiynol rheolaidd.

Rydym yn cynnig hyfforddiant parhaus o ansawdd uchel, cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol.

Hefyd, rydym yn cynnal y gwasanaeth 111, sef gwasanaeth cyngor a gwybodaeth iechyd 24 awr y dydd i'r cyhoedd ac elfennau ateb galwadau llinell flaen a brysbennu clinigol gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.

Rheoli Perfformiad a Chanlyniadau Ariannol

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054 yn disodli WHC/2015/014 'Dyletswyddau Ariannol Statudol a Gweinyddol Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol' ac mae'n egluro ymhellach ddyletswyddau ariannol statudol cyrff GIG Cymru ac mae'n weithredol ar gyfer 2020-2021 ymlaen. Mae'r ddyletswydd ariannol flynyddol wedi'i dirymu ac mae'r ddyletswydd adennill costau statudol wedi dychwelyd i ddyletswydd tair blynedd, gyda'r asesiad cyntaf o'r ddyletswydd hon yn 2016-2017.